# Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Ionawr 2025

## Cynllun Adnau

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

# CDLl Newydd Adneuo Caerdydd 2021 – 2036: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cyngor Caerdydd

17 Ionawr 2025

# CDLl Newydd Adneuo Caerdydd 2021 – 2036: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

IAITH Cyf. a BURUM
Owain Wyn a Kathryn Jones

**IAITH Cyf.**
Uned 3,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gâr, SA38 9DB

**Ff** 01239 711668
**E** post@iaith.cymru
www.iaith.cymru

# Cynnwys

Rhestr Tablau ..... 4
Rhestr Ffigurau ..... 5
Diffiniadau Allweddol ..... 6
Pennod 1: Methodoleg Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ..... 7
Pennod 2: Asesiad o Effaith y Polisïau Strategol ar y Gymraeg ..... 34
Pennod 3: Asesiad o Effaith Polisïau Datblygu Manwl ar y Gymraeg ..... 57
Pennod 4: Asesiad o Effaith Dyraniadau ar y Gymraeg ..... 108
Pennod 5: Arfarniad Cyffredinol o Effaith y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar y Gymraeg 2021 – 2036 ..... 127
Atodiad 1: Cynlluniau Datblygu Lleol ac ystyriaeth o'r effaith ar y defnydd o'r Gymraeg ..... 144
Atodiad 2: Pensaernïaeth Rheoli Risg Effeithiol – y berthynas rhwng egwyddorion, fframwaith a phroses ..... 146
Atodiad 3: Asesiad Effaith/Fframwaith Mwyafu Arfaethedig ..... 147
Atodiad 4: Sefydlu'r gwaelodlin ar gyfer nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2036 ..... 149

# Rhestr Tablau

Tabl 1: Effaith a Ragwelir ar Dreftadaeth Hanesyddol a Diwylliant gan gynnwys y Gymraeg ........ 16
Tabl 2: Newidiadau i'r Tabl yn deillio o arfarniad Polisïau Strategol y CDLlN Drafft..56
Tabl 3: Newidiadau i'r Tabl yn deillio o arfarniad Polisïau Datblygu Drafft y CDLl..107
Tabl 4: Newidiadau yn deillio o arfarniad Dyraniadau Drafft y CDLlN ........ 126
Tabl 5: Cydrannau newidiadau poblogaeth........128
Tabl 6: Crynodeb o arfarniad AEG y Polisïau Strategol ........ 131
Tabl 7: Crynodeb o arfarniad AEG y Polisïau Datblygu Manwl ........ 132
Tabl 8: Crynodeb o arfarniad effaith Dyraniadau ar y Gymraeg ........ 134
Tabl 9: Taflwybr Amcanol Cyflawniadau Tai fesul Blwyddyn a Chyfnodau Amser ........ **Error! Bookmark not defined.**
Tabl 10: Crynodeb o'r Arfarniad ........ 141
Tabl 11: Sgorio Cyffredinol yr Effaith Debygol........ 143

## Rhestr Ffigurau

Ffigur 1: Matrics Sgorio a awgrymir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ..................................... 14
Ffigur 2: Meini Prawf Sgorio ACI CDLlN Caerdydd ............................................. 15
Ffigur 3: Fframwaith Rheoli ac Asesu Cynllun Adneuo CDLl Newydd Caerdydd a Gwireddu'r Weledigaeth Caerdydd Ddwyieithog - y berthynas rhwng Fframwaith, Proses a Chyd-destun ......................................................... 28
Ffigur 4: Matrics effaith a thebygolrwydd............................................................. 30
Ffigur 5: Matrics effaith ar gyflawni'r Genhadaeth Caerdydd Ddwyieithog ............. 32
Ffigur 6: Effaith y Polisïau Strategol ar gyflawni targed Caerdydd Ddwyieithog ..... 35
Ffigur 7: Effaith Polisïau Datblygu ar gyflawni targed Caerdydd Ddwyieithog.......... 58
Ffigur 8: Effaith Dyraniadau ar gyrraedd targed Caerdydd Ddwyieithog ................ 109
Ffigur 9: Amcanestyniad LlC o niferoedd y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn, 2011 i 2050 ........................................................................................................ 151
Ffigur 10: Amcanestyniad LlC o niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn ar gyfnodau penodol hyd at 2050 .................................................. 153
Ffigur 11: Amcangyfrif o'r taflwybr twf siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2036 ........................................................................................................ 155

## Diffiniadau Allweddol

**Ansicrwydd** – cyfyngiadau ar ein gwybodaeth am effeithiau pobl yn dewis pa iaith i'w defnyddio a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad hwnnw.

**Ardal o bwysigrwydd ieithyddol –** am drafodaeth ar yr ystyr gweler *Papur Technegol Cefndir Rhif 9: Y Gymraeg.*

**Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg** – asesiad o effaith debygol cynllun datblygu neu ddatblygiad defnydd tir arfaethedig ar ddefnyddio'r Gymraeg neu ar ei gwytnwch mewn ardal.

**Asesiad risg** – y broses ffurfiol o werthuso canlyniadau peryglon a'u tebygoliaeth.

**Canlyniad** – effaith perygl/cyfle ar bresenoldeb pobl neu aelwydydd yn y dyfodol a all siarad Cymraeg pe bai'n digwydd a fesurir fel arfer ar raddfa difrifoldeb y canlyniad (tebyg i effaith).

**Cyfle -** cyfuniad o ganlyniad(au) posibl cyfleoedd a'u tebygoliaeth.

**Effaith** – yr effaith y byddai risg neu gyfle yn ei gael pe bai'n digwydd.

**Gwytnwch** – y pŵer neu'r gallu i ymateb yn gyflym a phriodol i amgylchedd sy'n gwaethygu er ymadfer i gyflwr gwell blaenorol er gwaethaf presenoldeb ffactorau risg.

**Perygl** –sefyllfa neu weithred a allai arwain at niwed i'r Gymraeg neu achosi effeithiau negyddol.

**Rheoli risg** – y broses o ganfod, asesu a barnu risg/cyfle a phwyso a mesur yr opsiynau sydd ar gael i ymateb i risg a phenderfynu ar y strategaeth a ffafrir.

**Risg** – cyfuniad o ganlyniad(au) posibl peryglon a'u tebygoliaeth.

**Risg/cyfle gweddilliol** – yr amlygiad sy'n deillio o risg neu gyfle penodol ar ôl i gamau gweithredu gael eu cymryd i'w rheoli a chan ragdybio bod y camau gweithredu yn effeithiol.

**Serendipedd/Cyfle -** sefyllfa neu weithred trwy ffawd a allai arwain at fudd i'r Gymraeg neu achosi effeithiau cadarnhaol.

**Tebygoliaeth digwydd** – tebygoliaeth y bydd perygl neu serendipedd yn digwydd. Yn hytrach na cheisio bod yn fanwl gywir (sydd yn aml yn fanwl gywirdeb ffug) yr opsiwn a awgrymir yn yr adroddiad hwn yw gwneud hyn mewn bandiau.

# Pennod 1: Methodoleg Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## 1 Cyflwyniad a chefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn deillio o ddymuniad Cyngor Caerdydd (y Cyngor) i ymgymryd â gwaith pellach i asesu'r effaith y mae Cynllun Adneuo Drafft Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd (CDLlN) yn debygol o'i chael ar y Gymraeg yn ardal y Cynllun.

1.2 Mabwysiadwyd y CDLl cyntaf yn 2016, yn fuan ar ôl deddfiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o baratoi'r Sylfaen Dystiolaeth ar gyfer y Cynllun cyn 2014 ac nid oedd yn cynnwys cynnal asesiad penodol na manwl o effaith y Cynllun ar y Gymraeg.

1.3 Mae'r Ddeddf Llesiant yn cynnwys nod penodol "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu" ac mae'r Ddeddf Gynllunio yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i asesu effaith cynlluniau a chynigion ar ddatblygiadau'r iaith. Mae deddfwriaeth a pholisi sydd wedi esblygu ers hynny, megis Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Chymru'r Dyfodol 2040 wedi cynnwys arweiniad polisi cryf i gefnogi'r iaith. Mae'r rhain, ynghyd â chyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad y Boblogaeth 2021, wedi arwain y Cyngor i ystyried bod angen asesiad mwy trylwyr a chynhwysfawr nawr nag ar y Cynllun blaenorol.

1.4 Mae rhywfaint o ystyriaeth o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg wedi'i gynnwys o ddechrau proses y cynllun datblygu fel rhan o Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) y Cynllun. Mae'r Fframwaith ACI yn cynnwys 11 Amcan Cynaliadwyedd (Sustainability Objective/SO). Teitl SO5 yw "Treftadaeth Hanesyddol a Diwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg" ac o fewn yr amcan ehangach hwn y mae effaith y Cynllun arfaethedig wedi cael ei ystyried. Er bod gan Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) gryfderau o ran "casglu ynghyd" yr effaith ar gynaliadwyedd, gwendid y dull hwn yw'r perygl o beidio â deall yn llawn yr effaith ar ddimensiynau penodol o gynaliadwyedd, yn enwedig fel y'u cymhwysir yng nghyd-destun y Gymraeg.

1.5 Fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol, cynhaliwyd asesiad ar wahân ar y Gymraeg (a'i wneud yn fewnol) fel rhan o nifer o asesiadau effaith cyn ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir ddrafft. Er i'r Asesiad ddod i'r casgliad "Ni ragwelir y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg" tynnodd sylw hefyd, o ran Safonau Mesur y Gymraeg ar lunio polisi "nodwyd ystod o faterion mewn trafodaeth â Chaerdydd Ddwyieithog ....i'w hystyried ymhellach fel rhan o baratoi'r cynllun Adneuo neu'r cynllun Llawn."

1.6 Ynghyd â'r Strategaeth a Ffefrir ddrafft ac ACI cysylltiedig y Strategaeth a Ffefrir, cafodd yr Asesiad Effaith Integredig Sengl (AEIS) ei gynnwys fel rhan o'r pecyn dogfennau ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir dros yr Haf/ddechrau Hydref 2023.

Er yn gyfyngedig, roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad o ran y Gymraeg yn gyffredinol yn croesawu cydnabyddiaeth y Cynllun bod angen i bolisïau a chynigion o ran datblygiadau a seilwaith newydd ac arwyddion a dehongli, fod yn gefnogol er mwyn i'r Gymraeg ffynnu yn y Ddinas.

1.7 Un o'r materion a gododd o Asesiad o Effaith y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg oedd "a ellid erbyn hyn ystyried unrhyw ardaloedd yn - neu'n agosáu at y trothwy o fod - yn Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol" fel sy'n ofynnol gan NCT20.

1.8 Yn ogystal, yn ystod hanner olaf 2023/24 cynhaliodd Cyngor Caerdydd adolygiad o'i Broses Datblygu Polisi a oedd yn cynnwys adolygiad o'i gydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg. Yn benodol, talodd y Cyngor sylw i farn Comisiynydd y Gymraeg bod yn rhaid darparu tystiolaeth gadarn bod "ymdrech gydwybodol" wedi'i chymhwyso i ddeall ac asesu effaith datblygu polisi newydd, neu unrhyw adolygiad o'r polisïau presennol ar y defnydd o'r Gymraeg. Tanlinellwyd hyn gan ganfyddiadau Tribiwnlys y Gymraeg ynghlwm ag apêl achos.[1] Roedd hyn hefyd yn rhoi pwys ar yr angen i adolygu sut roedd y Cynllun yn mynd i'r afael â'r modd yr oedd yn ystyried ei effaith ar ddefnyddwyr y Gymraeg.

1.9 Mae gofynion y Fframwaith ACI a'r Templed Effaith ar y Gymraeg yn gosod cyfyngiad ar a ellir dangos ôl ymdrech gydwybodol ddigon cadarn trwy'r sianeli hyn.

1.10 Ystyrir gan y Cyngor bod cyfyngu'r gwaith hwn i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn unig yn cyfyngu ar ehangder a chwmpas y craffu angenrheidiol i fabwysiadu polisi o'r fath. Drwy ddefnyddio arbenigedd allanol mewn cynllunio a chynllunio ieithyddol a oedd yn annibynnol ar y Cyngor, gallai'r asesiad hefyd dynnu ar brofiadau cynllunio CDLlau, strategaethau a pholisïau o'r tu hwnt i Gaerdydd. O ystyried mai ymgymeriad polisi'r Awdurdod yw'r Cynllun Datblygu Lleol ac i sicrhau bod yr holl effeithiau sylweddol posibl ar y Gymraeg yn cael eu dwyn i'r amlwg a'u deall, comisiynwyd Iaith/BURUM i gynnal yr asesiad annibynnol hwn o'r effaith ar y Gymraeg. Bydd crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg llawn yn cael ei ymgorffori i'r ACI.

## 2 Y Dull a Fabwysiadwyd

1.11 Y cam cyntaf yw cytuno ar y fethodoleg asesu effaith sydd i'w defnyddio. Y meini prawf i'w defnyddio wrth gytuno ar fethodoleg yw bod angen i'r dull fod <u>cynhwysfawr</u>, <u>uchelgeisiol</u> ac <u>yn ddigon hyblyg</u> i fynd i'r afael â thirwedd ieithyddol Caerdydd sy'n debygol o newid dros oes y Cynllun.

1.12 Yr ymagwedd a ddefnyddir yma yw adolygu'r canllawiau presennol i ddeall beth y mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ei wneud ac yna fyr i adolygu'r methodolegau asesu effaith ar y Gymraeg i sefydlu pa fethodoleg sydd yn gweddu orau at y diben hwn.

[1] Gweler Papur Technegol y Gymraeg am fanylion.

1.13 Mae'r adolygiad yn ystyried cyngor Llywodraeth Cymru ar rinweddau dull asesu integredig a'r angen i ystyried sut fydd yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn plethu maes o law i'r asesiadau effaith ehangach.

1.14 Yng ngoleuni'r adolygu hwn, rydym wedyn yn ymchwilio i ba fethodolegau eraill sy'n bosibl, ac ar ôl eu harchwilio yn erbyn meini prawf cynhwysedd, ymarferoldeb ac addasrwydd, rydym yn gwneud argymhellion ar y fethodoleg y ffefrir ei defnyddio.

1.15 Mae'r adrannau sy'n weddill o'r bennod hon yn:

i) rhoi crynodeb o'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi;
ii) adolygu deilliannau canfyddiadau effaith yr ACI a'r AEIS ar y Gymraeg yn gryno;
iii) adrodd ar y Strategaeth a Ffefrir (gan gynnwys sut ystyriwyd Gweledigaeth, Amcanion, Strategaethau Twf a Gofodol a Pholisïau Strategol y Cynllun) gan wneud cyfres o argymhellion ynghylch y fframwaith strategol hwn;
iv) asesu cynnwys y Cynllun Adneuo Drafft wrth iddo ddatblygu cyn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

## 3 Y Cyd-destun Polisi – Polisi Cynllunio Cymru a NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg

1.16 Mae Polisi Cynllunio Cymru[2] (PCC) yn gosod egwyddorion y drefn gynllunio ger bron ac yn amlinellu polisïau llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Ynghyd â Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau), cylchlythyrau Llywodraeth Cymru a llythyrau eglurhad polisi, rhain sydd yn ffurfio'r fframwaith polisi cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r polisïau'n cael eu diweddaru a'u cyhoeddi o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o PCC (Rhifyn 12) ym mis Chwefror 2024.

1.17 Datgenir mai prif amcan y fframwaith polisi cenedlaethol yw "sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â gofyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall a dyletswyddau canlyniadol".[3]

1.18 Nodir hefyd mai nod y system gynllunio defnydd tir yng Nghymru yw creu Mannau Cynaliadwy (a gwella Llesiant). Mae'r Llywodraeth yn ffafrio'r ymagwedd "Creu Lleoedd" a ddisgrifir fel "Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd". [4]

1.19 Mae'n nodi pum egwyddor:

- Helpu'r economi i dyfu mewn ffordd gynaliadwy
- Gwneud y gorau o adnoddau
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach
- Creu a chynnal cymunedau

[2]Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) Chwefror 2024, Llywodraeth Cymru (2024)
[3] Ibid. para. 1.2.
[4] Ibid. para. 2.9.

- Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd

1.20 Mae Ffigur 5 yn PCC yn nodi 37 canlyniad o fewn fframwaith y pum egwyddor hyn. Un o'r canlyniadau a ddymunir o dan Creu a Chynnal Cymunedau yw "Galluogi'r Gymraeg i ffynnu".

1.21 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn glir bod y Gymraeg "yn rhan o'r ffabrig cymdeithasol a diwylliannol" (yng Nghymru) ac y dylai'r "system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu".[5]

1.22 Cyn Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2018), gofynnwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried, pe bai amddiffyn/hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei nodi fel blaenoriaeth yn eu Cynllun Integredig Sengl, yna dylid ystyried anghenion diogelu/hyrwyddo'r Gymraeg, i'r graddau eu bod yn berthnasol i ddatblygiad a defnydd tir, wrth ddatblygu eu cynlluniau datblygu lleol gan ddefnyddio'r mecanwaith Arfarnu Cynaliadwyedd.

1.23 Cyhoeddwyd TAN 20[6] cyn Polisi Cynllunio Cymru 10 ym mis Hydref 2017 ac mae'n esbonio'r ddeddfwriaeth a'r fframwaith polisi wrth ystyried cynllunio defnydd tir a'r Gymraeg (Rhan A) ac mae'n rhoi cyngor ar sut i ystyried y Gymraeg yn y broses o ddatblygu cynlluniau datblygu lleol (Rhan B). Dylid nodi felly ei fod wedi'i gyhoeddi cyn mabwysiadu'r fframwaith "Creu Lleoedd."

1.24 Dywed NCT20 yn Adran 1.7.2 "Mae'r strategaeth hefyd yn nodi fod yn rhaid creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer hybu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg... ond mae'n ymwneud hefyd â sicrhau dyfodol economaidd a chymdeithasol i gymunedau Cymraeg eu hiaith."

1.25 Er bod hyn yn pwysleisio cymunedau Cymraeg â dwysedd uwch, mae Adran 1.7.3 yn datgan yn uniongyrchol y gall fod yn berthnasol i gymunedau ledled Cymru "Gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol, drwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu." (Gweler hefyd bwynt 4 o dan baragraff 1.28 isod).

1.26 Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd i ddatblygu amcan cynaliadwy ar gyfer y Gymraeg ac asesu cadernid y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn erbyn yr amcan a osodwyd. Nodir nad yw'r cyngor hwn yn rhagnodol. Mae hefyd yn parhau i fabwysiadu'r cyngor ar gyfer cynnal asesiadau Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol a ddatblygwyd yn wreiddiol yn 2005.

Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Adran 3.25 Llywodraeth Cymru (Chwefror 2024)
[6]Nodyn Cyngor Technegol NCT20 "*Cynllunio a'r Gymraeg*" Llywodraeth Cymru (Hydref 2017)

**Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol 2040 (cyhoeddwyd Chwefror 2021)**

1.27 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) (2015) yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Mae Rhan 3 Adran 60 (2) y Ddeddf yn datgan "Rhaid i'r Fframwaith nodi polisïau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.[7]

1.28 O safbwynt y Gymraeg a Chaerdydd y prif bwyntiau i'w nodi yw:

- Diben penodol Cymru'r Dyfodol yw sicrhau bod pob agwedd ar y system gynllunio yn gyson â nodau a pholisïau strategol Llywodraeth Cymru, a'i bod yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni (Cyflwyniad, t. 10)
- Mae'r ffigwr ar dudalen 24 yn nodi dosbarthiad daearyddol nifer y siaradwyr Cymraeg fesul clwstwr yn ôl Cyfrifiad 2011 ac mae'n nodi uchelgais 2050 - Miliwn o Siaradwyr.
- Mae Deilliannau Cymru'r Dyfodol yn uchelgeisiau trosfwaol yn seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau cenedlaethol o greu lleoedd cynaliadwy a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r 11 Canlyniad yn ddatganiad o ble yr hoffem fod fel cenedl ymhen 20 mlynedd.
- Y pedwerydd Canlyniad a nodwyd yw "Cymru lle mae pobl yn byw... mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu." **"Bydd yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu"** *(pwyslais yr awdur).* "Mewn mannau eraill (lle nad Cymraeg yw iaith bob dydd y gymuned) bydd gwaith datblygu yn rym cadarnhaol i greu seilwaith addysgol a chymdeithasol er mwyn i'r iaith allu datblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau."
- Bob pum mlynedd bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi ac yn cyhoeddi adolygiad o Cymru'r Dyfodol. Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar bedair ffynhonnell allweddol – Y Dangosyddion Cenedlaethol; Dangosyddion Cymru'r Dyfodol sy'n gysylltiedig â pholisi; Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig; a Thystiolaeth gyd-destunol a ffactorau dylanwadol. (t. 59)
- Y strategaeth yw i adeiladu ar gryfderau a manteision presennol. Mae'n annog patrymau datblygu cynaliadwy ac effeithlon, sy'n seiliedig ar gydleoli cartrefi â swyddi a gwasanaethau hanfodol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae'n galluogi creu cymunedau cynaliadwy, ffyniannus ac mae'n cyd-fynd â nod ehangach Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. (t. 60).
- Wrth ddatblygu'r fframwaith polisi sy'n ofynnol gan bolisi 19, rhaid i bob Cynllun Datblygu Strategol ystyried ac ymateb i Ganlyniadau Cymru'r Dyfodol a nodir ym Mhennod 3. Rhaid iddynt ddangos sut y bydd y fframwaith gofodol y maent yn ei ddatblygu a'r dewisiadau allweddol a wnânt yn cyfrannu at gyflawni'r Canlyniadau. Bydd archwilio Cynlluniau

[7] Op. Cit. Is-adran 60(2).

Datblygu Strategol yn erbyn Canlyniadau Cymru'r Dyfodol yn rhan bwysig o brofi cadernid Cynlluniau Datblygu Strategol. (t. 102).

- Mae trosolwg pob rhanbarth yn cynnwys paragraff sy'n manylu ar nifer y siaradwyr Cymraeg o Gyfrifiad 2011 ac anogaeth bolisi:

> "De-ddwyrain - Gyda 150,792 o siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth, **mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg.***(Pwyslais yr awdur).* Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthiad twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu ledled y rhanbarth ac yn annog datblygu cymunedau lle gall y Gymraeg fod yn iaith bob dydd". (t.160)

**Ystyriaethau Eraill**

<u>Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)</u>

1.29 Cyhoeddwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ym mis Gorffennaf 2024. O ran cynllunio defnydd tir a'r Gymraeg, y materion perthnasol yw y bydd y ddeddfwriaeth hon yn:

- darparu sail statudol ar gyfer y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol;
- sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd;
- gwneud darpariaethau i ddynodi categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion, ynghyd â gofynion sy'n ymwneud â faint o addysg Gymraeg a ddarperir (gan gynnwys isafswm), a nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori;
- cysylltu cynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel awdurdod lleol (drwy osod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg lleol), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i baratoi cynlluniau darparu addysg Gymraeg);
- sefydlu Sefydliad Dysgu Cymraeg Cenedlaethol fel corff statudol sy'n gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oed) i ddysgu Cymraeg.[8]

[8] Datganiad Ysgrifenedig: Cyflwyno Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (15 Gorffennaf 2024) | GOV. CYMRU. Cyrchwyd 16 Ionawr 2025.

# 4 Adolygiad o'r methodolegau presennol

### Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.30 Mae Adran 19 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol gynnal arfarniad cynaliadwyedd o bob un o'r opsiynau, y strategaeth a ffefrir a chynigion mewn cynllun yn ystod ei baratoi. Yn fwy cyffredinol, mae Adran 39 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n paratoi'r cynllun wneud hynny gyda'r amcan o gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

Canllawiau ar fethodoleg Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.31 Mae camau Arfarniad Cynaliadwyedd o Gynlluniau Datblygu Lleol fel a ganlyn:

- **Cwmpasu** - Adnabod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r gwaelodlin a phenderfynu ar y cwmpas;
- **Asesu opsiynau strategol CDLlau** yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd ac i lunio Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd;
- **Asesu polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo** yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd ac i lunio Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd;
- **Cynhyrchu Datganiad Cynaliadwyedd yn** nodi sut mae canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi cael eu hystyried yn y Cynllun terfynol.

1.32 O ran asesu yn erbyn amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd, gofynnir i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi effeithiau arwyddocaol tebygol yr opsiwn a ddewisir. Mae rhagweld effeithiau yn golygu nodi newidiadau tebygol i'r gwaelodlin. Mae rhagweld effeithiau'n golygu y dylid cynnwys maint effeithiau'r cynllun, sensitifrwydd y derbynnydd a nodweddion yr effaith.

1.33 Mae'r rhan fwyaf o asesiadau' wedi eu seilio ar fabwysiadu dull ansoddol. Mae hyn oherwydd ei bod yn anodd gwahanu effeithiau'r cynllun arfaethedig oddi wrth effeithiau eraill a chwmpas eang y cynllun ei hun.

1.34 Yn gyffredinol, mae asesiadau Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn canolbwyntio ar y cyfeiriad (h.y. maent yn fras ac yn ddisgrifiadol) yn hytrach nag ar ddeilliant penodol. Mae sgoriau ar gyfer rhagweld effeithiau tebygol fel arfer yn dilyn y canllawiau a roddwyd ar gyfer cynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol a gyhoeddwyd yn 2005.[9]Gan ddefnyddio'r canllawiau hyn, caiff yr effeithiau tebygol a ragwelir eu sgorio fel a ganlyn:

[9] Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Llywodraeth y DU (2005) Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol, Atodiad 7.

| | |
|---|---|
| ++ | Cadarnhaol iawn |
| + | Cadarnhaol |
| 0 | Niwtral |
| - | Negyddol |
| -- | Negyddol iawn |

1.35 Mae'r fframwaith sgorio hefyd yn caniatáu 'ansicr' lle na ellir rhagweld yr effeithiau neu nad yw'n glir beth fydd yr effeithiau hynny.

1.36 Mae’r Matrics Sgorio a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Llawlyfr Cynlluniau Datblygu10 yn mabwysiadu’r dull hwn ac yn cael ei atgynhyrchu yn **Ffigur 1**. Mae'r matrics hwn yn asesu cynaliadwyedd yr opsiynau arfaethedig mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol ar adeg cyflawni’r asesiad O ystyried bod amserlen CDLl fel arfer yn 15 - 20 mlynedd, rydym o’r farn y bydd yr asesiad yn fwy perthnasol os caiff ei gynnal ynghlwm â thaflwybr rhagweladwy yr Awdurdod Lleol ar gyfer twf poblogaeth dros oes y cynllun.

**Ffigur 1: Matrics Sgorio a awgrymir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol**[11]

| Symbol | Effaith a ragwelir | Camau a awgrymir |
|---|---|---|
| ++ | Effeithiau cadarnhaol iawn o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol | Ystyried unrhyw fesurau gwella pellach |
| + | Effaith gadarnhaol o gymharu â'r sefyllfa bresennol | Ystyried unrhyw fesurau gwella pellach |
| 0 | Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa bresennol | Ystyried a allai ymyrraeth gael effeithiau cadarnhaol |
| - | Effaith negyddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol | Ystyried mesurau lliniaru: osgoi'r effaith yn gyntaf, ac yna lleihau effaith, ac yn olaf iawndal am yr effaith. Ailystyried polisi/defnydd arfaethedig. |
| -- | Effaith negyddol iawn o gymharu â'r sefyllfa bresennol | Ystyried mesurau lliniaru i leihau difrifoldeb yr effaith, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn anodd a/neu'n gostus. Ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig. |
| I | Mae'r effaith yn dibynnu ar sut mae'r polisi a'r dyraniad yn cael eu gweithredu | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu |
| ? | Ansicr | Mae angen mwy o wybodaeth. Ystyried ble gellid cael yr wybodaeth? Sut a phryd y gellid ei chasglu. |

Ffynhonnell: Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, 3 Llywodraeth Cymru (2020)

[10] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Rhifyn 3 Llywodraeth Cymru (Mawrth 2020)
[11] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Rhifyn 3 Llywodraeth Cymru (Mawrth 2020)

1.37 Mae'r Matrics Sgorio a ddefnyddir ar gyfer fframwaith ACI Caerdydd yn defnyddio o'r uchod wedi ei addasu (**Ffigur 1**). Y prif wahaniaeth yw bod y matrics yn nodi'r posibilrwydd ar gyfer cadarnhaol a negyddol mewn cyfran gymharol gydradd (ac yn cydnabod bod hyn yn wahanol i gael effaith niwtral).

**Ffigur 2: Meini Prawf Sgorio ACI CDLlN Caerdydd**

| | |
|---|---|
| - - | Negyddol mawr o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol |
| - | Negyddol bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol |
| +/- | Cadarnhaol a negyddol |
| 0 | Effaith niwtral |
| + | Cadarnhaol bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol |
| ++ | Cadarnhaol mawr o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol |
| ? | Ansicr – Effaith ansicr neu anhysbys |

Ffynhonnell: op. Cit. , tudalen 6

**Dulliau cyfredol o asesu'r effaith ar y Gymraeg ymhlith Awdurdodau Cynllunio Lleol**

1.38 Mae **Atodiad 1** yn rhoi crynodeb o CDLlau awdurdodau cynllunio lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi'u mabwysiadu a'r modd yr ystyrir y Gymraeg.[12]

1.39 Yn y cynlluniau hyn, rhoddir pwysoliad ychwanegol i ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg. Defnyddir yr ystyriaethau hyn fel arfer fel rhan o bolisïau cyffredinol a chynigion cynlluniau datblygu, y mae cynigion datblygu penodol yn cael eu hasesu yn eu herbyn.

1.40 Ar wahân i CDLlau Sir Gaerfyrddin a Gwynedd a Môn, roedd yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill wedi mabwysiadu'r fethodoleg Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (neu amrywiad ohoni) a ddisgrifir yn y ddogfen Cynllunio a'r Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005).

<u>Y Berthynas a'r Rhyngweithio ag Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) CDLlN Caerdydd</u>

1.41 Yn ei astudiaeth gwmpasu gychwynnol, nododd yr ACI y Gymraeg fel un mater gan gynnig asesu effaith y Cynllun ar y Gymraeg fel rhan o'r pwnc Treftadaeth Hanesyddol a Diwylliannol (wedi'i grynhoi fel "Treftadaeth" – Amcan Cynaliadwyedd 5 (SO5). Mae ACI Caerdydd yn mesur effaith yn erbyn y matrics sgorio y cyfeirir ato yn **Ffigur 2** uchod.

1.42 O ran effaith gweledigaeth ac amcanion y CDLlN ar SO5, sgoriwyd y Weledigaeth Gyffredinol gan yr ACI fel "cadarnhaol bach" o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Sgoriwyd yr opsiwn twf a ffefrir fel "negyddol bach" neu "ansicr". O ran yr opsiwn gofodol a ffefrir, er na nodwyd yr hybrid a ffefrir ar y pryd, mae'r opsiwn hybrid yn

[12] Adolygwyd Iaith/BURUM Mawrth 2024.

cynnwys opsiynau 2 - 6. Sgoriwyd opsiynau 2 – 5 fel niwtral gydag Opsiwn 6 fel negyddol bach.

1.43 O ran y Polisïau Strategol (21 ar y pryd) disgrifiwyd yr effaith ar Dreftadaeth o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol fel:

- "niwtral" ar gyfer 14 o'r Polisïau Strategol.
- "cadarnhaol" ar gyfer tri o'r Polisïau Strategol (SP4 Dylunio, SP8 Cefnogi rôl y Porthladd ac SP13 Diogelu a Gwella'r Dreftadaeth Adeiledig a Diwylliant).
- "ansicr" mewn dau Bolisi Strategol (SP6 ac SP9)
- "negyddol bach" mewn un polisi strategol (SP2) a
- "niwtral" (SP1).

1.44 Mae **Tabl 1** yn dadansoddi'r effaith a ragwelir o fewn paramedrau'r Gymraeg ac yn nodi ac yn cynnig sylwebaeth ar feysydd awgrymedig i'w dadansoddi ymhellach yn yr adroddiad hwn.

**Tabl 1: Effaith a Ragwelir ar Dreftadaeth Hanesyddol a Diwylliant gan gynnwys y Gymraeg**

| **Polisi Strategol** | **Effaith a Ragwelir** | **Camau Gweithredu ACI o ran y Gymraeg** | **Sylwebaeth Gychwynnol ar yr Effaith ar y Gymraeg** |
|---|---|---|---|
| SP1 - Darparu ar gyfer twf cynaliadwy | +/- | Dim sylwadau wedi eu darparu ar y Gymraeg | Mae'r sylwadau yn canolbwyntio ar Effeithiau Gofodol yn hytrach na graddfa twf anheddau a swyddi. Gallai sylwebaeth ystyried yr effaith debygol ar daflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg |
| SP2 - Cynnal twf economaidd a gwydnwch | - | Dim sylwadau penodol ar y Gymraeg | Gallai sylwebaeth ystyried sut y gallai twf economaidd, o ran y dewis ynghylch graddfa a lleoliad safleoedd cyflogaeth, gael effaith ar daflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg |
| SP3 - Sicrhau dull uwchgynllunio | 0 | Dim sylwadau | |
| SP4 - Sicrhau dylunio cynaliadwy o ansawdd da | + | Dim sylwadau wedi eu darparu ar y Gymraeg | Gallai sylwebaeth ystyried sut y gallai'r Polisi gyfeirio at y Gymraeg fel rhan o "Cymeriad" |
| SP5 - Sicrhau seilwaith newydd | 0 | Dim sylwadau | Gallai sylwebaeth ystyried sut y gallai'r Polisi gyfeirio at gefnogi'r Gymraeg fel rhan o'r ddarpariaeth neu gyfraniad tuag at fathau penodol o "seilwaith newydd" |
| SP6 - Sicrhau rhwymedigaethau cynllunio | ? | Dim sylwadau | Gallai sylwebaeth ystyried sut y gallai'r Polisi gyfeirio at y Gymraeg fel rhan o wella neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | liniaru datblygiadau newydd (e.e. ysgolion ac adeiladau a chyfleusterau addysg a chymunedol) |
| SP7 - Cefnogi Ardal Fusnes y Canol a'r Bae | 0 | Dim sylwadau wedi eu darparu ar y Gymraeg | Gallai sylwebaeth ystyried sut y gallai'r Polisi gyfeirio at bwysigrwydd gwella cymeriad Cymraeg y porth allweddol hwn i brifddinas Cymru |
| SP8 - Cefnogi rôl porthladd Caerdydd | + | Dim sylwadau wedi eu darparu ar y Gymraeg | |
| SP9 - Twristiaeth | ? | Dim sylwadau wedi eu darparu ar y Gymraeg | Gallai sylwebaeth ystyried sut y gallai'r Polisi gyfeirio at bwysigrwydd cynnal, cefnogi a gwella'r "cynnig" Cymraeg |
| SP10 - Cynnal cyflenwad o fwynau | 0 | Dim sylwadau | |
| SP11 - Darparu cymdogaethau cynaliadwy, cydlyniant cymdeithasol a thai fforddiadwy | 0 | Dim sylwadau wedi eu darparu ar y Gymraeg | Nodir cyfeiriad at gyfleoedd i gefnogi'r Gymraeg yn maen prawf v. |
| SP12 - Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch | 0 | Dim sylwadau | Gallai sylwebaeth ystyried sut y gallai Polisi gyfeirio at wella mynediad at wasanaethau Cymraeg |
| SP13 - Diogelu a gwella treftadaeth adeiledig a diwylliant | +? | Sylwadau sy'n awgrymu y gallai'r polisi wella'r Gymraeg trwy well mynediad neu well cefnogaeth. Ond efallai bod angen dweud mwy. | Mae ffocws y polisi ar yr amgylchedd ffisegol er y gellid cyfeirio'n fwy penodol at ddiogelu a gwella'r dimensiwn Cymraeg sy'n nodweddu llawer o'r "arbenigrwydd diwylliannol" |
| SP14 - Diogelu lleoliad y ddinas gyda lletem las | 0 | Dim sylwadau | |
| SP15 - Rheoli twf gofodol trwy ffiniau aneddiadau | 0 | Dim sylwadau | |
| SP16 - Darparu trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol | 0 | Dim sylwadau | |
| SP17 - Sicrhau seilwaith trafnidiaeth newydd | 0 | Dim sylwadau | |
| SP18 - Sicrhau gwydnwch hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd | 0 | Dim sylwadau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| SP19 - Diogelu, digolledu a gwella seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth | 0 | Dim sylwadau | |
| SP20 - Lleihau'r effeithiau ar adnoddau naturiol | 0 | Dim sylwadau | |
| SP21 - Rheoli gwastraff | 0 | Dim sylwadau | |

Ffynonellau: Cyngor Caerdydd a Levett - Therivel Sustainability Consultants (Mai 2023) Adroddiad Technegol ACI a AAS, Atodiad C.

1.45 Mae'r ACI yn nodi y canfu asesiad y Gymraeg y ddinas ei hun "*nad yw Strategaeth a Ffefrir y CDLlN yn debygol o effeithio'n negyddol ar y Gymraeg, a bydd Polisi SP11 yn helpu i ddarparu cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg*."

## Y Berthynas a'r Rhyngweithio ag Asesiad Effaith Integredig Sengl Cyngor Caerdydd a'r Asesiad o Effaith y Strategaeth a Ffefrir y CDLlN ar y Gymraeg

1.46 Yn cydfynd â'r ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLlN yn Hydref 2023 yr oedd Papur Technegol Cefndir Rhif 4.[13] Mae hwn ar ffurf adroddiad sy'n dilyn templed y Cyngor ar gyfer cwblhau nifer o asesiadau effaith ar gyfer asesu polisïau newydd neu ddiwygio neu amnewid polisïau sy'n bod eisoes. Mae'r meysydd asesu effaith a gwmpesir yn cynnwys:

- cydraddoldeb
- hawliau plant
- y Gymraeg

1.47 Er wedi'u rhestru, nid oes adrodd ar y rhain ar y cam hwn yn natblygiad y cynllun:

- rheoliadau cynefinoedd
- yr amgylchedd (Asesiad Amgylcheddol Strategol)
- diogelu data
- iechyd.

1.48 Yna crynhoir yr effeithiau a gaiff eu sgrinio a'u nodi, a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael ag effeithiau gwahaniaethol, mewn Asesiad Effaith Sengl. Mae'r asesiadau'n asesu effeithiau'r Polisïau Strategol ar wahanol is-gategorïau o'r boblogaeth.

1.49 O ran yr asesiad effaith ar y Gymraeg, y dull a fabwysiadwyd oedd mesur effaith y Strategaeth a Ffefrir yn erbyn gofynion Safonau Polisi Mesur y Gymraeg 2011. Mae safonau 88 i 90 yn ymdrin â llunio polisi.

1.50 O ran adnabod unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg,

casgliad yr asesiad yw:

> *Ni ragwelir y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg na thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, wrth i'r Cynllun fynd rhagddo ac wrth i bolisïau manylach gael eu llunio, bydd angen asesu a lliniaru effaith y rhain lle bo hynny'n briodol.*

[13] Cyngor Dinas Caerdydd (Mehefin 2023) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Papur Technegol Cefndir Rhif 4.

1.51 Mae'r asesiad wedi'i gymhwyso gan y sylwadau canlynol o ran asesu Safon 89 ("*A ellid llunio'r cynnig hwn neu ei ail-lunio, fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?")*

*"Mae ystod o faterion wedi cael eu nodi mewn trafodaeth â Chaerdydd Ddwyieithog i'w hystyried ymhellach fel rhan o baratoi'r cynllun Adneuo neu "Lawn" dros y deuddeg mis nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:*

- *Ymchwilio i weld a ellid bellach ystyried unrhyw ardaloedd fel eu bod, neu yn agosáu at groesi'r trothwy o fod, yn Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol gan ystyried canfyddiadau diweddaraf y Cyfrifiad.*
- *Sicrhau bod y cynllun yn cyfeirio at arwyddion dwyieithog a pholisi enwi strydoedd mabwysiedig y Cyngor mewn polisïau manwl a Chanllawiau Cynllunio Atodol.*
- *Cynnwys strategaeth enwi yn y CDLl Newydd i hwyluso mwy o ddefnydd o enwau Cymraeg/dwyieithog ar gyfer lleoedd i gyd-fynd â pholisïau enwi eraill fel y polisi enwi strydoedd mabwysiedig.*
- *Ymchwilio i weld a ellid cynnwys ymrwymiad yn y cynllun i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ar brosiectau gydol oes y CDLl. Byddai ymrwymiad o'r fath yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg ac yn gweithredu fel pwynt gwirio defnyddiol.*
- *Sicrhau bod cyfeiriadau penodol yn cael eu gwneud yn y polisïau manwl a'r Canllawiau Cynllunio Atodol i'r cysylltiadau rhwng datblygiadau newydd a phoblogaethau ysgolion yn y dyfodol a darpariaeth neu well darpariaeth lleoedd Cymraeg mewn ysgolion o ystyried yr effaith gadarnhaol y mae'r lleoedd hyn yn ei chael ar y Gymraeg.*

*Adroddir ar gynnydd ar y materion hyn yn fersiwn nesaf yr asesiad a fydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Adneuo.*

1.52 Yn y bôn, yn ogystal ag asesu effaith gyffredinol y Cynllun Adneuo, bydd yr adroddiad asesu hwn yn edrych i weld a yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r materion hyn ac os ydyw, sut y gwnaeth hynny. Yn ogystal, mae'r asesiad nid yn unig yn edrych ar fater yr effaith debygol ar y cyfleoedd presennol i ddefnyddio'r Gymraeg ond hefyd gyfleoedd yn y dyfodol wrth i'r Cynllun gael ei weithredu dros y cyfnod 2021 – 2036 o fewn cyd-destun cyfraniad Caerdydd i nod Cymraeg 2050 i gael miliwn o siaradwyr ac o ddyblu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10% i 20% a chanlyniad Llywodraeth Cymru erbyn 2040 o "Gymru lle mae pobl yn byw ... mewn mannau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."

1.53 Er y bydd yr Adroddiad Asesiad Effaith y Gymraeg (AEG) yn eistedd ochr yn ochr â'r ACI, defnyddir allbynnau'r asesiad i lywio cynnwys yr ACI a Chynllun Adneuo'r CDLlN (ac yn enwedig y Polisïau a'r Cynigion Manwl). Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Tîm Cynaliadwyedd ailedrych ar y sylwadau a wnaed yn y cam ACI blaenorol o ran y Weledigaeth, Amcanion, Strategaeth a'r Polisïau Strategol i lywio ACI y Cynllun Adneuo.

Y Berthynas a'r Rhyngweithio â Safonau Polisi Mesur y Gymraeg

1.54 Ym mis Medi 2020 lluniodd Comisiynydd y Gymraeg ddogfen gyngor arfer da ar sut i gydymffurfio â dyletswyddau statudol a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r fethodoleg a awgrymir yn y Canllaw ar gyfer cynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn fras yn dilyn dull a phroses debyg a hyrwyddir yma:

- Cam 1: Casglu gwybodaeth.
- Cam 2: Adnabod ac asesu ffactorau posibl i gasglu tystiolaeth amdanynt wrth ystyried yr effaith ar y Gymraeg.
- Cam 3: Mynd i'r afael â chanlyniadau cadarnhaol a negyddol tebygol effeithiau o'r fath a nodi atebion llunio polisi a fyddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu gadarnhaol iawn neu sy'n atal neu liniaru effeithiau andwyol neu'n helpu i leihau effeithiau andwyol.

1.55 Bydd ffocws y dull gweithredu hwn yn canolbwyntio ar nodi a yw'r Cynllun yn debygol o gael effeithiau sylweddol (naill ai'n gadarnhaol neu negyddol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nawr ond yn arbennig dros gyfnod y cynllun.

# 5 Methodoleg Arfaethedig ar gyfer AEG y Cynllun Adneuo

**Adolygiad o Fethodolegau Presennol Cynllunio a'r Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)**

1.56 Cyhoeddwyd "Cynllunio a'r Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen" gan gonsortiwm o awdurdodau lleol, Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ym mis Rhagfyr 2005. Cododd yr astudiaeth oherwydd pryder nad oedd rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol mewn ardaloedd siarad Cymraeg dwysedd uwch, er bod gofyn iddynt ystyried y Gymraeg fel mater cynllunio ers 1988, yn gwybod sut i weithredu'r canllawiau yn y (TAN 20 gwreiddiol) a oedd yn ymwneud â deall y berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a'r Gymraeg a'r ffordd orau o asesu effeithiau cynlluniau datblygu a chynigion datblygu mawr ar yr iaith.

1.57 Cefnogwyd y consortiwm yn ei waith gan Ysgol Gynllunio Bartlett Coleg Prifysgol Llundain. Yn ei hanfod, roedd y Tîm Astudio o blaid fframwaith asesu effaith tebyg i'r Asesiad Effaith Amgylcheddol a gyflwynwyd yn Neddf Cynllunio a Phwerau Gorfodol 2004 ac mae'r fframwaith yn asesu'r effaith ar wead cymdeithasol y gymuned yn nhermau pum dimensiwn - poblogaeth, ansawdd bywyd, yr economi, seilwaith, a bywyd cymdeithasol a diwylliannol.

1.58 Mae'r camau allweddol yn y fethodoleg i asesu'r effaith ar y Gymraeg, a gyflwynir yn y ddogfen *Cynllunio a'r Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)* yn cynnwys:

- Llunio Rhestr Wirio (gan gynnwys gwaelodlin) yn seiliedig ar 5 dimensiwn a 18 cwestiwn unigol.
- Sgorio'r rhestr wirio ar gyfer effeithiau tebygol.

- Cyfrifo'r Mynegai Effaith Cyffredinol.
- Asesu yn erbyn sensitifrwydd ieithyddol y safle / ardal.

1.59 Er bod gan y fethodoleg nifer o fanteision, yn bennaf ei debygrwydd i fframwaith yr AoG, profwyd hefyd fod iddo nifer o gyfyngiadau sylweddol:

- Yn gyntaf, nid oes unrhyw statws swyddogol gan *Y Ffordd Ymlaen* ac nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi ei gymeradwyo fel methodoleg i asesu'r effaith ar y Gymraeg.
- Er ei fod wedi'i lunio i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu cynlluniau datblygu lleol ac asesu ceisiadau, fe'i defnyddir yn bennaf at ddibenion asesu ceisiadau unigol ac nid i asesu effaith cynlluniau datblygu.
- Mae rôl a chyfrifoldebau rhanddeiliaid eraill (yn ogystal â'r Awdurdod Cynllunio Lleol) wrth gwblhau asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn aneglur.
- Mae'r berthynas rhwng effaith datblygiad arfaethedig ar fywiogrwydd y Gymraeg a rhai o'r 18 o gwestiynau yn yr asesiad yn ymddangos yn wan neu'n anodd eu mesur oherwydd, ar adegau, nid yw ansawdd y data yn gyfredol nac yn gadarn.
- Edrychir ar y berthynas yn nhermau mynegeion yn y gorffennol neu'r presennol ac ni ddefnyddir dulliau modelu senarios yn y dyfodol.
- Nid yw'r Mynegai Asesu Effaith Cyffredinol yn rhoi unrhyw arweiniad ar y pwysoliad y dylid ei ystyried ar gyfer canlyniadau'r 18 cwestiwn. Er bod y fethodoleg yn cydnabod yr opsiwn i ddarparu "pwysoli" ar gyfer pum elfen "bywyd cymunedol" a'r 18 cwestiwn cysylltiedig, yn ymarferol nid yw'r pwysoliad hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn asesiadau effaith ar y Gymraeg.
- Mae'r fethodoleg hon ond yn mesur yr effaith yn erbyn y gwaelodlin, nid effaith ymyrraeth polisi a'r llwybrau a ragwelir ar gyfer newid yn y dyfodol. Mae'n methu â chydnabod y bydd bywiogrwydd / gwytnwch y Gymraeg yn newid dros amser ac yn ymateb i sbardunau economaidd a chymdeithasol ynghyd â sbardunau eraill fel dyheadau ac agweddau pobl ac i bolisïau cenedlaethol a lleol.
- Yn aml nid yw'n glir beth yw'r sail oddrychol i benderfynu a yw effaith yn arwyddocaol ai peidio.
- Mae'r ymateb yn cael ei ystyried yng nghyd-destun mesurau lliniaru yn unig ac nid yw'r mesurau (lliniaru) arfaethedig o reidrwydd wedi ystyried pa ffactorau ieithyddol sy'n briodol ac yn berthnasol i'r cyd-destun.

**Methodoleg Amgen**

1.60 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn (mabwysiadwyd Gorffennaf 2019)[14] wedi arloesi dull newydd yn y canllaw hwn i ddatblygwyr ar gyfer asesu'r effeithiau y mae datblygiadau tai neu gyflogaeth ar safleoedd mawr nas rhagwelwyd neu safleoedd mawr annisgwyl yn debygol o'u cael ar y Gymraeg.

1.61 Datblygwyd y fethodoleg hon ymhellach i ystyried effaith cynllun datblygu lleol ar y Gymraeg. Comisiynodd CDLlN 2 Cyngor Sir Gaerfyrddin, Iaith/BURUM i ddatblygu methodoleg ar gyfer Asesiad Effaith arfaethedig, yn y lle cyntaf ar gyfer ei gam Strategaeth a Ffefrir. Roedd hyn mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor Sir yn 2019 i ddatgan bod y sir gyfan yn ardal o sensitifrwydd/pwysigrwydd ieithyddol.

1.62 Mae'r ddau fframwaith yn dilyn yn fras y fethodoleg y tu ôl i Ganllawiau Llywodraeth y DU ar gyfer Asesu a Rheoli Risg Amgylcheddol, Green Leaves III.[15] Yn ei dro, mae Green Leaves III yn dilyn datblygiadau ym maes asesu a rheoli risg a ddefnyddir yn eang mewn amrywiaeth o gyd-destunau polisi cyhoeddus ac yn seiliedig ar ymagwedd systemau i adnabod a mynd i'r afael ag effeithiau neu risgiau.

1.63 Mae'r *Safon Ryngwladol ar Reoli Risg*[16] (31000:2009) yn darparu egwyddorion a chanllawiau i'w defnyddio ar draws pob sefydliad a sefyllfa. Mae'r cyflwyniad i'r ISO 31000 yn esbonio'r rhesymeg y tu ôl i gyflwyno safon fyd-eang:

> *"Er bod yr arfer o reoli risg wedi'i ddatblygu dros amser ac o fewn sawl sector er mwyn diwallu anghenion amrywiol, gall mabwysiadu prosesau cyson o fewn fframwaith cynhwysfawr helpu i sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn gydlynol ar draws sefydliad. Mae'r dull generig a ddisgrifir yn y Safon Ryngwladol hon yn darparu'r egwyddorion a'r canllawiau ar gyfer rheoli unrhyw fath o risg mewn modd systematig, tryloyw a chredadwy ac o fewn unrhyw gwmpas a chyd-destun.*
>
> *Yn gyffredinol, mae 'rheolaeth risg' yn cyfeirio at y bensaernïaeth (egwyddorion, fframwaith a phroses) ar gyfer rheoli risgiau'n effeithiol, tra bod 'rheoli risg' yn cyfeirio at gymhwyso'r bensaernïaeth honno i risgiau penodol."*

1.64 Mae **Atodiad 2** wedi'i atgynhyrchu o ddogfen ISO 31000. Mae'n dangos model rheolaeth risg sy'n nodi'r berthynas rhwng yr egwyddorion y tu ôl i reoli risg, fframwaith i'w ddilyn wrth reoli risg, a'r broses fanwl o greu asesiad risg.

1.65 Mae'r canllawiau ISO yn nodi'r nodweddion canlynol o reolaeth risg effeithiol:

[14] Cynghorau Gwynedd a Môn (2019) Canllaw Cynllunio Atodol Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn *Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy*.

[15] UK DEFRA/Cranfield University (2,011) *Green Leaves III Guidelines for Environmental Risk Assessment and Management.*

[16] International Organization for Standardization (2,018) *Risk Management Principles and Guidelines*.

- disgrifio a sefydlu'r cyd-destun;
- pennu, dadansoddi, asesu a mynd i'r afael â risg; a
- cyfathrebu ac ymgynghori â rhanddeiliaid gydol y broses.

1.66 Nid yw'r nodweddion a restrir uchod yn annhebyg i'r camau wrth gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Er bod y ffocws yn dal i fod yn eang, mae'r effeithiau tebygol a ragwelir:

- yn fwy amlwg o ran maint y deilliannau a'r tebygolrwydd ohonynt yn digwydd;
- yn osgoi sgôr niwtral ac felly'n osgoi'r duedd ymhlith defnyddwyr y fframweithiau hynny sy'n defnyddio graddfeydd od-rifau (e.e. mae defnyddwyr graddfa Likert yn defnyddio graddfa pump, saith neu naw pwynt) i wyro tuag at neu glystyru o amgylch y pwynt canol.

**Beth sy'n fethodoleg addas, dderbyniol ac ymarferol ar gyfer Dinas Caerdydd?**

1.67 Efallai mai'r mater allweddol i'w ystyried yw a yw'r dull methodolegol amgen yn seiliedig ar asesiad risg yn briodol yng nghyd-destun Caerdydd. Ar yr wyneb mae'n ymddangos nad ydyw. Yn gyffredinol, mae Caerdydd wedi profi twf blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg gyda dosbarthiad eang i'r twf hwnnw ar draws y Ddinas. Mae felly mewn sefyllfa wahanol iawn i awdurdodau sydd â llefydd lle mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn gymharol uchel a'r Gymraeg yn fwy cyffredin fel iaith gymunedol, ond gyda'r ddau dan fygythiad.

1.68 Yn hytrach na'r status quo felly, rhaid edrych ar bwrpas ymyriadau polisi a'r canlyniadau y maent yn eu ceisio o ganlyniad i'r ymyriadau hynny.

1.69 Yn gyntaf, mae Bil y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod safonau llunio polisïau a bwriedir i'r safonau hynny "sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu fwy o'r deilliannau canlynol:

- Pa effeithiau, os o gwbl, (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar - gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol ar - gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

1.70 Yn ail, prif amcanion Cymraeg 2050 (a'r cynnig yn y Bil Addysg) yw cyrraedd targed o filiwn o siaradwyr a dyblu'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10% i 20% erbyn 2050. Bydd disgwyl i Gaerdydd gyfrannu'n sylweddol at y ffigyrau hyn.

1.71 Mae Datganiad Cenhadaeth Cyngor Dinas Caerdydd yn ei ddogfen Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn dweud[17] "Gweithio gyda phartneriaid i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 ..... yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru".

[17]Cyngor Dinas Caerdydd (2022) - Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

1.72 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir bod rôl a chyfraniad y system gynllunio (drwy Creu Lleoedd a Chymru'r Dyfodol) fel a ganlyn: "Mewn llefydd lle nad Cymraeg yw iaith bob dydd y gymuned ... "bydd datblygu yn rym cadarnhaol i annog creu seilwaith addysgol a chymdeithasol er mwyn i'r iaith allu datblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau."

1.73 Yn ei hanfod, mae cyfeiriad ymyriadau polisi cenedlaethol a lleol wedi'i ddylunio'n gynyddol i dyfu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith mewn cyfathrebu bob dydd ac ar greu amodau ffafriol i hyn ddigwydd, gan gynnwys darparu seilwaith corfforol (ffisegol), economaidd a chymdeithasol priodol.

1.74 Wrth asesu effaith y Cynllun ar daflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol gellid dadlau bod angen i'r fethodoleg gydnabod efallai na fydd cael un Matrics Effaith Pedwar Sgôr yn llwyddo i gwmpasu ein dealltwriaeth o effaith debygol rhai polisïau neu gynigion o fewn y Cynllun gan y gallai'r polisïau penodol hynny fod yn niwtral, yn ansicr neu'n anhysbys.

1.75 Cynigir felly, addasu'r fethodoleg bresennol a ddefnyddir i gael dau fframwaith:

- Fframwaith 1 – mae hwn yn rhoi crynodeb mewn un tabl o effaith debygol y Cynllun cyffredinol ar y Gymraeg.
- Fframwaith 2 – mae hwn yn rhoi rhestr o feini prawf sy'n debyg i'r fframwaith sgorio ACI er mwyn asesu effaith debygol Cynigion a Pholisïau Rheoli Datblygu Manwl perthnasol ar y Gymraeg.

1.76 Cynigir trydydd fframwaith i gynorthwyo'r Cyngor, fel Awdurdod Cynllunio Lleol, i asesu a gwneud penderfyniadau ar safleoedd annisgwyl mawr (neu 'safleoedd ar hap'). Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig, a bydd gofyn iddo ystyried ac asesu effeithiau sylweddol megis dwyseddau'r Gymraeg o fewn y cymunedau lle bwriedir datblygu a'r cyfleoedd y mae'r cynnig yn eu darparu i wella cefnogaeth i'r iaith.

1.77 Cynigir felly mae'r maen prawf allweddol ar gyfer Fframwaith Asesu Effaith y Cynllun cyffredinol yw:

> *I ba raddau y byddai polisïau a chynigion datblygu'r Cynllun yn hwyluso neu'n rhwystro gallu dinas Caerdydd i wireddu datganiad cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050.*

1.78 Yn hytrach na'r pwyslais ar asesu'r effaith ar y sefyllfa bresennol fel ym methodoleg 2005, mae'r pwyslais felly ar edrych tuag at y dyfodol ac asesu'r effaith os gwireddir canlyniad yr ymyrraeth polisi. Mae Atodiad 3 yn rhoi rhagor o fanylion am y dull hwn.

# 6 Adolygu AEG y Strategaeth a Ffefrir

1.79 Adolygwyd fersiwn ymgynghoriad Gweledigaeth a Strategaeth a Ffefrir y CDLL gan Iaith/BURUM a Chaerdydd Ddwyieithog, mewn ymgynghoriad â'r Tîm CDLl, o safbwynt ei effaith ar ei aliniad â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.

| Cam y CDLl | ACI | AEG | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cytundeb Cyflawni | | Adroddiad Cwmpasu Gosod Methodoleg a Fframwaith yr AEG | |
| Casglu Tystiolaeth a Chyfranogiad Rhanddeiliaid | Cam A (Tasgau A1 – A6) Cwmpasu | Asesiad o'r Sefyllfa Bresennol<br>Asesiad o'r Dyfodol tebygol gyda Busnes fel Arfer/heb y Cynllun | |
| Y Strategaeth a Ffefrir | Cam B (Tasgau B1 – B4) Arfarnu Dewisiadau Eraill | Ymgorffori o fewn yr ACI<br>Asesiad mewnol AEG | Cyhoeddwyd ar gyfer Ymgynghori law yn llaw â'r Strategaeth a Ffefrir |
| Cynllun Adneuo | Cam C (Tasgau C1 – C3) Asesiad o'r Cynllun Adneuo a pharatoi Adroddiad AoG | Asesu Strategaeth a Ffefrir ac Ymatebion Ymgynghoriad<br>Asesiad o'r Cynllun Adneuo (gan gynnwys polisïau a dyraniadau manwl) a pharatoi Adroddiad AEG | Cyhoeddwyd ar gyfer Ymgynghori law yn llw â'r Cynllun Adneuo |
| Archwilio | Cam D (Tasgau S1 – D2) Archwilio a Mabwysiadu | Asesu Sylwadau | Ystyried unrhyw angen am gymorth gan dyst arbenigol ar y cam archwilio |
| Mabwysiadu, Monitro Blynyddol ac Adolygu | Cam E (Tasgau E1 – E2) Monitro ar gyfer effeithiau sylweddol | Monitro ar gyfer effeithiau sylweddol, gan gynnwys rhai safleoedd annisgwyl | Cyhoeddi unrhyw ganfyddiadau o fewn AMB |

# 7 Methodoleg ar gyfer Adolygu'r Polisïau Strategol a Manwl a'r AEG

## Dyfodol Tebygol heb y Cynllun

1.80 Mae Caerdydd Ddwyieithog yn gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o 42,584 yng Nghyfrifiad 2021 i 45,970 erbyn 2027. Er bod ansicrwydd parhaus ynghylch y taflwybr tebygol sydd ei angen i gyflawni'r targed hwn, ar sail model Llywodraeth Cymru (lle mae'r rhan fwyaf o'r twf yn dod tua diwedd y cyfnod), mae'n debygol y bydd Caerdydd yn chwilio i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol erbyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2036. Mae Caerdydd Ddwyieithog yn nodi targed o 49,355 erbyn Cyfrifiad 2031. Byddai defnyddio tybiaethau tebyg yn rhoi targed o 55,277 erbyn diwedd 2036. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o ychydig o dan 30% (29.8%) dros oes y Cynllun.

1.81 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei llywio gan senario a yrrir gan Bolisi sy'n cyfateb i 1,600 o gartrefi'r flwyddyn hyd at 2036. Ynghyd â lwfans hyblygrwydd o 10%, mae'r Cynllun yn rhagweld darparu tir ar gyfer 26,400 o gartrefi dros gyfnod y cynllun.

1.82 Roedd y CDLl blaenorol, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2006 - 2026 ac a fabwysiadwyd yn 2016, wedi seilio ei strategaeth gyffredinol ar ddarparu 2,071 o gartrefi'r[18] flwyddyn.

1.83 Amlygodd adroddiad Edge Analytics[19] nifer o dueddiadau yn awgrymu pam nad yw'r strategaeth dwf ddisgwyliedig wedi'i chyflawni:

- *"Mae proffil twf poblogaeth blynyddol y ddinas wedi ei ddylanwadu gan y gyfradd yr adeiladwyd cartrefi newydd. Cyn 2018/19, arafodd cyfraddau darparu tai yng Nghaerdydd yn sylweddol o uchafbwynt 2006/07, gyda chyfartaledd o +1,668 annedd y flwyddyn (ayf) rhwng 2001–2011, o'i gymharu â +835 ayf rhwng 2011–2021. Nododd y data ar gyfer 2018/19 a 2019/20 adferiad yn y gyfradd adeiladu, gyda chyflawniadau tai blynyddol ar eu lefel uchaf ers degawd, fodd bynnag, mae'r ffigur cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf yn awgrymu bod cyfyngiadau COVID-19 wedi arafu'r gyfradd adeiladu'n sylweddol.*
- *"Mae poblogaeth Caerdydd wedi tyfu yn y mwyafrif o grwpiau oedran ers 2001, ond yn enwedig yn y grwpiau oed oedolion ifanc oherwydd mewnfudo net ac yn y grwpiau oed oedolion hŷn oherwydd heneiddio graddol y carfannau geni mwy niferus o'r 1950au a'r 1960au" (para. 2.8).*
- *Cynyddodd poblogaethau cyn-ysgol (0-3 oed) yn sydyn hyd 2013 ond maent wedi lleihau wedi hynny. Yn naturiol, mae grwpiau oedran ysgolion cynradd (4-10 oed) wedi dilyn yn yr un modd gydag oedi priodol o ran y cyfwng amser, tra bod grwpiau oed uwchradd (11–17 oed) ond newydd ddechrau adfer yn ôl i lefelau 2001.*
- *Y grŵp oedran myfyrwyr 18–24 sydd wedi gweld y twf mwyaf mewn niferoedd ers 2001.*


[18] Cyngor Dinas Caerdydd, CDLl (2016) Tabl 1: Darpariaeth Tai dros Gyfnod y Cynllun.
[19] Edge Analytics (2021) *CDLl Cyngor Caerdydd Demograffeg Diweddaru'r Dystiolaeth.*

- *Mae oedrannau hŷn y lluoedd llafur (25–64) wedi cynyddu tua 20% ers 2001, er y gallai twf llai ymhlith pobl 25–39 oed yn ystod y blynyddoedd diwethaf fod yn dystiolaeth o effeithiau all-lif mudo net o Gaerdydd ers 2012/13.*
- *Mae'r grwpiau oedran hŷn (65–79 ac 80+) yn destun cynnydd blynyddol cyson, tuedd a fydd yn parhau dros weddill cyfnod CDLl Caerdydd, wrth i garfannau geni o'r 1950au a'r 1960au gyrraedd oedran hŷn.*
- *O'i 29 ward, dim ond tair welodd gwymp mewn poblogaeth rhwng 2001–2019 (Pentyrch, Llandaf a Llys-faen). Ar y llaw arall, mae pedair ward Butetown, Cathays, Grangetown ac Adamsdown wedi bod yn gyfrifol am 51% o dwf poblogaeth y ddinas o 57,000 ers 2001.*
- *Mae mudo net - y mewnlifiadau a'r all-lifiadau o weddill y DU ac i weddill y DU ill dau wedi cynyddu'n raddol ers 2001. Dychwelodd all-lif net i 2007/08, i gyfnod byr o fewnlif net i Gaerdydd. Fodd bynnag, ers 2012/13, mae mewnlif llai ond sy'n adfer ynghyd ag all-lif mudo cynyddol wedi arwain at fantol mudo mewnol net negyddol. Mae mewnlif ac all-lif blynyddol myfyrwyr yn yr ystod oedran 18–24, yn elfen allweddol o fantol mudo Caerdydd.*
- *Yn 11 mlynedd gyntaf y cyfwng amser ymfudo, hyd at 2011/2012, tarddai mewnlifiadau mudo net mwyaf arwyddocaol Caerdydd (mewnlif yn uwch nag all-lif) o Geredigion, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Roedd y cyfnewid all-lif net mwyaf (all-lif yn uwch nag mewnlif) gyda Bro Morgannwg, gyda cholled net flynyddol cyfartalog i boblogaeth Caerdydd o 653 y flwyddyn). Er gwaethaf all-lif net cynyddol trwy fudo mewnol ers 2012/13, mae'r cyfnewid mewnlif net cyfartalog â Cheredigion ac Abertawe wedi cynyddu yn y cyfnod hwn. Mae'r pum cyrchfan mewnlif uchaf wedi newid ychydig o'i gymharu ag ystadegau 2001/02–2011/12 (Ffigur 20) gyda gostyngiad yn y cyfraddau cyfnewid mewnlif net cyfartalog ar gyfer Sir Benfro a Phowys. Ar yr un pryd, mae cyfnewid all-lif net blynyddol cyfartalog Caerdydd gyda Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chasnewydd i gyd wedi cynyddu ers 2012/13.*
- *I Gaerdydd, mae mudo rhyngwladol wedi bod yn gyfrannwr allweddol at dwf poblogaeth ers 2001, gyda mantol mudo rhyngwladol net blynyddol ar gyfartaledd o tua +1,800 y cant y flwyddyn*


1.84 Mae'r 1600 y flwyddyn dan arweiniad Anheddau, sail Strategaeth Dwf y CDLl yn rhagweld twf o 39,472 (newid o 10.7% yn y boblogaeth dros sail 2020) erbyn 2036, twf o 23,103 o aelwydydd (newid o +14.6%) ac yn tybio mudo net cadarnhaol o 1,390 y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â thwf dan arweiniad Anheddau (cyfartaledd 10- mlynedd 'Busnes fel arfer' o 835 annedd y flwyddyn) o 13,980 (+3.6%) a thwf mewn aelwydydd o 12,063 (7.7%) erbyn 2036 ac yn rhagdybio ffigur mudo net negyddol o – 100.

1.85 O dan y senarios dan arweiniad anheddau a chyflogaeth, mae rhagdybiaethau cyfraddau mudo mewnol yn y dyfodol wedi eu deillio o gyfnod hanesyddol o bum mlynedd (TP-Hirdymor), gyda mudo wedi'i addasu i fodloni gofynion twf anheddau neu gyflogaeth blynyddol.

**Ffigur 3: Fframwaith Rheoli ac Asesu Cynllun Adneuo CDLl Newydd Caerdydd a Gwireddu'r Weledigaeth Caerdydd Ddwyieithog - y berthynas rhwng Fframwaith, Proses a Chyd-destun[20]**




[20] Addaswyd o DEFRA/Prifysgol Cranfield (2011) – "*Green Leaves III – Guidelines for Environmental Risk Assessment and Management*"




1.86 Yn **Ffigur 3**, mae'r golofn ganol yn dangos y camau i'w cymryd a'r materion i'w hystyried ar bob cam. Mae'r golofn ar y dde yn cwmpasu'r meini prawf y mae'r effaith sylweddol yn cael ei hasesu yn eu herbyn a'i rheoli. Mae'r model yn tybio bod y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu dyheadau'r Awdurdod Lleol ar ddiwedd cyfnod y cynllun (yn achos Caerdydd erbyn 2036). Bydd cynaliadwyedd y cynllun hwn (gan gynnwys cynaliadwyedd y Gymraeg) yn cael ei asesu drwy'r broses AoG.

**Rhagfynegi sgorau**

1.87 Mae Llyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi yn nodi tair egwyddor bwysig wrth nodi risgiau:

- *"Sicrhau bod proses a nodwyd yn glir lle mae tebygolrwydd ac effaith ill dau yn cael eu hystyried ar gyfer pob risg.*
- *Cofnodi'r asesiad mewn ffordd sy'n hwyluso monitro a nodi blaenoriaethau risg.*
- *Bod yn glir am y gwahaniaeth rhwng risg cynhenid a gweddilliol."* [21]

[21] Trysorlys EF (2004) *The Orange Book: Management of Risk - Principles and Concepts*

### Canlyniadau a Thebygolrwydd

1.88 Dylai'r cyfuniad o ddeilliannau a'r tebygolrwydd a ddewisir fod wedi eu seilio ar yr effaith y bydd rhywbeth yn digwydd o fewn cyfnod diffiniedig. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau bod y sgôr tebygolrwydd a ddewisir yn ymwneud â'r tebygolrwydd y bydd canlyniad / effaith yn digwydd, NID yn unig â'r tebygolrwydd y bydd y gweithgaredd / digwyddiad / perygl yn digwydd.

1.89 Dylid nodi nad oes angen bod yn hollol sicr am ffeithiau a phroblemau er mwyn sgorio effaith. Nid yw ansicrwydd yn creu risg uchel / effaith yn awtomatig ohono'i hun chwaith. Dim ond un elfen yw'r lefel ansicrwydd yn y broses o gyfrifo risg/effaith. Felly mae asesu risg/effaith yn fater o wneud y penderfyniad mwyaf gwybodus sy'n bosibl sy'n cynnwys ansicrwydd.

1.90 Mae **Ffigur 4** yn cynnig matrics ar gyfer canfod effaith y Cynllun heb gyflawni'r deilliannau disgwyliedig wrth asesu Cynllun Adneuo Drafft CDLl Caerdydd. Er ei bod yn bosibl datblygu matricsau mwy soffistigedig, credwn fod y cynnig yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y fethodoleg yn well, yn enwedig o ran ymarferoldeb. Mae'n cynnig defnyddio matrics 4*4 yn seiliedig ar y graddfeydd effaith a thebygolrwydd canlynol.

**Ffigur 4: Matrics effaith a thebygolrwydd**

| Effaith | | Tebygoliaeth | |
|---|---|---|---|
| Cadarnhaol Mawr | +2 | Bron yn sicr/yn debygol iawn | 4 |
| Cadarnhaol Bach | +1 | Tebygol | 3 |
| Negyddol Bach | -1 | Annhebygol | 2 |
| Negyddol Mawr | -2 | Annhebygol iawn / Siawns bychan | 1 |

1.91 Fel yr eglurwyd uchod, y rhagdybiaeth sy'n ymwneud â'r dyfodol tebygol heb ymyrraeth y Cynllun yw mai'r targed ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yw cynyddu i 55,277 erbyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2036.

1.92 Ystyrir bod y Cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol os yw taflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg, ar ei ben ei hun neu o ganlyniad i gyfuniad o effeithiau, 2.5% uwch law neu is law'r uchelgais hwn dros gyfnod y cynllun.

### Effaith

1.93 Ystyrir y fframwaith arfaethedig hwn fel y model "gorau sydd ar gael" ar gyfer cynnal asesiad o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (Adneuo) hwn ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg.

1.94 Yn sgil sylwadau a wneir ar y Cynllun Adneuo mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn cynnwys darpariaeth i'r Cyngor wneud Newidiadau â Ffocws.

*"Os bydd angen, er eu bod yn anstatudol, gellir gwneud newidiadau â ffocws yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed. Dim ond i'r elfennau hynny o'r cynllun y mae'r ACLl yn ystyried sydd angen eu diwygio y dylid cyflwyno ymatebion o'r fath er mwyn sicrhau y gellir pennu bod y cynllun yn 'gadarn'.*[22]

1.95 Pe bai'r Cyngor yn dod i'r casgliad, o ganlyniad i'r broses ymgynghori ar y Cynllun Adneuo Drafft, fod angen iddo wneud newidiadau â ffocws i'r Cynllun Adneuo er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ganfod yn gadarn ar y cam archwilio, a bod yr elfennau hynny o'r Cynllun yn berthnasol, yna mae'n bosib y bydd angen cynnal asesiad AEG ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol y newidiadau â ffocws perthnasol, er mwyn sicrhau cadernid y cynllun.

1.96 Ar ôl cwblhau'r Broses hon caiff yr Asesiad ei gyflwyno i'w archwilio law yn llaw â'r Cynllun Adneuo, yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig ac asesiadau eraill ac Adroddiad Ymgynghori i'w harchwilio.

1.97 Mae'r model ISO9001 yn cydnabod y gallai fod angen ailedrych ar y fethodoleg asesu effaith yn ystod adolygiad ffurfiol o'r Cynllun mabwysiedig wrth i wybodaeth a thystiolaeth newydd neu well ddod ar gael.

[22] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3 Mawrth 2020) 3.111.

## Ffigur 5: Matrics effaith ar gyflawni'r Genhadaeth Caerdydd Ddwyieithog

| GWIREDDU CENHADAETH CAERDYDD DDWYIEITHOG<br>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD CAERDYDD | | | | | MAINT YR EFFAITH / DEILLIANNAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cadarnhaol Mawr | Cadarnhaol Bach | Negyddol Bach | Negyddol Mawr |
| | | | Targed Cynyddu Nifer y siaradwyr Cymraeg i o leiaf 50,000 erbyn 2036 fel rhan o'r targed cyffredinol o 86,000 erbyn 2050 | | Cynnydd o 2.5 pwynt canranol neu fwy yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr | Cynnydd o lai na 2.5 pwynt canranol yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr | Lleihad o lai na 2.5 pwynt canranol yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr | Lleihad o 2.5 pwynt canrannol neu fwy yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr |
| | | | | | Uchel | Isel | Isel | Uchel |
| | **Tebygolrwydd** | **Amlder** | | **Sgôr** | **2** | **1** | **-1** | **-2** |
| TEBYGOLIAETH | Mae Tystiolaeth/Barn/Profiad yn dangos fod twf yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth/Barn/Profiad - Mae'n debygol o ddigwydd o leiaf 8 gwaith allan o 10 mewn Cynlluniau Datblygu Lleol | Tebygol Iawn | 4 | **8** | **4** | **-4** | **-8** |
| | Mae Tystiolaeth/Barn/Profiad yn dangos fod twf/lleiad yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol y bydd yn digwydd yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth/Barn/Profiad - mae'n debygol o ddigwydd 5-7 gwaith allan o 10 mewn Cynlluniau Datblygu Lleol Presennol | Tebygol | 3 | **6** | **3** | **-3** | **-6** |
| | Evidence/Judgement/Experience shows that growth/decline in the population on this scale will make it possible in the majority of cases | Tystiolaeth/Barn/Profiad - mae'n debygol o ddigwydd 2- 4 gwaith mewn Cynlluniau Datblygu Lleol Presennol | Posibilrwydd | 2 | **4** | **2** | **-2** | **-4** |
| | Mae Tystiolaeth/Barn/Profiad yn dangos fod twf/lleihad yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth/Barn/Profiad - mae'n debygol o ddigwydd lai na 2 waith allan o bob 10 mewn Cynlluniau Datblygu Lleol Presennol times out of 10 in Existing Local Development Plans | Annhebygol Iawn | 1 | **2** | **1** | **-1** | **-2** |

## 8 Cyfyngiadau modelau asesu risg a rheolaeth risg

1.98 Fel gyda modelau eraill, mae modelau asesu risg a rheolaeth risg yn ceisio cynrychioli system gan ddefnyddio casgliad o gysyniadau a rhagdybiaethau er mwyn helpu pobl i ddeall y system honno. Yng nghyd-destun gwytnwch y Gymraeg gwneir ymgais i ddylunio model 'byd go iawn' o ran defnydd iaith. Mae cyfyngiadau o reidrwydd i'r graddau y gall model o'r fath gynrychioli cymhlethdod arferion ieithyddol sy'n nodweddu 'bywiogrwydd' neu 'wytnwch' ieithyddol mewn cymdogaethau penodol.

1.99 Mae dealltwriaeth gyfredol o'r berthynas rhwng newidiadau yn y defnydd o dir a'i oblygiadau ar gyfer dylanwadu ar arferion iaith pobl, boed yn negyddol neu'n gadarnhaol, dros amser, yn enwedig i'r dyfodol, yn gymharol gyfyngedig. I fod yn gadarn, mae angen i asesiadau effaith ar y Gymraeg fod yn seiliedig ar ddata sy'n ddibynadwy ac o ansawdd da. O'r herwydd, mae angen parhau i ddibynnu i raddau helaeth ar fesur dirprwyol o ran gallu iaith – cofnod o allu'r boblogaeth i siarad Cymraeg, fel y caiff ei fynegi wrth ateb cwestiwn yn y Cyfrifiad Poblogaeth bob deng mlynedd. Er ei bod yn hanfodol bod yn 'wrthrychol' a sicrhau cywirdeb a dyblygu, mae angen cydnabod cyfyngiadau dangosyddion megis data 'gallu iaith' y Cyfrifiad hefyd. Er y gall y data a gesglir wella dros amser, mae hefyd angen dibynnu ar fewnbwn rhanddeiliaid i werthuso'r data a ddefnyddir mewn model asesu a rheoli risg a'u cysylltu â'u profiad a'u dealltwriaeth o arferion ieithyddol lleol.

1.100 Yn olaf, oherwydd mae gwreiddiau canfod peryglon ac asesu a rheoli risg sydd iddo, ar hyn o bryd mae'n debyg bod y model yn fwy addas wrth ganfod effeithiau negyddol yn hytrach nag effeithiau cadarnhaol a/neu gyfleoedd i wella buddion. Yng nghyd-destun asesu effaith datblygiadau ffisegol ar fywiogrwydd, gwytnwch (neu yng nghyd-destun penodol awdurdod fel Caerdydd lle mae'r niferoedd yn tyfu) y Gymraeg – a'r angen i fireinio dulliau asesu a rheoli effaith – mae hyn yn debygol o fod yn 'waith ar y gweill' parhaus ar gyfer y dyfodol agos. Mae hyn hefyd yn bodloni gofynion Mesur y Gymraeg 2011 ac mae'n gyson â Chyngor Arfer Gorau Comisiynydd y Gymraeg y dylai corff cyhoeddus ystyried effeithiau penderfyniadau polisi yn barhaus, gan gynnwys adolygu perfformiad y cynllun maes o law.[23].

*       *       *       *       *       *       *

[23] Comisiynydd y Gymraeg (2020) op. Cit. , adran 1.5

# Pennod 2: Asesiad o Effaith y Polisïau Strategol ar y Gymraeg

## 1 Cyflwyniad

2.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys asesiad o effaith y Polisiau Strategol arfaethedig ar y Gymraeg ar gyfery Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo Drafft[24]

2.2 Mae'r fframwaith ar gyfer cyflawni'r Cynllun yn cael ei bennu gan y Strategaeth Twf a Lleoliad a Ffefrir a'i arwain gan Bolisïau Strategol. I grynhoi, y cydrannau allweddol yn y Strategaeth Twf a Lleoliad a Ffefrir sy'n berthnasol i Asesu dyraniadau yw:

- Darparu ar gyfer 26,400 (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036;
- Darparu cyfleoedd i ddarparu o leiaf 32,300 o swyddi newydd yn y ddinas yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036 i gefnogi'r uchelgeisiau economaidd a chyflogaeth strategol yn y ddinas a'r rhanbarth;
- Darparu digon o dir cyflogaeth i gefnogi twf economaidd a chreu swyddi;
- Potensial i ddarparu 5,000 i 6,000 o gartrefi fforddiadwy yn dibynnu ar gyfansoddiad safleoedd;
- Darparu ystod dda a dewis o dai gyda rhaniad tir llwyd / maes glas 50:50;
- Darparu seilwaith, cyfleusterau cymunedol ac amcanion teithio cynaliadwy;
- Parchu a gwella nodweddion amgylcheddol cyfoethog ac amrywiol y ddinas;
- Cydnabod cymeriad diwylliannol y ddinas a hyrwyddo twf a defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd;
- Cyfrannu at ddarparu cyfleoedd adfywio corfforol (ffisegol) a chymdeithasol sy'n darparu ar gyfer ac yn adlewyrchu ystod o gymunedau amrywiol a chydlynol ledled y ddinas[25]

2.3 Mae'r Polisïau Strategol wedi'u strwythuro i gyd-fynd â thair thema a blaenoriaethau gweledigaeth Caerdydd ar gyfer y cyfnod presennol o "Gaerdydd Gryfach", "Caerdydd Decach" a "Chaerdydd Wyrddach"[26]. Mae cyfanswm o 22 o Bolisïau Strategol yn cael eu cynnig o fewn y Cynllun Newydd Drafft. Mae'r rhain hefyd yn siapio ac yn hwyluso Polisïau Manwl wedi'u teilwra i reoli datblygiad. Mae manylion a disgrifiadau o bob polisi, ynghyd â'u cyfiawnhad rhesymegol ar sail tystiolaeth wedi'u cynnwys yn y Cynllun Newydd Drafft ei hun.

## 2 Methodoleg

2.4 Mae'r dull asesu ar gyfer y Polisïau Strategol yn dilyn yr ail fframwaith fel y cytunwyd gyda thîm Cleient y Ddinas ac fel y disgrifir ym Mhennod 1. Mae hyn yn gofyn am fwy o fanylder ac ymagwedd â mwy o raddoli i'r asesiad a dealltwriaeth

[24]Fersiwn - Medi 2024
[25] Op. Cit. Para. 6.22
[26] OP. Cit. Para. 2.11

fanylach o berthynas elfennau unigol y cynllun arfaethedig â'r themâu a deilliannau manylach Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.[27]

2.5 Mae'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyffredinol yn mabwysiadu'r tair thema strategol a fabwysiadwyd fel rhan o Cymraeg 2050 ac yn blaenoriaethu tri deilliant ar gyfer y cyfnod 2022 – 27 gyda pholisïau a chamau gweithredu wedi'u hanelu at ymyriadau allweddol i gyflawni cynnydd yn y meysydd hyn. Amlygir yr elfennau mwyaf perthnasol i ymyriadau'r Cynllun arfaethedig:

**Thema 1:** Cynyddu **nifer a chanran** y siaradwyr Cymraeg (yng Nghaerdydd)

Deilliant 1: Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i gynyddu ac yn cyrraedd y targedau a nodwyd i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Thema 2:** Cynyddu'r **defnydd** o'r Gymraeg (i greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog)

Deilliant 2: Cynnydd sylweddol a **normaleiddio'r** defnydd o'r Gymraeg

**Thema 3:** Creu amodau addas - creu a chynnal amodau ac amgylchedd addas lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Deilliant 3: Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, **datblygu economaidd**, llwyfannau digidol a **diwylliant**.

2.6 Yn ei hanfod, mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar feini prawf tebyg i'r Fframwaith Asesu ACI (Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig) mwy cyffredinol, ond wedi'i addasu i gynnwys asesiad o ragolygon y dyfodol yn ogystal â'r sefyllfa bresennol. Mae hyn yn ymwneud yn fwy uniongyrchol ag elfennau o Thema a Deilliant 3 er y gallai'r Polisïau Tai a Chyflogaeth fod â goblygiadau ar gyfer Thema a Deilliant 1 hefyd, yn enwedig o ran arweiniad y polisïau perthnasol ar leoliad datblygiadau o fewn y ddinas. Mae hefyd yn ystyried eu perthynas â derbynyddion presennol megis gwaelodlinau cymunedau Cymraeg dwysedd uwch a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021 a lleoliadau ysgolion uwchradd a chynradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

2.7 Mae **Ffigur 6,** felly, yn mabwysiadu'r fframwaith ACI ar gyfer barnu effaith debygol Polisïau ar y waelodlin bresennol a'r taflwybr disgwyliedig o ran twf y Gymraeg. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion.

**Ffigur 6: Effaith y Polisïau Strategol ar gyflawni targed Caerdydd Ddwyieithog**

| Symbol | Disgrifiad (Effaith debygol ar Gyflawni Targed Caerdydd Ddwyieithog) |
|---|---|

[27] Cyngor Dinas Caerdydd (2022) - Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27

| | |
|---|---|
| ++ | Cadarnhaol mawr o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| + | Cadarnhaol bach o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol o'u cymharu â "Busnes fel Arfer |
| 0 | Niwtral |
| - | Negyddol bach o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| - - | Negyddol mawr o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| ? | Ansicrwydd ynghylch pa effaith fydd gan bolisi yn ymarferol |

2.8 Roedd y sylwebaeth gychwynnol ar rai Polisïau mewn asesiadau cynharach - yn benodol ar yr effaith debygol ar Ddeilliant 3 - yn cynnwys dwy sgôr i ddangos newid yn y sgôr pe bai cam a argymhellid yn cael ei dderbyn ai peidio. Mae'r sgôr terfynol yn adlewyrchu'r consensws a gyrhaeddwyd.

2.9 Cynhaliwyd yr asesiad o Bolisïau Strategol mewn wyth cam:

i. Ymarfer cwmpasu a oedd yn adnabod pa bolisïau datblygu y dylid eu cynnwys neu eu heithrio o'r asesiad. Aseswyd yr holl Bolisïau Strategol i ddechrau er mwyn ystyried a yw eu cynnwys yn debygol o gael effaith ar allu Cyngor Caerdydd i wireddu ei weledigaeth a'i darged Caerdydd Ddwyieithog[28] a/neu oblygiadau gofodol o ran derbynyddion presennol. Arweiniodd hyn at sawl polisi strategol yn cael eu hepgor o'r asesiad, gan gynnwys pob Polisi Strategol o fewn y Thema Caerdydd Gwyrddach. Roedd hyn yn gadael 11 Polisi Strategol.

ii. Asesiad cychwynnol o'r Polisïau Strategol Drafft a gynhwyswyd yn y Cynllun Drafft cychwynnol.

iii. Dosbarthu'r Asesiad Drafft Cychwynnol ar gyfer sylwadau gan y Tîm Cleient a'r Tîm CDLl ar gyfer ymgynghori mewnol.

iv. Cylchredeg a chyflwyno Asesiad Drafft Cychwynnol i Weithgor Caerdydd Ddwyieithog a gynhaliwyd ar 2 Medi 2024.

v. Ystyried adborth ac addasu’r adroddiad drafft lle caiff sylwadau eu hystyried.

vi. Asesiad o newidiadau pellach a gynhwysir yn y CDLlN Drafft (fersiwn Medi a diwygiadau dilynol) a chynhyrchu Asesiad Drafft Rownd 2.

vii. Ystyried adborth ac addasu Asesiad Drafft Rownd 2, a

viii. Cynhyrchu Asesiad drafft terfynol diwygiedig i’w gylchredeg ac i dderbyn sylwadau.

2.10 Mae'r Polisïau Strategol perthnasol yn cael eu hasesu isod:

[28] Gweledigaeth a tharged Caerdydd Ddwyieithog yw dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050.

## Thema: Cryfach

<table>
<tr><td colspan="2">SP1: DARPARU AR GYFER TWF CYNALIADWY</td><td colspan="2">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o'r Polisi - Mae’r cynllun yn gosod strategaeth ger bron i ddarparu 26,400 o anheddau (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) a 32,300 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun.</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>+/-</td><td>+/-</td><td>+</td><td>Mae tua 80% o gyfanswm darpariaeth anheddau’r Cynllun drafft o fewn y categori "Cwblhawyd/Cael Eu Codi/Banc Tir" gan adael y categori "Dyraniadau" cynlluniedig i gyflenwi 5,271 o anheddau. Amcangyfrifir bod y lwfans "Annisgwyl" yn 6,202.<br><br>Mae’r cynnydd yn nifer y <u>dyraniadau</u> hyd at 2036 yn debygol o hwyluso'r cynnydd yn nhaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg, yn bennaf drwy gynyddu nifer y disgyblion rhwng 3 a 15 oed sy'n elwa o addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd graddfa'r twf yn hwyluso cynnydd cymesur yng nghanran y siaradwyr Cymraeg na hwyluso defnydd cynyddol a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r cyfle i uwchgynllunio lleoliad mwyafrif y dyraniadau newydd yn debygol o hwyluso'r cyfle i ddarparu seilwaith angenrheidiol i gefnogi'r Gymraeg.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Mae Polisi SP1 yn nodi'r lefel twf i Gaerdydd ar gyfer cyfnod y Cynllun hyd at 2036. A yw'r asesiad yn dweud y dylai lefel y twf fod yn uwch er mwyn cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050? Oni fyddai hyn yn gadarnhaol neu'n anhysbys yn hytrach na negyddol? Mae'r CDLlN yn un o nifer o fecanweithiau i gyflawni uchelgais Caerdydd Ddwyieithog, nid yr unig fecanwaith i gefnogi'r genhadaeth. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd**<br><br>Mae'r sgôr yn adlewyrchu'r tebygolrwydd o helpu neu rwystro Deilliant 1. Rydym yn derbyn bod lefel uwch o dwf yn fwy tebygol o helpu i sicrhau cynnydd yn y niferoedd (yn dibynnu ar debygolrwydd effeithiolrwydd y strategaeth addysg). Fodd bynnag, mae'r deilliant hefyd yn cyfeirio at ganran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu (dyblu) ac yn ein barn ni po uchaf yw lefel y twf yna mwyaf y bydd yn rhwystro cyflawni'r agwedd honno o'r deilliant.<br><br>Newidiwyd Deilliant 2 hefyd o – i +/- yng ngoleuni rhywfaint o dystiolaeth bod newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf sy'n awgrymu bod twf wedi cefnogi cynnydd o ran normaleiddio'r iaith ond nid yn y defnydd o'r iaith mewn bywyd bob dydd. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd (Tachwedd)**<br><br>Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau. |

<table>
<tr><td colspan="2">SP2: CYNNAL TWF A GWYDNWCH ECONOMAIDD</td><td colspan="2">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o’r Polisi - Gwneir darpariaeth ar gyfer ystod a dewis o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth ac mewn gwahanol leoliadau daearyddol a fydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni lefel y twf a nodir yn y cynllun.</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>+/-</td><td>?</td><td>+</td><td>Mae'r cynnydd yn nifer y swyddi hyd at 2036 yn debygol o hwyluso cynnydd yn nhaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg, yn bennaf drwy gynyddu nifer y disgyblion rhwng 3 a 15 oed sy'n elwa o addysg Gymraeg.<br><br>Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd graddfa'r twf yn hwyluso cynnydd cymesur yng nghanran y siaradwyr Cymraeg na hwyluso defnydd cynyddol a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg.<br>Mae'r cyfle i uwchgynllunio lleoliad y mwyafrif o safleoedd cyflogaeth newydd yn debygol o hwyluso'r cyfle i ddarparu seilwaith angenrheidiol i gefnogi'r Gymraeg</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf<br><br>Pam negyddol?   Y dewis arall yw peidio â dyrannu'r tir.  Neu neilltuo mwy?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm AEG i’r Rownd Gyntaf<br><br>Mae'r sgôr yn adlewyrchu'r tebygolrwydd o helpu neu rwystro Deilliant 1 (gweler ymateb Tîm CDLlN i SP1).</td></tr>
</table>

| |
|---|
| O ran deilliant 2 tra bod ein sgôr gychwynnol yn adlewyrchu ein pryder efallai y gallai graddfa a lleoliad twf cyflogaeth lesteirio cyflawniad Deilliant 2 rydym yn derbyn nad yw'r dystiolaeth i gefnogi'r asesiad cychwynnol yn gadarn. Rydym wedi addasu'r sgôr i fod yn "ansicr". |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd (Tachwedd)**<br><br>Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau. |

| SP3: SICRHAU YMAGWEDD UWCHGYNLLUNIO | | **A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?** | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o Bolisi - Bydd angen ymagwedd uwch-gynllunio ar safleoedd neu ddatblygiadau strategol presennol a rhai'r dyfodol sydd â mwy na 100 o gartrefi, neu unrhyw brosiect sy'n cynnwys mwy nag un cam datblygu.** | | | |
| **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol** |
| 0 | 0 | + | Mae'r cynnydd yn nifer y dyraniadau hyd at 2036 yn debygol o hwyluso'r cynnydd yn nhaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg, yn bennaf drwy gynyddu nifer y disgyblion 3 i 15 oed sy'n elwa o addysg Gymraeg.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd y nod a ddatganwyd o sicrhau parhad darpariaeth cyfleoedd cyflogaeth leol a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau daearyddol ar draws y sir, o fewn strategaeth a arweinir gan dai, yn effeithio'n sylweddol ar gynnydd yn nhaflwybr nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd graddfa'r twf yn hwyluso cynnydd cymesur yng nghanran y siaradwyr Cymraeg na hwyluso defnydd cynyddol a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Mae'r cyfle i uwchgynllunio lleoliad mwyafrif y datblygiadau newydd yn debygol o hwyluso'r cyfle i ddarparu seilwaith angenrheidiol i gefnogi'r Gymraeg (gweler SP5).<br><br>Egwyddor ix.  Caiff ei groesawu gan ei fod yn cynnwys y gofyniad i ddatblygwyr o ran cyd-destun y safle *“Adnabod nodweddion cadarnhaol a neilltuol o ran lle ac ymateb i nodweddion unigryw a chyfleoedd lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg”* |

**Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf**

Mae Polisi SP3 yn ymwneud yn benodol â phennu'r egwyddorion ar gyfer yr ymagwedd uwchgynllunio ac nid yw'n pennu lefelau twf? - mae sylwadau sy'n ymwneud â thwf yn ymwneud â pholisïau SP1 a 2.  A fyddai'r polisi hwn yn hynny o beth yn niwtral gan fod y sgoriau negyddol yn ymwneud â'r strategaeth dwf

**Ymateb Tîm AEG i’r Rownd Gyntaf**

Ar ôl ailystyried, rydym yn derbyn bod SP3 yn ymwneud yn benodol â gosod yr egwyddorion ar gyfer yr ymagwedd uwchgynllunio ac nid yw'r sylwadau sy'n ymwneud ag effaith y lefel o dwf a ddewiswyd yn berthnasol i'r Polisi hwn. Fodd bynnag, mae angen i raddfa datblygiadau tai, a'u graddoliad, o ran cynigion sy'n destun y dull uwchgynllunio i fod yn sensitif i gyfleoedd presennol ac yn y dyfodol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai o gymorth yn hyn o beth pe bai'r datblygwr yn nodi ar gam cynnar senario gwaelodlin ac esblygiad tebygol y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gellid gwneud hyn yn ofynnol ar gyfer y cynigion hynny sy'n bodloni trothwyon a meini prawf perthnasol Rheoliadau Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) Cymru 2017 drwy ofyn am wybodaeth o'r fath (gweler y gwelliant a awgrymir i SP15).

Mae'r sgoriau cychwynnol yn adlewyrchu'r tebygolrwydd o helpu neu rwystro Deilliannau 1 a 2 (gweler ymateb Tîm AEG i SP1).  O ran deilliant 2 tra bod ein sgôr gychwynnol yn adlewyrchu ein pryder pe na byddai’r ymagwedd uwchgynllunio yn adlewyrchu a chymryd sylw o’r gofynion i ystyried buddiannau'r Gymraeg, y gallai'r ymagwedd uwchgynllunio mewn gwirionedd lesteirio cyflawni Deilliant 2.  Bydd y diwygiadau i SP5, SP6 a SP15 yn helpu i gyflawni Deilliant 2. Rydym wedi addasu'r sgôr i "niwtral".

| |
|---|
| Mae'r naratif wedi'i egluro a'i gryfhau er mwyn adlewyrchu'r cyfle ar y cam Uwchgynllunio i ddefnyddio "ymdrechion cydwybodol" i fodloni safonau Mesur y Gymraeg 89 a 90. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd (Tachwedd)**<br><br>Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau. |

<table>
<tr><td colspan="2">SP5: SICRHAU SEILWAITH NEWYDD</td><td colspan="2">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o’r Polisi - Bydd datblygiadau newydd yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer, neu'n cyfrannu tuag at, yr holl seilwaith gofynnol sy’n hanfodol, sy’n hwyluso ac sy’n angenrheidiol yn sgil y datblygiad</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>0</td><td>0</td><td>+</td><td>Mae SP5 yn nodi "mesurau gwella sy'n ymwneud â'r Gymraeg" fel un o'r meysydd Categori 2 ar gyfer seilwaith angenrheidiol. Tra'n derbyn y bydd manylion sut y bwriedir cyflawni hyn yn destun CCA, awgrymir y bydd ehangu'r disgrifiad cyfredol o Gategori 2 i gynnwys cyfleusterau cymdeithasol yn ogystal â chorfforol (a'r enghreifftiau a ddarperir) yn helpu datblygwyr i ddeall yn well sut mae mesurau gwella'r Gymraeg yn cefnogi SP15<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, dylai darpariaeth briodol ar gyfer, neu negodi a chytuno ar gyfran o’r cyfraniadau cynllunio i’w defnyddio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf<br><br>Nodwyd y Sylwadau.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Mae'r sgôr ar gyfer Deilliant 3 wedi'i ddiwygio i +<br>Eglurwyd a chryfhawyd y naratif er mwyn adlewyrchu'r cyfle i ddefnyddio SP5 i gefnogi dyletswydd y Cyngor i ddefnyddio ymdrech gydwybodol i fodloni safonau Mesur y Gymraeg 89 a 90. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd (Tachwedd)**<br><br>Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau. |

| **SP6 SICRHAU RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO** | | **A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?** | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o’r Polisi - Ceisir Rhwymedigaethau Cynllunio i liniaru unrhyw effeithiau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad** | | | |
| **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol** |
| 0 | 0 | + | Mae Cyfiawnhad Rhesymegol y Polisi yn datgan fod “rhwymedigaethau cynllunio yn fodd o geisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at y gofynion ychwanegol y mae datblygiadau newydd yn eu creu ar wasanaethau, cyfleusterau, seilwaith a'r amgylchedd sy'n bod eisoes yn ogystal â negodi buddion sy'n gwella safon y cynigion datblygu drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol a buddion cymunedol.”<br><br>Gall rhai datblygiadau newydd mawr annisgwyl o fewn ardaloedd lle mae dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg neu'n agos atynt effeithio'n andwyol ar broffil ieithyddol ardaloedd o'r fath.<br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, dylai darpariaeth briodol ar gyfer, neu negodi a chytuno ar gyfran o’r cyfraniadau cynllunio i’w defnyddio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Bydd yr ychwanegiad a awgrymir sef cyfeirio at y posibilrwydd o ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio i liniaru effaith o'r fath (neu wella buddion) yn gwneud y cysylltiad yn gliriach<br>“Ceisir rhwymedigaethau gan ddatblygwr i:  Sicrhau mesurau gwella a lliniaru sy'n ymwneud â'r Gymraeg".</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf<br>Diwygiodd y polisi i gyfeirio at wella sefyllfa'r Gymraeg.  Byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu mewn CCA</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm AEG i’r Rownd Gyntaf<br>Nid yw fersiwn Medi o Gynllun Drafft y CDLlN yn cynnwys y gwelliant a awgrymir. Os mai amryfusedd yw hyn, yna byddai'r sgôr yn cael ei ddiwygio i +<br>Awgrymir ychwanegu "gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â chynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg" i baragraff 2 y cyfiawnhad rhesymegol.<br>Eglurwyd a chryfhawyd y naratif er mwyn adlewyrchu'r cyfle i ddefnyddio SP6 er mwyn cefnogi dyletswydd y Cyngor i ddefnyddio ymdrech gydwybodol i fodloni safonau 89 a 90 Mesur y Gymraeg.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r Ail Rownd (Tachwedd)<br>Gan fod hwn yn bolisi generig sy'n sefydlu'r egwyddor o "Rwymedigaethau Cynllunio" a'r profion cysylltiedig mewn canllawiau a deddfwriaeth cynllunio, nid yw'n fwriad cynnwys cyfeiriad penodol at y mathau o seilwaith y gellid eu sicrhau gan fod y rhain wedi'u rhestru ynghlwm â Pholisi SP5 a dylid darllen y ddau bolisi yma gyda'i gilydd ar y sail hon.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm AEG i’r Ail Rownd<br>Nodwyd yr ymateb a'r rhesymeg. Fodd bynnag, awgrymir er mwyn lliniaru hyn y byddai'n ddefnyddiol cynnwys croesgyfeiriad at yr ystod o seilwaith a restrir ym Mholisi SP5.  Argymhellir ychwanegu'r frawddeg ganlynol at baragraff 2 y Cyfiawnhad Rhesymegol.<br>“Gall y math o liniaru a geisir gynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu o angenrheidrwydd, i'r mathau o seilwaith a restrir ym Mholisi SP5.”</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r 3edd Rownd (Rhagfyr)<br>Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>SP7 CEFNOGI CYNLLUNIAU CYNEFIN</td><td colspan="3">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o'r Polisi - Bydd paratoi Cynlluniau Cynefin Cymunedol .... yn cael ei fabwysiadu fel CCA i hyrwyddo gweithredu ar y cyd, gwella llesiant a chreu lleoedd.</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>0</td><td>0</td><td>+</td><td>Tra'n cydnabod bod yn rhaid i Gynlluniau Cynefin weithio o fewn cyd-destun polisi'r CDLl, cydnabyddir bod gan gefnogi cynllunio cynefin y potensial i gryfhau cynllunio ieithyddol, yn enwedig pan fo'r gymuned leol yn cydnabod yr iaith fel ased yn y presennol a phosibl yn y dyfodol fel llwybr at wella llesiant a chreu lleoedd</td></tr>
<tr><td>Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd (Tachwedd)</td><td colspan="3">Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y sgôr. Unrhyw gamau penodol?</td></tr>
<tr><td>Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd</td><td colspan="3">Nodwyd y sylwadau a dim angen unrhyw gamau.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>SP10 TWRISTIAETH</td><td colspan="3">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o’r Polisi - Bydd datblygiadau twristiaeth gynaliadwy priodol i adeiladu ar rôl Caerdydd fel Prifddinas a chyrchfan dwristaidd, gelfyddydol, ddiwylliannol a chwaraeon o bwys yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo lle mae cynigion yn bodloni holl bolisïau perthnasol eraill y CDLl.</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>Mae Cyfiawnhad Rhesymegol y Polisi yn cynnwys y datganiad canlynol:<br><br>“Mae Cymru'r Dyfodol yn pwysleisio pwysigrwydd twristiaeth fel rhan o'r economi sylfaenol, sy'n cael ei hystyried yn 'rhan annatod o lesiant lleoedd, cymunedau a phobl ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl. Tra’n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi, mae cysylltiad cadarnhaol rhwng twristiaeth a lles corfforol a meddyliol cymunedau. Mae hyn wedi'i alluogi'n arbennig trwy fathau gweithredol, gwyrdd a diwylliannol o dwristiaeth.<br><br>Awgrymu ychwanegu "..... gan gynnwys twristiaeth Gymraeg." I ddiwedd y frawddeg olaf.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Mae yr AEG yn nodi bod yr effaith yn niwtral. Cyfiawnhad rhesymegol wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at Twristiaeth Gymraeg. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Dim newid. |

## Thema: Tecach

| SP12: DARPARU CYMDOGAETHAU CYNALIADWY, CYDLYNIANT CYMDEITHASOL A THAI FFORDDIADWY | | **A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?** | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Polisi** - Er mwyn sicrhau cymunedau braf i fyw ynddynt, effeithlon, cytbwys a chydlynol, gyda gwell ansawdd bywyd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a thai fforddiadwy, bydd creu cymdogaethau cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo a'i wella | | | |
| **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol** |
| 0 | 0 | + | Mae maen prawf v. y polisi drafft yn cyfeirio at "darparu cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg....".  Bydd hyn yn cefnogi cynllunio ieithyddol. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Nid yw AEG yn cynnig unrhyw newidiadau i'r polisi.  Nodwyd y Sylwadau. | | | |

<table>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf<br>Dim newid.</td></tr>
<tr><td colspan="2">SP13: SICRHAU IECHYD A LLESIANT A GWYDNWCH</td><td colspan="2">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o'r Polisi - Bydd Caerdydd yn cael ei gwneud yn lle mwy deniadol, cymdeithasol, actif, croesawgar a hapusach i fyw. Bydd yn ceisio hyrwyddo buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a lleihau anghydraddoldebau iechyd a llesiant drwy greu amgylcheddau hygyrch ac iach</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>0</td><td>0</td><td>+</td><td>Er bod y polisi drafft yn canolbwyntio ar rôl datblygu ac iechyd a lles pobl, awgrymir y dylid gosod hyn yng nghyd-destun cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol ehangach y saith nod llesiant yn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf<br>Nodwyd y sylwadau fodd bynnag mae'r CDLlN wedi'i osod o fewn cyd-destun cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach saith nod llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Mae'r polisi hwn yn ymwneud yn benodol â datblygiad ac iechyd a llesiant pobl.<br><br>Ni chynigir newid.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf<br>Dim Newid</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">SP14: DIOGELU A GWELLA DIWYLLIANT A’R DREFTADAETH ADEILEDIG</td><td colspan="2">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o'r Polisi - Bydd asedau treftadaeth unigryw Caerdydd yn cael eu diogelu, eu rheoli a'u gwella</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>Awgrymodd Tîm WLIA yn wreiddiol fod y Cyfiawnhad Rhesymegol dros y Polisi yn cynnwys disgwyliad bod pob Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn cynnwys asesiad o werth hanesyddol, cenedlaethol neu gymunedol yr ased i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, lle bo hynny'n berthnasol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf<br><br>Mae Polisi SP13 yn ymwneud â darparu'r amddiffyniad strategol i'r Amgylchedd Hanesyddol.  Ymdrinnir ag ystyriaethau Rheoli Datblygu ym Mholisi HE1 sy'n cyfeirio at yr angen am Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth.<br>Ni chynigir newid.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb Tîm AEG i’r Rownd Gyntaf<br><br>Derbyn - mae'n fwy priodol bod y mater yn cael sylw drwy bolisi rheoli Datblygu.   Newid sgôr i 0.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">SP15: SICRHAU A GWELLA CYFLEOEDD I DYFU'R GYMRAEG</td><td colspan="2">A fydd y Polisi Strategol yn hwyluso/rhwystro cyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o'r Polisi - Bydd asedau treftadaeth unigryw Caerdydd yn cael eu diogelu, eu rheoli a'u gwella</td></tr>
<tr><td>Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td>+</td><td>+</td><td>+</td><td>Awgrymu'r teitl canlynol i'r Polisi<br><br>"SICRHAU A GWELLA CYFLEOEDD I DYFU'R GYMRAEG"<br><br>Awgrymir y paragraff ychwanegol canlynol.<br><br>Mae 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.<br><br>Mae'r strategaeth 'Cymraeg 2050' yn gosod y targedau o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o'r Gymraeg i 20% erbyn 2050.<br><br>Mae creu lleoedd cynaliadwy drwy'r drefn greu lleoedd hefyd yn cynnwys creu a chynnal cymunedau sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Ac yn dilyn ychwanegiadau/gwelliannau ar ôl paragraff 3.**<br>Fel y disgrifiwyd yn y papur technegol ar y Gymraeg, er i'r Gymraeg ymddangos yn gryf fel nodwedd o dwf Caerdydd yn y 19eg ganrif fel porthladd masnachu, daeth y Saesneg yn iaith ddylanwadol bywyd cyhoeddus a chymdeithasol y Ddinas yn ystod yr ugeinfed ganrif. Dim ond o'r 1970au ymlaen y dechreuodd iechyd a bywiogrwydd yr iaith wyrdroi ei ffawd oherwydd twf yn nefnydd yr iaith ym meysydd addysg a darlledu.<br><br>Yn ôl Cyfrifiad 2021, Caerdydd yw'r awdurdod lleol gyda'r trydydd nifer fwyaf o siaradwyr yng Nghymru sy'n deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, ac un o'r ychydig ardaloedd i weld twf yn y degawd diwethaf, felly mae niferoedd, oedrannau a chrynodiad y siaradwyr Cymraeg yma o bwys i dwf yr iaith dros gyfnod y cynllun datblygu. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024) hefyd yn nodi mai Caerdydd sydd â'r trydydd nifer mwyaf o siaradwyr yr iaith (sef 80,600 ) o holl awdurdodau lleol Cymru. Bydd y polisi hwn felly'n canolbwyntio lawn cymaint ar niferoedd siaradwyr yn ogystal â chanran ac ar gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y ddinas.<br><br>"Pan fo'r datblygiad arfaethedig yn bodloni'r trothwy a'r meini prawf isaf ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol o dan Atodlen 2.b.10 ii a iii (Datblygu Trefol) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, rhaid i'r Datganiad Amgylcheddol ar yr effeithiau sylweddol tebygol a'r effaith ar senario gwaelodlin ac esblygiad tebygol y ffactorau poblogaeth gynnwys hefyd yr effeithiau tebygol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd canllawiau pellach yn cael eu datblygu yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar y Gymraeg." |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Mae cyfiawnhad ysgrifenedig yn cynnwys y testun.

| |
|---|
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Croesewir y gwelliannau.<br>Yn dilyn ystyriaeth bellach ac asesiad o'r cynigion cyfredol (e.e. Penrhyn Caerdydd, i'r De o Creigau) mae'n amlwg bod diffyg arweiniad cyfredol i ddatblygwyr yng Nghaerdydd ynghylch yr angen i ystyried effaith debygol cynigion mawr ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Pan fo'r datblygiad yn bodloni'r trothwy a'r meini prawf perthnasol, awgrymir bod paragraff ychwanegol wedi'i gynnwys yn y Cyfiawnhad Rhesymegol i'r polisi. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd (Tachwedd)**<br><br>Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd**<br><br>Mae'r naratif ychwanegol wedi'i gynnwys yn y Cynllun Drafft terfynol. |

# 3 Crynodeb o arfarniad effaith Polisïau Strategol ar y Gymraeg

| | Deilliannau Caerdydd Ddwyieithog | | |
|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol** | **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** |
| **CRYFACH** | | | |
| **SP1** | +/- | +/- | + |
| **SP2** | +/- | ? | + |
| **SP3** | ? | ? | + |
| **SP5** | 0 | 0 | + |
| **SP6** | 0 | 0 | + |
| **SP7** | 0 | 0 | + |
| **SP9** | 0 | 0 | 0 |
| **TECACH** | | | |
| **SP12** | 0 | 0 | + |
| **SP13** | 0 | 0 | + |
| **SP14** | 0 | 0 | 0 |
| **SP15** | + | + | + |

**Tabl 2:  Newidiadau i'r Tabl yn deillio o arfarniad Polisïau Strategol y CDLlN Drafft**

| Polisi CDLlN | Newid a gynigiwyd gan y Tîm AEG | Ymateb Tîm CDLlN i'r newid arfaethedig |
|---|---|---|
| **SP2** | Diwygio D2 i ? | Derbynnir y gwelliannau |
| **SP3** | Diwygio D1 a D2 i ? | Derbynnir y gwelliannau |
| **SP5** | Diwygio D3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| **SP6** | Diwygio D3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| **SP7** | Sylwadau a sgoriau ar y Polisi Drafft Newydd | Derbyniwyd |
| **SP14** | Diwygio D3 i 0 | Derbynnir y gwelliannau |

# Pennod 3: Asesiad o Effaith Polisïau Datblygu Manwl ar y Gymraeg

## 1 Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg (AEG) yn deillio o'r polisïau manwl perthnasol arfaethedig yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo 2021 – 36. Mae'r Polisïau Datblygu Manwl yn set a lefel fanylach o bolisïau sy'n gweithio o fewn fframwaith y Polisïau Strategol a'u prif rôl yw darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.

3.2 Mae'r asesiad hwn wedi'i gyfyngu i'r polisïau sydd wedi eu cynnwys fel y disgrifir ym Mhennod 1. Yn ogystal, mae proses iterus neu ailadroddol yr asesiad wedi arwain at beidio cynnwys y polisïau ychwanegol canlynol o fewn cwmpas yr asesiad:

- Polisi EC4A - Defnydd Amgen i Dir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig
- Polisi R3 - Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig

## 2 Methodoleg

3.3 Fel y trafodwyd, y maen prawf allweddol ar gyfer Fframwaith Asesu Effaith y Cynllun cyffredinol yw:

> *I ba raddau y byddai polisïau a chynigion datblygu'r Cynllun yn hwyluso neu'n rhwystro gallu dinas Caerdydd i wireddu datganiad cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050. ("Caerdydd Ddwyieithog"*[29]).

3.4 Mae'r fframwaith cyntaf yn canolbwyntio ar asesu os, a sut, fydd strategaeth gyffredinol y Cynllun ar gyfer graddfa a thwf y Ddinas, ac yn enwedig tai a swyddi, yn effeithio ar daflwybr twf niferoedd a chanran y siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar nifer y bobl 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg a gofnodwyd ym mhob Cyfrifiad deng mlynedd.

3.5 Mae'r dull asesu ar gyfer y Polisïau Datblygu a Pholisïau Rheoli Datblygu perthnasol mwy manwl yn dilyn yr ail fframwaith fel y cytunwyd arno gyda thîm Cleient y Ddinas ac fel y disgrifir ym Mhennod 1. Mae hyn yn gofyn am fwy o fanylder ac ymagwedd â mwy o raddoli i'r asesiad a dealltwriaeth fanylach o berthynas elfennau unigol y cynllun arfaethedig â'r themâu a deilliannau manylach Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.

3.6 Mae'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyffredinol yn mabwysiadu'r tair thema strategol a fabwysiadwyd fel rhan o Cymraeg 2050 ac yn blaenoriaethu tri deilliant ar gyfer y cyfnod 2022 – 27 gyda pholisïau a chamau gweithredu wedi'u hanelu at ymyriadau allweddol i gyflawni cynnydd yn y meysydd hyn. Amlygir yr elfennau mwyaf perthnasol i ymyriadau'r Cynllun arfaethedig:

[29] Cyngor Dinas Caerdydd (2022) - Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27

**Thema 1:** Cynyddu **nifer a chanran** y siaradwyr Cymraeg (yng Nghaerdydd)

Deilliant 1: Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i gynyddu ac yn cyrraedd y targedau a nodwyd i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Thema 2:** Cynyddu'r **defnydd** o'r Gymraeg (i greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog)

Deilliant 2: Cynnydd sylweddol a **normaleiddio'r** defnydd o'r Gymraeg

**Thema 3:** Creu amodau addas - creu a chynnal amodau ac amgylchedd addas lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Deilliant 3: Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, **datblygu economaidd**, llwyfannau digidol a **diwylliant**.

3.7 Yn ei hanfod, mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar feini prawf tebyg i'r Fframwaith Asesu ACI (Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig) mwy cyffredinol, ond wedi'i addasu i'r rhagolygon yn y dyfodol yn ogystal ag asesu'r effaith ar y sefyllfa ieithyddol bresennol. Mae hyn yn ymwneud yn fwy uniongyrchol ag elfennau o Thema a Deilliant 3 er y gallai'r Polisïau Tai a Chyflogaeth fod â goblygiadau ar gyfer Thema a Deilliant 1 hefyd, yn enwedig o ran arweiniad y polisïau perthnasol ar leoliadau datblygu o fewn y Ddinas a'u perthynas â gwaelodlinau presennol o gymunedau dwysedd uwch sy'n siarad Cymraeg.

3.8 Mae **Ffigur 7**, felly, yn mabwysiadu'r fframwaith ACI ar gyfer barnu effaith debygol Polisïau ar y waelodlin bresennol a'r taflwybr disgwyliedig o ran twf y Gymraeg.

**Ffigur 7: Effaith Polisïau Datblygu ar gyflawni targed Caerdydd Ddwyieithog**

| Symbol | Disgrifiad (Effaith debygol ar Gyflawni Targed Caerdydd Ddwyieithog) |
|---|---|
| ++ | Cadarnhaol mawr o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| + | Cadarnhaol bach o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol o'u cymharu â "Busnes fel Arfer |
| 0 | Niwtral |
| - | Negyddol bach o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| -- | Negyddol mawr o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| ? | Ansicrwydd ynghylch pa effaith fydd gan y polisi yn ymarferol |

3.9 Roedd y sylwebaeth gychwynnol ar rai Polisïau mewn asesiadau cynharach - yn benodol ar yr effaith debygol ar Ddeilliant 3 - yn cynnwys dwy sgôr i ddangos newid

yn y sgôr pe bai cam a argymhellid yn cael ei dderbyn ai peidio. Mae'r sgôr terfynol yn adlewyrchu'r consensws a gyrhaeddwyd.

3.10 Mae'r asesiad o bolisïau datblygu wedi ei gynnal mewn wyth cam:

i. Ymarfer cwmpasu a oedd yn nodi pa bolisïau datblygu y dylid eu cynnwys neu eu heithrio o'r asesiad. Cawsant eu hasesu gyntaf o ran a oeddent yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar genhadaeth a deilliannau Caerdydd Ddwyieithog ac os na, eu gosod allan o'r cwmpas. Arweiniodd hyn at osod 57 o'r 80 polisi ar y pryd allan o'r cwmpas. Yna profwyd y 23 polisi manwl a oedd yn weddill am eu heffeithiau tebygol ar y Gymraeg o ran y fframwaith sgorio uchod.

ii. Asesiad cychwynnol o bob un o'r polisïau datblygu a oedd wedi'u cynnwys yn fersiwn mis Ebrill o'r Cynllun Drafft.

iii. Dosbarthu'r Asesiad Drafft Cychwynnol ar gyfer sylwadau o fewn y Tîm Cleient a'r Tîm CDLl ar gyfer ymgynghori mewnol.

iv. Cylchredeg a chyflwyno Asesiad Drafft Cychwynnol i Weithgor Caerdydd Ddwyieithog a gynhaliwyd ar 2 Medi 2024

v. Ystyried adborth ac addasu'r adroddiad drafft lle caiff sylwadau eu hystyried.

vi. Asesiad o newidiadau pellach a gynhwysir yn y CDLlN drafft (fersiwn Medi a diwygiadau dilynol) a chynhyrchu Asesiad Drafft Rownd 2.

vii. Ystyried adborth ac addasu Asesiad Drafft Rownd 2

viii. Cynhyrchu Asesiad drafft terfynol diwygiedig i'w gylchredeg ac i dderbyn sylwadau.

3.11 Mae'r polisïau perthnasol yn cael eu hasesu isod:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TAI** | | | | | | |
| **Polisi H1.A: Safleoedd Tai Strategol** | | | **Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog** | | | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol** |
| **Crynodeb o'r Cyd-destun -** Caiff y safleoedd hyn eu dyrannu naill ai ar gyfer tai neu weddillion dyraniadau presennol ar gyfer Safleoedd Strategol (gweler AEG y Safleoedd Strategol.) Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn cael eu cario drosodd o CDLl1 ac fe'u haseswyd ar gyfer effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun hwnnw. Mae'r asesiad o'r safleoedd hyn wedi'i gynnwys o fewn yr asesiad o safleoedd mawr. | | | | | | |
| **Rhif Polisi** | **Teitl** | **Disgrifiad** | **Deilliant 1 Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2 Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3 Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** | |
| **Gweler asesiad o Safleoedd Mawr** | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="3">Polisi H1.B: Safleoedd Anstrategol</th><th colspan="3">Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog</th><th>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</th></tr>
<tr><td colspan="7">Crynodeb o'r Cyd-destun - Mae’r safleoedd hyn wedi eu dyrannu yn y CDLlN arfaethedig er mwyn sicrhau bod y tir yn cael ei amddiffyn i’w ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer darparu tai.</td></tr>
<tr><td>Rhif Polisi</td><td>Teitl</td><td>Disgrifiad</td><td>Deilliant 1 Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2 Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3 Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="7">Gweler asesiad o Safleoedd Mawr</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">Mae Polisi H2: Ardaloedd Adfywio a Arweinir gan Dai</td><td colspan="3">Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog</td><td>Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol</td></tr>
<tr><td colspan="6">Crynodeb o'r Cyd-destun - Mae’r polisi hwn yn cynnig dynodi pedair ar ddeg o ardaloedd adfywio dan arweiniad tai, a nodir ar y map cynigion.  Maent yn cynrychioli lleiniau tir sydd naill ai'n wag, yn cael eu tanddefnyddio neu'n destun cynigion ailddatblygu, neu sydd â photensial yn y dyfodol ar gyfer datblygiad dwysedd uchel, cynaliadwy, defnydd cymysg.</td></tr>
<tr><td>Rhif Safle</td><td>Teitl Disgrifiad</td><td>Deilliant 1 Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd</td><td>Deilliant 2 Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg</td><td>Deilliant 3 Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.</td><td></td></tr>
<tr><td>H2.1</td><td>Pentref Chwaraeon Rhyngwladol (PChRh)<br>Maint y safle 5ha. Hyd at 1000 o anheddau</td><td>0</td><td>0</td><td>+</td><td>Mae'r unedau annedd a gynlluniwyd ar gyfer y safle hwn yn rhan o strategaeth adfywio hirdymor ar gyfer yr ardal hon sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyfleusterau chwaraeon dŵr (dŵr gwyn, arena iâ a phwll nofio) ynghyd â siopau, bwytai, swyddfeydd a llety i dwristiaid<br><br>Mae Uwchgynllun y PChRh a'r Cais Cynllunio Amlinellol (Medi 2024) yn cynnwys datblygu 202,000 metr sgwâr gros ac adeiladu 15 o adeiladau newydd. Mae'n cynnwys cwr preswyl o ychydig dros 1000 o gartrefi sy'n ymgorffori cymysgedd o dai trefol, fflatiau a chartrefi teuluol mewn pum</td></tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | bloc o fflatiau uchel. Ynghyd â llety ar gyfer byw hŷn.<br><br>**Gwaelodlin**<br><br>Cofnododd Ward Etholiadol Grangetown 3,268 ag unrhyw sgil Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 sef 16.41% o'r boblogaeth 3+ oed.<br><br>Mae'r clwstwr dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg wedi'i ganoli tuag at ogledd a chanol ward Grangetown ac mae gryn bellter o'r PChRh ac wedi'i wahanu'n gorfforol gan ffordd gyswllt Grangetown yr A4232.<br><br>Mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar y clwstwr presennol o siaradwyr Cymraeg.<br><br>Yn y tymor hwy gall y datblygiad gael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth addysg Gymraeg.<br><br>Mae'r safle o fewn y dalgylchoedd addysg canlynol<br><br>Dalgylch cynradd Cymraeg - Mae Ysgol Gymraeg Hamadryad yn darparu addysg gynradd i ddisgyblion o ardal y Bae (rhannau o Grangetown a Butetown. Mae data CYBLD yn cofnodi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 333 o ddisgyblion ar gyfer mis Ionawr 2024, gyda 21% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.<br><br>Dalgylchoedd cynradd Saesneg - Ysgol Gynradd Grangetown (Data CYBLD Ion 335 o ddisgyblion)<br>Ysgol Gynradd Sant Paul (Yr Eglwys yng Nghymru) (data CYBLD Ion – 180 o ddisgyblion)<br><br>**Asesiad**<br><br>Caiff y cais cynllunio amlinellol ei asesu yn erbyn y cynllun mabwysiedig presennol - nid oes gan hwn bolisi o ran effaith debygol ar y Gymraeg.<br><br>Ni wyddys union gymysgedd tai y datblygiad newydd ar adeg yr asesiad hwn ond ystyrir ei bod yn debygol o esgor ar angen sylweddol am naill ai ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a Saesneg bresennol neu, ar y cyd ag ardaloedd adfywio Doc y Rhath (H2.3) a Phorth Teigr/Pentir Alexandra (H2.4), yr angen am ddarpariaeth feithrin a chynradd newydd.   Mae agosrwydd yr ardal at ffin de-orllewinol y Ddinas yn awgrymu ystyried y posibilrwydd hefyd o weithio gyda Chyngor y Fro - i gwmpasu darpariaeth uwchradd Cymraeg newydd posibl yn y dyfodol a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | allai ddarparu ar gyfer cymunedau cyfagos Llandochau a Phenarth - fel trywydd a fyddai'n werth ei archwilio ymhellach.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |
| H2.2 | Ysbyty'r Eglwys Newydd/Safle Velindre<br>Maint y safle 26 ha.  Hyd at 410 o anheddau | +/- | ? | + | Roedd y safle hwn, ynghyd â H1.9 (Ysbyty'r Eglwys Newydd) yn rhan o ysbyty seiciatryddol a gaeodd yn 2016. Mae'r safle i'r gogledd o'r Eglwys Newydd ar y gyffordd rhwng Heol Felindre a Heol y Parc ac mae'n cwmpasu tua 4 hectar.<br><br>Mae'r safle o fewn Ward Etholiadol yr Eglwys Newydd a Thongwynlais.<br><br>Yr ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg (Mae Ysgol Melin Gruffydd o fewn 500 metr i'r safle dyrannu).  Mae hwn yn asesu'r dyraniad am ei effeithiau tebygol ar glystyrau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | presennol o siaradwyr Cymraeg ac ysgolion cynradd Cymraeg.<br><br>**Gwaelodlin**<br><br>Mae'r ardal effaith debygol yn cynnwys clwstwr pwysig (dwysedd canolig) o siaradwyr Cymraeg presennol yn y dalgylch sy'n cynnwys yr Eglwys newydd a Thongwynlais.<br><br>Mae Cyfrifiad 2021 Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais yn cofnodi bod gan 3,645 o breswylwyr 3 oed a throsodd unrhyw sgil Cymraeg sy'n cynrychioli tua 23.7% o'r boblogaeth berthnasol<br><br>Mae Cyfrifiad 2021 Radur a Phentre-poeth yn cofnodi bod gan 1,050 o breswylwyr 3 oed a throsodd unrhyw sgil Cymraeg sy'n cynrychioli tua 17.99% o'r boblogaeth berthnasol<br><br>Ysgol Melin Gruffydd - Mae gan yr ysgol 467 o ddisgyblion ar y gofrestr (2024) (344 o oedran ysgol statudol) gyda 52.9% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae'r ffigurau'n aros yn gyffredinol yr un fath ag yr adroddwyd arnynt yn yr arolygiad blaenorol yn 2015. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae ysgolion cynradd yr Eglwys Newydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd hefyd wedi'u lleoli ger llaw.<br><br>**Asesiad**<br><br>Gyda hyd at 410 o anheddau, mae'r safleoedd yn debygol o gael effaith sylweddol ar ganran y clystyrau presennol o siaradwyr Cymraeg oni bai bod y risg yn cael ei lliniaru a chyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn cael eu gwella<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |
| H2.3 | Parc Busnes Porth Caerdydd (Gorllewin)<br>Maint y safle 6.4 ha. Unedau amcangyfrifedig hyd at 200 | 0 | 0 | + | Mae safle Parc Busnes Porth Caerdydd (Gorllewin) ger llaw Safle Strategol F (gweler asesiad o Safleoedd Mawr).<br><br>Nodir bod caniatâd Taylor Wimpey (y cyfeirir ato wrth asesu Safle Strategol F) yn cynnwys cyfraniadau tuag at |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | feithrinfa newydd ac ysgol gynradd 2DM ac ysgol uwchradd 10DM<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu'n cael effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yna pe bai'r safle yn cael ei asesu yn erbyn y CDLlN newydd yna dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol |
| H2.4 | Ochr y Gogledd Doc y Rhath<br>Maint y safle 3.67 ha. Unedau amcangyfrifedig hyd at 316 | 0 | 0 | + | Agorwyd Doc y Rhath ym 1887 a'i gynllunio i drin llongau yn mewnforio nwyddau yn ogystal ag i allforio glo,<br><br>Mae'r gwaith arfaethedig o adfywio safle'r Gogledd yn rhan o adfywiad hirdymor Bae Caerdydd a'r bwriad yw darparu ar gyfer cyfanswm o 316 o anheddau.<br><br>**Gwaelodlin**<br><br>Mae safle Doc y Gogledd yn gorwedd ger llaw wardiau etholiadol Butetown/Sblot. Cofnododd Ward Butetown 1,659 yng Nghyfrifiad 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sef 14.4% o'r boblogaeth 3+ oed â ryw sgil Cymraeg.<br>Cofnododd Ward Sblot 2,061 yng Nghyfrifiad 2021 sef 15.14% o'r boblogaeth 3+ oed â ryw sgil Cymraeg.<br><br>Ysgol gynradd Gymraeg yw Ysgol Glan Morfa sy'n tynnu disgyblion o ardal Sblot yn bennaf. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad Estyn diweddaraf yn 2017 roedd ganddi 212 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 33 o blant oedran meithrin rhan-amser (Estyn 2017). Deallir erbyn 2022 fod ganddi 263 o ddisgyblion ar y gofrestr + 48 rhan-amser yn y feithrinfa. Mae adroddiad Estyn yn nodi mai dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.<br>Ysgol gynradd Saesneg ger Parc y Morfa yn Sblot yw Ysgol Moorland. Mae'n darparu ar gyfer 467 o ddisgyblion, gan gynnwys 64 sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan amser (Estyn 2018).<br><br>**Asesiad**<br><br>Gyda hyd at 316 o anheddau wedi'u dyrannu ar gyfer y safle ailddatblygu hwn, mae'n annhebygol y bydd y dyraniad ar ei ben ei hun yn cael effaith sylweddol ar waelodlin y siaradwyr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cymraeg ond gallai gael effaith sylweddol ar ysgolion cynradd cyfagos.<br><br>Fodd bynnag, ar y cyd ag ardaloedd adfywio PChRh (H2.1) a Phorth Teigr/Pentir Alexandra (H2.4), gallai gynhyrchu angen am ddarpariaeth feithrin a chynradd newydd ar gyfer Ardal Bae Caerdydd a darpariaeth addysg uwchradd newydd yn y dyfodol.<br><br>Gan y bydd gan y safle dros 100 o unedau bydd ei safle datblygu yn destun SP3 Sicrhau Ymagwedd Uwchgynllunio.  Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Yn unol â Pholisi Strategol SP5 (sicrhau seilwaith newydd) dylid defmyddio rhwymedigaethau cynllunio, lle bo'n bosibl, tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |
| H2.5 | Porth Teigr a Phentir Alexandra<br>Maint y safle 27 ha. Amcan unedau hyd at 2,310 | ? | ? | + | Mae'r unedau anheddau a gynlluniwyd ar gyfer y safle hwn yn rhan o strategaeth adfywio hirdymor dan arweiniad tai ar gyfer yr ardal hon. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dim gwybodaeth ar gael adeg yr asesiad i ddeall y datblygiad arfaethedig a'r cymysgedd tai.<br><br>**Gwaelodlin**<br><br>Mae safle Porth Teigr/Pen Doc Alexandra wedi'i leoli yn ward etholiadol Butetown.  Cofnododd Ward Butetown 1,659 yng Nghyfrifiad 2021 sef 14.4% o'r boblogaeth 3+ oed â ryw sgil Cymraeg.<br><br>Mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar y clwstwr presennol o siaradwyr Cymraeg.<br><br>Yn y tymor hwy gall y datblygiad gael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth addysg Gymraeg.<br><br>Mae'r safle o fewn y dalgylchoedd addysg canlynol:<br>Dalgylch cynradd Cymraeg  -<br>Mae Ysgol Gymraeg Hamadryad tua 1 km i'r gorllewin o'r safle, er bod Ffordd Gyswllt Grangetown yn eu gwahanu, ac mae’n darparu addysg gynradd i ddisgyblion o ardal y Bae (rhannau o Grangetown a Butetown).   Mae data CYBLD yn cofnodi 333 o ddisgyblion ar gyfer mis Ionawr 2024, gyda 21% o |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.<br><br>I'r gogledd-ddwyrain o'r safle, tua 1.5 km i ffwrdd, lleolir Ysgol Glan Morfa unwaith eto wedi'u gwahanu o'r safle gan Ffordd Gyswllt Grangetown. Mae Ysgol Glan Morfa yn tynnu ei disgyblion yn bennaf o ardal y Sblot. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad Estyn diweddaraf yn 2017 roedd ganddi 212 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 33 o blant oedran meithrin rhan-amser (Estyn 2017). Deallir erbyn 2022 fod ganddi 263 o ddisgyblion ar y gofrestr (a 48 yn rhan-amser yn y feithrinfa). Mae adroddiad Estyn yn nodi mai dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.<br>Ysgol gynradd Saesneg ger Parc y Morfa yn Sblot yw Ysgol Moorland. Mae'n darparu ar gyfer 467 o ddisgyblion, gan gynnwys 64 sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan amser (Estyn 2018).<br><br>Dalgylch cynradd Saesneg - Ysgol Gynradd Mount Stuart (Data CYBLD Ion 305 o ddisgyblion)<br><br>Mae ysgolion cynradd eraill yn lled agos ond y tu allan i'r dalgylch yn cynnwys |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | St. Cuthberts (Pabyddol) – 110 o ddisgyblion (Data CYBLD Ionawr 2024<br><br>Yr Eglwys yng Nghymru Y Forwyn Fair 145<br><br>Yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul 180<br><br>Ysgol Gynradd Moorland ger Parc y Morfa yn Sblot - 310 o ddisgyblion (Data CYBLD Ionawr 2024).<br><br>**Asesiad**<br><br>Gyda dyrannu hyd at 2,310 o anheddau ar gyfer y safle adfywio hwn mae'n debygol iawn o gynhyrchu gofyniad am ddarpariaeth feithrin ac addysg gynradd newydd a gall gael effaith sylweddol ar ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg cyfagos.<br><br>Ni wyddys union gymysgedd tai'r datblygiad newydd ar adeg yr asesiad hwn ond er mai'r rhagdybiaeth gychwynnol yw y bydd cyfran helaeth o'r datblygiad yn debygol o fod yn fflatiau un ystafell wely, mae'n debygol o esgor ar angen sylweddol am naill ai ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a Saesneg bresennol neu, ar y cyd âg Ardal Adfywio PChRh (H2.1), yr angen |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | am ddarpariaeth feithrin a chynradd newydd ac o bosibl ddarpariaeth addysg uwchradd.<br><br>Mae'r safle yn bodloni'r meini prawf i fodloni SP3 Sicrhau Ymagwedd Uwchgynllunio.<br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yna, yn unol â SP5 dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio, lle bo'n bosibl, tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |
| H2.6 | Heol Hadfield/Heol y Grange (*Sloper Rd*)<br>Maint y safle 4.8 ha. Amcan unedau hyd at 200. | +/- | ? | + | Mae'r safle ar gornel Heol Bessemer a Heol Hadfield o fewn Ward Etholiadol Grangetown ac mae'n rhan o ardal adfywio ehangach.<br><br>**Gwaelodlin**<br><br>Cofnododd Ward Etholiadol Grangetown 3,268 o siaradwyr ag unrhyw sgil Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 sef 16.41% o'r boblogaeth 3+ oed. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae'r safle o fewn y dalgylchoedd canlynol<br><br>Dalgylch cynradd Cymraeg - Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn darparu addysg gynradd ar gyfer ardal eang ac amrywiol sy'n cynnwys Grangetown, Glan-yr-afon a rhannau o Dreganna, Butetown, Pontcanna a Pharc Fictoria. Nifer gwirioneddol y disgyblion ar y gofrestr yw 324 . Mae ychydig o dan 25% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref (Estyn Rhagfyr 2024)<br><br>Dalgylch cynradd Saesneg - Ysgol Gynradd Parc Ninian (NAG 440 CYBLD Ionawr 2024)<br><br>Ysgol uwchradd Gymraeg - Ysgol Gyfun Glantaf<br>Ysgol uwchradd Saesneg - Fitzalan.<br><br>**Asesiad**<br><br>Gyda hyd at 200 o anheddau wedi'u dyrannu ar gyfer y safle ailddatblygu hwn, mae'n annhebygol y bydd y dyraniad ar ei ben ei hun yn cael effaith sylweddol ar waelodlin y siaradwyr Cymraeg ond gallai gael effaith sylweddol ar ysgolion cynradd cyfagos. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bydd datblygu'r safle yn amodol ar SP3 Sicrhau Ymagwedd Uwchgynllunio. Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol.<br><br>Yn unol ag SP5, dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio, lle bo modd, tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |
| H2.7 | Sgwâr Callaghan | ? | ? | + | Dyraniad wedi ei asesu ar gyfer ei effaith ar y Gymraeg ar y cyd â dyraniadau strategol ac anstrategol eraill fel rhan o CDLl1.<br><br>Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad (28 Mawrth 2021) nid oedd unrhyw dai wedi'u cwblhau o fewn Safle Strategol A ac felly dim cofnod o boblogaeth yn preswylio'n y dyraniad.<br><br>Un o ddwy safle sy'n gorwedd i'r de o'r Orsaf Ganolog. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nid yw'n glir pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar yr uchelgais Caerdydd Ddwyieithog.   Mae datblygiadau tai newydd Mawr Defnydd Cymysg (boed yn faes glas neu dir llwyd) yn rhoi cyfle i helpu i gyflymu'r cyflenwad o Ddosbarthiadau Mynediad Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed gweithredol o addysgu 27% o blant 5 oed drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol.<br><br>Yn unol ag SP5 dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio, lle bo modd, tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**<br><br>Mae angen egluro gwahaniaethau yn y sgorio. | | | | | |


| **Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd** |
|---|
| Mae'r gwahaniaethau o ran sgorio yn adlewyrchu naill ai yr egwyddor fod datblygu'r safle ar gyfer tai eisoes wedi bod yn destun asesiad effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd fel rhan o'r CDLl mabwysiedig neu bwysigrwydd cymharol yr effaith ganfyddedig ar ddwysedd presennol siaradwyr Cymraeg neu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y parthau o ddylanwad unigol.  Ymdrinnir â phwysigrwydd cynnwys asesiad o'r effaith debygol ar y clystyrau presennol o siaradwyr Cymraeg dwysedd canolig neu ysgolion Cymraeg yn y Bennod ar y Fethodoleg. |

**Polisi H3: Tai Fforddiadwy**

**Crynodeb o'r Cyd-destun -** Nod y Polisi hwn yw cynorthwyo'r Cyngor i ddiwallu anghenion tai lle ceir tystiolaeth drwy geisio cyfraniad tai fforddiadwy priodol gan ddatblygiadau preswyl newydd yn y ddinas. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol drafft ar gyfer Caerdydd (sy'n aros am broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru) yn amcangyfrif bod angen cyfartaledd o 1,198 o dai fforddiadwy net ychwanegol bob blwyddyn dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd hyd at 2036.  Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i rannu rhwng 790 y flwyddyn ar rhent cymdeithasol a 308 y flwyddyn ar rent canolradd / Perchentyaeth Cost Isel. Mae cyflawni safleoedd drwy'r system gynllunio ond yn un o blith nifer o ffyrdd i sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy.  Mae'r Polisi yn berthnasol i'r holl ddatblygiadau tai arfaethedig a gwmpesir gan y trothwyon polisi, gan gynnwys cynigion ar dir nas datblygwyd o'r blaen, cynlluniau ailddatblygu, cynlluniau sy'n darparu llety arbenigol (ac eithrio'r rhai y mae preswylwyr angen elfen sylweddol o ofal ynddynt), addasiadau eiddo, newidiadau defnydd, a datblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys tai.  Bydd y Cyngor yn darparu tystiolaeth o angen yn seiliedig ar Ddiweddariad o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Nghaerdydd diweddaraf, wedi'i ategu gan restrau aros presennol y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gwybodaeth berthnasol arall.  Mae gofyniad Tai CDLl Caerdydd (Tabl 2 o'r CDLlN Drafft) yn helpu i nodi graddfa'r cyfraniad a ddisgwylir gan y system Gynllunio tuag at ddiwallu'r anghenion TFf (sef 1098 y flwyddyn).

Dyraniadau 5,281 (352 y flwyddyn)
Lwfansau Annisgwyl 6,202 (413 y flwyddyn)
Addasiadau Preswyl 111 (+7 y flwyddyn)
Cyfanswm 11,594 (773 y flwyddyn)
Gyda disgwyl i gyfraniadau TFf ar safleoedd newydd fod rhwng 20 a 30% mae hyn yn awgrymu y bydd cyfraniadau TFf ar ganiatadau newydd yn darparu rhwng 155 a 232 uned y flwyddyn.

| | | | **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| H3 | Tai Fforddiadwy | Cyfraniadau TFf ar safleoedd 5+ | ?- | ? | + | Nid yw sgiliau Cymraeg yn ffactor wrth adnabod prawf o'r angen am dai nac yn dylanwadu ar ddewis meddianwyr tai fforddiadwy newydd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Yn absenoldeb tystiolaeth ychwanegol, mae'n annhebygol y bydd proffil meddianwyr fforddiadwy newydd yn sylweddol wahanol i broffil tai newydd yn gyffredinol (dyraniadau, addasiadau ac annisgwyl).<br><br>Mae Dimensiwn Tai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 ar gyfer Caerdydd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r 30% o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y ddinas yn rhan ddeheuol y ddinas.<br><br><br>Mae Data Cyfrifiad 2021 ar Sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl amddifadedd gofodol yn awgrymu cydberthynas sylweddol rhwng gallu Cymraeg ac amddifadedd ardal gyda phobl 3 oed neu fwy yn y 40% o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn llai tebygol o fod â sgiliau iaith Gymraeg yn 2021. |

| Pumed Amddifadedd | Gallu siarad Cymraeg | Methu siarad Cymraeg |
|---|---|---|
| Cyfanswm Caerdydd | 12.2 | 87.8 |
| Amddifadedd Lleiaf | 15.4 | 84.6 |
| Amddifadedd Lleiaf Nesaf | 14.1 | 85.9 |
| Canol | 12.7 | 87.3 |
| Amddifadedd Mwyaf Nesaf | 10.4 | 89.6 |
| Amddifadedd Mwyaf | 8.6 | 91.4 |

Mae gwybodaeth Cyfrifiad 2021 ar Sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl Daliadaeth hefyd yn awgrymu bod preswylwyr yn y sector rhentu yn llai tebygol o fod â sgiliau Cymraeg.

| Deiliadaeth aelwyd | Gallu siarad Cymraeg | Methu siarad Cymraeg |
|---|---|---|
| Rhentu: Rhentu cymdeithasol | 6.9 | 93.1 |
| Perchen: Perchen yn llawn | 10.0 | 90.0 |
| Rhentu preifat neu fyw'n ddi-rhent | 10.6 | 89.4 |
| Pob Preswylydd 3+ mewn Aelwydydd | 12.4 | 87.6 |
| Perchen: Â morgais neu fenthyciad neu berchentyaeth a rennir | 18.1 | 81.9 |

Mae cymharu canlyniadau data 2011 a 2021 ar Sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl Deiliadaeth yn ôl Person Cyswllt Aelwyd (PCA) hefyd yn cadarnhau bod y twf mewn sgiliau Cymraeg yn yr holl sectorau yn cael ei yrru gan blant dibynnol sy'n caffael gallu Cymraeg drwy addysg yn hytrach na chael ei drosglwyddo yn y cartref.

| Deiliadaeth person cyswllt aelwyd | Gallu siarad Cymraeg 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Rhentu: Rhentu cymdeithasol | 5.7 | 2.3 |
| Perchen: Perchen yn llawn | 11.3 | 8.6 |
| Rhentu preifat neu fyw'n ddi-rhent | 11.9 | 9.1 |
| Perchen: Â morgais neu fenthyciad neu berchentyaeth a rennir | 14.3 | 14.0 |

Gellir cryfhau creu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu drwy geisio cyfraniadau tuag at gymorth a darpariaeth Gymraeg (yn unol ag SP5 Categori 2 (seilwaith angenrheidiol yn gwneud datblygu'n dderbyniol) ac SP6 sicrhau rhwymedigaethau cynllunio.

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Pwrpas y Polisi hwn yw gosod lefel y cyfraniadau Tai Fforddiadwy –ystyrir na fyddai'r Polisi yn cael effaith ar y Deilliannau. Ni chynigir unrhyw newid.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Ar ôl ailddarllen y polisi rydym yn derbyn bod y cysylltiad rhwng lefel y cyfraniad tai fforddiadwy a'r effaith ar y Gymraeg yn denau. Nodir a deellir y gwahaniaethu rhwng lefel y cyfraniadau sydd rhwng safleoedd tir llwyd a safleoedd maes glas. Fodd bynnag, mae lefel cyfraniadau o'r fath yn debygol o'i gwneud hi'n anoddach sicrhau cyfraniadau rhwymedigaethau cynllunio (gan gynnwys cyfraniadau seilwaith y Gymraeg) trwy ddulliau eraill mewn safleoedd tir llwyd a rhai maes glas.
Felly rydym wedi newid y sgôr ar O1 i anhysbys (?).

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**

Nodwyd y Sylwadau.

**Polisi H4 a H5: Addasiadau i Fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth**

**Crynodeb o'r Cyd-destun -** Gall isrannu adeilad yn unedau preswyl llai fod yn ffurf gynaliadwy o ddatblygu gan ei fod yn rhoi bywyd newydd i adeiladau a allai fod yn segur neu'n economaidd annichonadwy. Gall isrannu adeiladau preswyl sy'n bod eisoes yn unedau preswyl llai fod yn ffynhonnell bwysig o dai.

Mae addasu gwagle uwchben siopau at ddefnydd preswyl yn gyfraniad gwerthfawr i stoc dai y ddinas ac yn darparu cartrefi y mae mawr eu hangen. Mae hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu cymunedau bywiog, cymysg eu defnydd lle mae pobl yn byw ac yn siopa.

| Mae Polisi H5 yn nodi ardaloedd a strydoedd bach lle ceir pryderon ynghylch gormodedd o dai amlfeddiannaeth. | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig** |
| H3 | Addasu yn Fflatiau | Yn disgrifio'r meini prawf caeth lle gellid caniatáu addasu yn fflatiau | 0 | 0 | 0 | Fel y disgrifir uchod mae'r rhan fwyaf o addasiadau yn fflatiau posibl yn deillio o isrannu defnydd C3 presennol neu o drosi gofod gwag uwchben siopau ar y llawr gwaelod. Mae'r gofyniad maint eiddo i wneud addasiadau yn dderbyniol yn ei gwneud yn annhebygol iawn y bydd y polisïau hyn yn effeithio'n sylweddol ar leoliadau presennol a phatrymau twf y Gymraeg a'i lleoliadau yn y dyfodol, yng Nghaerdydd, boed o ganiatadau unigol neu gronnol. |
| H4 | Tai Amlfeddiannaeth | Yn disgrifio'r meini prawf caeth lle gellid caniatáu addasu yn Dai Amlfeddiannaeth | 0 | 0 | 0 | |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Asesir mai niwtral yw effaith H3 a 4 ac ni chynigir unrhyw newidiadau. Mae pwyntiau sy'n ymwneud â chreu amodau ffafriol wedi'u cynnwys yn y polisïau perthnasol mewn mannau eraill ac nid oes angen eu dyblygu yma. Dim angen newidiadau. | | | | | | |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Cytunwyd – dilëwyd y frawddeg uchod. | | | | | | |

| Mae **Polisi H8: Newid defnydd Tir neu Eiddo Preswyl** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Cyd-destun -** Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau ar gyfer newid defnydd, trosi neu ailddatblygu tir ac eiddo segur a ddatblygwyd yn flaenorol a safleoedd sydd y tu allan i Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae a Chanolfannau Ardal a Lleol a'r amgylchiadau lle cânt eu caniatáu.. | | | | | | |
| ID | Teitl | Crynodeb Byr | **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig** |
| H8 | Newid Defnydd neu Ailddatblygu i | Newid defnydd ar eiddo segur neu | ? | ? | + | Gellir cryfhau creu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu drwy geisio |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ddefnydd Preswyl ar Safleoedd Heb Eu Dyrannu (y tu allan i Ardaloedd Busnes y Canol a’r Bae) | ailddatblygu tir segur a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer defnydd preswyl neu ddatblygiad cymysg | | | | cyfraniadau tuag at ddarpariaeth a chymorth i’r Gymraeg yn unol â Maen Prawf iv. Polisi SP5, i gefnogi darpariaeth Gymraeg drwy ddarparu neu wella seilwaith cymunedol Cymraeg. Mae’r polisi yn cyfeirio at SP5. |

**Ymateb Tîm CDLlN i’r Rownd Gyntaf**

Mae'r polisi'n nodi'r meini prawf ar gyfer newid defnydd neu ailddatblygu – mae pwyntiau sy'n ymwneud â chreu'r amodau ffafriol a chyfraniadau wedi'u cynnwys yn y polisïau perthnasol mewn mannau eraill ac nid oes angen eu dyblygu yma. Ni chynigir unrhyw newid.

**Ymateb Tîm AEG i’r Rownd Gyntaf**

Nodwyd y Sylwadau.

Mae **Polisi H9: Newid defnydd neu ailddatblygu at ddefnydd preswyl ar safleoedd heb eu dyrannu**

**Crynodeb o'r Cyd-destun** - Mae’r polisi hwn yn darparu fframwaith i asesu ceisiadau ar gyfer newid defnydd neu ailddatblygu tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol at ddibenion preswyl neu ddefnydd cymysg sy’n cynnwys tai ar safleoedd heb eu dyrannu at ddibenion preswyl o fewn ffiniau aneddiadau, i gydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae safleoedd annisgwyl yn eu gwneud wrth ddiwallu anghenion tai. Ei nod yw sicrhau lle bo angen bod tir yn cadw ei ddefnydd presennol; bod tir nad oes ei angen mwyach ar gyfer ei ddefnydd presennol neu flaenorol yn cyfrannu at fodloni gofynion tai, a bod adeiladau ac amgylcheddau preswyl newydd wedi'u cynllunio'n dda, yn amgylcheddol gadarn ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at hyrwyddo adfywio cymunedol a gwella ansawdd bywyd.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| H9 | Newid Defnydd neu Ailddatblygu at Ddefnydd Preswyl ar Safleoedd Heb eu Dyrannu | Newid defnydd ar eiddo segur neu ailddatblygu tir segur a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer defnydd preswyl neu ddatblygiad cymysg | ? | ? | + | Gellir cryfhau creu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu drwy geisio cyfraniadau tuag at ddarpariaeth a chymorth i’r Gymraeg yn unol â Maen Prawf iv. Polisi SP5, i gefnogi darpariaeth Gymraeg drwy ddarparu neu wella seilwaith cymunedol Cymraeg. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Awgrymir ychwanegu'r canlynol<br><br>Bwriad Maen Prawf (iv) yw sicrhau bod unrhyw effaith sylweddol ar gymunedau cyfagos wedi cael ei ystyried.  Yn achos safleoedd annisgwyl mawr, rhaid i'r cynnig hefyd ddangos ei fod yn bodloni gofynion SP15 a WL1 o ran deall yr effaith ar gyfleoedd presennol ac yn y dyfodol i dyfu'r Gymraeg ac adnabod ac ymateb i gyfleoedd ar gyfer mesurau gwella a lliniaru |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**<br>Mae'r polisi'n nodi'r meini prawf ar gyfer newid defnydd neu ailddatblygu – mae pwyntiau sy'n ymwneud â chreu'r amodau ffafriol a chyfraniadau wedi'u cynnwys yn y polisïau perthnasol mewn mannau eraill ac nid oes angen eu dyblygu yma.  Ni chynigir unrhyw newid. | | | | | | |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br>Cytuno.  Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod croesgyfeiriad yn cael ei wneud i Bolisi WL1 er mwyn helpu i dynnu sylw datblygwyr safleoedd mawr.<br>Dylai datblygiadau mawr sy'n cynnwys 10+ o unedau preswyl neu ofod cyflogaeth o 1ha + fod yn destun datganiad sefyllfa'r Gymraeg a Chynllun Gweithredu AEG posibl yn unol â Pholisi WL1.<br>Argymhellir bod y naratif ar gyfer Polisi H9 yn tynnu sylw datblygwyr mawr ac yn gwneud croesgyfeiriad at Bolisïau SP15 a WL1 yn unol â'r geiriad. | | | | | | |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**<br>Gan fod cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn pob polisi yn y cynllun, ni ystyrir bod angen cyfeirio at ofynion SP15 a WL1 ar wahân yn y Polisi. | | | | | | |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd**<br>Argymell croesgyfeirio at gynigion sy'n destun Polisi H9 yn WL1. | | | | | | |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Drydedd Rownd**<br>Derbyniwyd yr argymhelliad a diwygiwyd y testun. | | | | | | |

**ECONOMI**

**EC1:  Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol**

**Crynodeb o'r Cyd-destun -** Mae'r polisi hwn yn ceisio adeiladu ar ddatblygiad llwyddiannus yr Ardal Fenter Ganolog hyd yma trwy hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad a datblygiad defnydd cymysg newydd i wella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad yr Ardal ymhellach a sicrhau bod Caerdydd yn cyflawni ei rôl fel sbardun economaidd y ddinas-ranbarth. Mae cynlluniau swyddfeydd Gradd A mawr wedi'u cwblhau yng Nghwr y Brifddinas a'r Sgwâr Canolog a chynlluniau preswyl dwysedd uchel, gan gynnwys elfennau o ddefnydd cymysg a gofod llawr cyflogaeth wedi eu cwblhau a neu'n cael eu codi yng nghyffiniau Heol Dumballs.

Bydd y polisi hwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad yr ardal yn y dyfodol, gan gynnwys cwblhau'r Cei Canolog, cyflawni uwchraddio'r 'Metro Canolog' ar gyfer Gorsaf Reilffordd Caerdydd Canolog a'r gyfnewidfa fysiau, safleoedd ailddatblygu Sgwâr Callaghan a Rhodfa'r Gamlas a'r ailddatblygu ac adfywio sy'n mynd rhagddo ar Heol Dumballs.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EC1 | Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol | Disgrifio'r defnydd arfaethedig ar gyfer y dyraniad | + | + | + | Gellid defnyddio polisïau SP5 a SP6, lle y bo'n briodol, i annog cyflogwyr BBaCh i hyfforddi eu staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Dim Camau Gweithredu wedi eu hawgrymu ar gyfer Polisi EC1 – Sylwadau'n ymwneud â Pholisïau SP5 a 6?  Gweler sylwadau ar gyfer Polisïau SP5 ac SP6.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Nodwyd y Sylwadau.

| **EC2: I'r de o Barc Busnes Llaneirwg - Safle cyflogaeth strategol sy'n cynnwys hyd at 90,000 metr sgwâr o ddefnydd B1, B2 a B8, defnyddiau ategol a seilwaith .... ynghyd â chodi cyfleuster canolfan drafnidiaeth newydd, yn cynnwys adeiladau gorsaf reilffordd (hyd at 2,500m2)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Cyd-destun -** Mae'r polisi hwn yn ceisio dyrannu 44ha o dir busnes a thir diwydiannol ar Dir i'r De o Laneirwg, fel safle strategol i ddarparu gorsaf drafnidiaeth (gan gynnwys gorsaf prif linell reilffordd), a thir cyflogaeth i ddenu buddsoddiad o ansawdd uchel i gyfrannu at strategaeth economaidd y CDLl ac economi'r Ddinas-ranbarth ehangach a chefnogi statws Caerdydd fel dinas gystadleuol yn rhyngwladol. | | | | | | |
| **Rhif** | **Teitl** | **Crynodeb Byr** | **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig** |
| EC2 | | | | | | Mae hwn yn Bolisi Drafft newydd ar gyfer Drafft mis Medi ac mae'n safle sy'n cael ei gario drosodd o'r CDLl mabwysiedig. Derbyniodd ganiatâd cynllunio gan Gyngor Caerdydd ond mae Llywodraeth Cymru wedi ei alw i mewn i'w adolygu oherwydd pryderon bod gan ganran uchel o'r safle ddynodiadau bioamrywiaeth cenedlaethol a lleol. Mae wedi'i gynnwys i amddiffyn safbwynt y Cyngor pe bai penderfyniad ar fin digwydd.<br><br>Pe bai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, rydym wedi dod i'r casgliad y dylid hepgor y Polisi hwn o AEG gan na fydd y Cyngor mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y caniatâd |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Sylwadau wedi'u nodi a'u derbyn. | | | | | | |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Nodwyd y Sylwadau. | | | | | | |

| **EC3:  Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Cyd-destun -** Mae'r Polisi hwn yn ymateb i weledigaeth ac amcanion economaidd y Cynllun i sicrhau bod ystod a dewis o dir a safleoedd cyflogaeth ar gael ledled y ddinas i gynorthwyo cystadleurwydd economaidd, annog entrepreneuriaeth, hyrwyddo twf busnesau brodorol o bob math a maint, a denu mewnfuddsoddiad. | | | | | | |
| **Rhif** | **Teitl** | **Crynodeb Byr** | **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig** |
| EC3 | Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig | Yn disgrifio ac yn rhestru tir ac eiddo ar 25 o safleoedd a fydd yn cael eu gwarchod a'u hisrannu'n "Brif" Safleoedd a Safleoedd "Lleol." | 0 | 0 | + | Gellid defnyddio polisïau SP5 a SP6, lle y bo'n briodol, i annog cyflogwyr BBaCh i hyfforddi eu staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**<br>Pwrpas y polisi yw amddiffyn tir cyflogaeth presennol rhag defnyddiau eraill ac mae'n nodi'r meini prawf ar gyfer hyn - ddim yn siŵr pam y cyfeirir at SP5 a SP6 yn y cyswllt hwn? A fyddai deilliant 3 felly yn niwtral? Dim camau gweithredu wedi eu hawgrymu ar gyfer Polisi EC1 – Sylwadau'n ymwneud â Pholisïau SP5 a 6? Gweler sylwadau ar gyfer Polisïau SP5 ac SP6. | | | | | | |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br>Cytuno. Argymell bod y Polisi yn cael ei hepgor o'r asesiad | | | | | | |

**EC4: EC4 Darparu cyfleusterau ategol priodol ar safleoedd cyflogaeth**

**Crynodeb o'r Cyd-destun -** Mae'r Polisi hwn yn ceisio hwyluso darparu cyfleusterau hamdden, bwyd a diod a gofal plant ategol priodol mewn swyddfeydd presennol a newydd, ardaloedd diwydiannol a warysau, ac mae'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun. Efallai y byddai ar weithwyr mewn ardaloedd o'r fath angen mynediad rhwydd i ystod o gyfleusterau, gan gynnwys bwyd a diod, hamdden a gofal plant. Gall absenoldeb cyfleusterau o'r fath mewn ardal gyflogaeth gynyddu gofynion teithio a gwneud ardal yn llai deniadol i gyflogwyr a gweithwyr.  Mewn ardaloedd cyflogaeth sy'n bod eisoes, ystyrir newid defnydd eiddo presennol ar gyfer cyfleusterau ategol priodol, gan gynnwys bwyd a diod, hamdden a gofal plant.  Lle cynigir ardaloedd cyflogaeth newydd, dylid ystyried yr angen am gyfleusterau o'r fath fel rhan o'r cynllun datblygu cyffredinol.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EC4 | Darparu Cyfleusterau Ategol i Weithwyr mewn Datblygiadau Busnes, Diwydiannol a Warysau | Yn disgrifio lle byddai Darpariaeth ar gyfer mannau agored, tir cyhoeddus, hamdden, bwyd a diod, a chyfleusterau gofal plant yn briodol | 0 | + | + | Gellid defnyddio polisïau SP5 a SP6, lle y bo'n briodol, i annog darparu gofal plant Cymraeg a chyfleusterau addysg blynyddoedd cynnar |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Awgrymir dim Camau Gweithredu ar gyfer y Polisi – Sylwadau'n ymwneud â Pholisïau SP5 a 6?  Gweler sylwadau ar gyfer Polisïau SP5 ac SP6.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Nodwyd y Sylwadau.

**EC5B: Gofod Gwaith Newydd O Fewn Datblygiad Defnydd Cymysg**

**Crynodeb o'r Cyd-destun -** Lle ystyrir bod defnydd amgen o dir yn briodol (h.y. lle gellid llacio Polisi EC2), rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys cyflogaeth, tai a chyfleusterau cymunedol. Gall gofod gwaith a ddarperir neu a gedwir o fewn cynigion ailddatblygu gynnwys gofod gwaith bach hyblyg ar gyfer busnesau newydd a thwf cam cynnar, defnyddiau B1(a), B1(b) a B1(c), Gofod Gwneud, gofod gwaith fforddiadwy, gofod i ddiwydiannau diwylliannol, logisteg leol a chyfleusterau at ddibenion cymunedol. Mae mentrau a safleoedd o'r math hwn mewn sectorau allweddol sy'n dod i'r amlwg yn aml yn ffafrio mathau newydd o ofod gwaith. Gall darpariaeth o'r fath arwain at ddwysáu'r defnydd cyflogaeth ar safle.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EC5B | Gofod Gwaith Newydd O Fewn Datblygiad Defnydd Cymysg | Yn disgrifio sut y dylid darparu ar gyfer gofodau cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol newydd fel rhan o ailddatblygiad preswyl defnydd cymysg | 0 | 0 | + | Lle bo'n briodol, gellid defnyddio polisïau SP5 a SP6 i annog cyflogwyr BBaChau i hyfforddi eu staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ac i annog darpariaeth gofal plant Cymraeg a chyfleusterau addysg yn y blynyddoedd cynnar |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Awgrymu Dim Camau Gweithredu ar gyfer y Polisi – Sylwadau'n ymwneud â Pholisïau SP5 a 6? Gweler sylwadau ar gyfer Polisïau SP5 ac SP6.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Nodwyd y Sylwadau. Newidiwyd asesiad Deilliant 3 i adlewyrchu derbyn newidiadau i SP5 ac SP6.

| **EC7: Defnydd Amgen** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Cyd-destun -** Pan ystyrir bod defnydd amgen o dir yn briodol (h.y. ar dir nad yw wedi'i warchod o dan bolisïau eraill), rhoddir blaenoriaeth y polisïau hyn i ddatblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys cyflogaeth, tai a chyfleusterau cymunedol. Gall gofod gwaith a ddarperir neu a gedwir o fewn cynigion ailddatblygu gynnwys gofod gwaith bach hyblyg ar gyfer busnesau newydd a thwf cam cynnar, defnyddiau B1(a), B1(b) a B1(c), Gofod Gwneud, gofod gwaith fforddiadwy, gofod i ddiwydiannau diwylliannol, logisteg leol a chyfleusterau at ddibenion cymunedol. Mae mentrau a safleoedd o'r math hwn mewn sectorau allweddol sy'n dod i'r amlwg yn aml yn ffafrio mathau newydd o ofod gwaith. Gall darpariaeth o'r fath arwain at ddwysáu'r defnydd cyflogaeth ar safle. | | | | | | |
| **Rhif** | **Teitl** | **Crynodeb Byr** | **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Sylwadau/Cyfiawnhad Rhesymegol a Chamau Gweithredu Awgrymedig** |
| EC7 | Defnydd Amgen ar Dir a Safleoedd Cyflogaeth Nas Clustnodwyd | Yn disgrifio o dan ba amodau y gellid ystyried defnyddiau amgen ar gyfer tir cyflogaeth y tu allan i Bolisïau EC2 ac EC5 | 0 | 0 | + | Bydd angen i geisiadau mawr ar gyfer safleoedd annisgwyl ddeall ac egluro os a sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>Lle bo'n briodol, gellid defnyddio polisïau SP5 a SP6 i annog cyflogwyr BBaChau i hyfforddi eu staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ac i annog darpariaeth gofal plant Cymraeg a chyfleusterau addysg yn y blynyddoedd cynnar |

| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf** |
|---|
| Awgrymu Dim Camau Gweithredu ar gyfer y Polisi – Sylwadau'n ymwneud â Pholisïau SP5 a 6?   Gweler sylwadau ar gyfer Polisïau SP5 ac SP6. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf** |
| Nodwyd y Sylwadau.  Newidiwyd asesiad deilliant 3 o ?/+ i adlewyrchu derbyn newidiadau i SP5 ac SP6. |

**EC8:  Cynigion annisgwyl ar gyfer Defnydd Cyflogaeth ar dir nas clustnodwyd ar gyfer Defnydd Cyflogaeth**

**Crynodeb o'r Cyd-destun -** Mae Polisi EC7 yn darparu canllawiau ar sut fydd y Cyngor yn penderfynu ar geisiadau datblygu cyflogaeth ar safleoedd nas clustnodwyd ar gyfer cyflogaeth.  Mae'r polisi yn sicrhau bod dull dilyniannol o ddewis safle yn cael ei ddilyn, a thrwy hynny lywio'r dyraniadau cyflogaeth i'r lleoliadau mwyaf priodol sy'n gyson ag  ymagwedd 'canol y dref yn gyntaf'.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Mesurau Lliniaru/Gwella ac Ymateb Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EC8 | Cynigion Cyflogaeth ar Dir Nas Clustnodwyd at Ddefnydd Cyflogaeth | Yn disgrifio o dan ba amodau y caniateir cynigion ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B) ar safleoedd heb eu dyrannu | ? | ? | + | Yn unol â Pholisi WL1 bydd angen i geisiadau mawr ar gyfer safleoedd annisgwyl ddeall ac egluro os a sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.<br><br>Lle bo'n briodol, gellid defnyddio polisïau SP5 a SP6 i annog cyflogwyr BBaChau i hyfforddi eu staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ac i annog darpariaeth gofal plant Cymraeg a chyfleusterau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | addysg yn y blynyddoedd cynnar |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Nodwyd sylwadau effaith AEG materion o ran ystyried effaith ar y Gymraeg wedi eu cwmpasu o dan Bolisïau'r Gymraeg SP5 a 6 ac nid oes angen dyblygu. Dim camau gweithredu ar gyfer y polisi hwn. Gweler sylwadau ar gyfer SP6.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Nodwyd y Sylwadau.  Ail sgwennwyd y frawddeg gyntaf i gyfeirio at WL1. Newidiwyd asesiad Deilliant 3 o ?/+ i adlewyrchu derbyn newidiadau i SP5 a SP6.

**EC 10: Economi ddiwylliannol a'r nos**

**Crynodeb o'r Cyd-destun**

Mae'r defnyddiau sy'n cyfrannu tuag at yr economi ddiwylliannol a nos yn ychwanegu gwerth sylweddol at wead cymdeithasol ac economi Caerdydd. Ni ellir eu diffinio'n benodol bob amser yn nhermau cynllunio, ond bydd enghreifftiau o'r fath yn cynnwys; lleoliadau cerddoriaeth fyw ac adloniant, sinemâu, stiwdios artistiaid ac orielau, theatrau, tafarndai, amgueddfeydd, arenâu chwaraeon, clybiau, neuaddau bingo a chanolfannau cymunedol. Mae defnyddiau economi'r nos yn fwy addas mewn canolfannau ardal a lleol. Mae cyfleusterau y tu hwnt i'r lleoliadau hyn hefyd yn chwarae rôl gymdeithasol hanfodol. Mae mwy o bwyslais ar gymeriad presennol ardal, a'r effaith arni yn arbennig o bwysig y tu allan i ganolfannau. Ceir yr egwyddor cyfrwng newid o fewn Polisi Cynllunio Cymru. Mae hwn yn datgan fod busnes neu unigolyn sy'n gyfrifol am gyflwyno newid yn gyfrifol am reoli'r newid hwnnw.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Mesurau Lliniaru/Gwella ac Ymateb Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EC10 | Economi Ddiwylliannol a'r Nos | Yn disgrifio amodau a lleoliadau lle yr anogir cynigion am leoliadau newydd a chadw lleoliadau a gweithredwyr sy'n bod eisoes i'r economi ddiwylliannol a'r nos | + | + | + | Dylai naratif y Polisi gynnwys cyfeiriad at y rôl bwysig y mae'r economi ddiwylliannol a'r nos yn ei chwarae yn nhwf y Gymraeg yng Nghaerdydd.<br><br>Dylai polisi annog gweithredwyr i gefnogi darpariaeth Gymraeg fel rhan o'u "cynnig".<br>Bydd angen i geisiadau mawr ar gyfer safleoedd annisgwyl ddeall ac egluro os a sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Gellid defnyddio polisïau SP5 a SP6, lle bo hynny'n briodol, i annog datblygwyr a gweithredwyr i hyfforddi eu staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ac i annog darpariaeth gofal plant Cymraeg a chyfleusterau addysg blynyddoedd cynnar |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf:**

Camau gweithredu a gynigir.  Diweddarwyd y cyfiawnhad ysgrifenedig i gynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd y Gymraeg i'r economi ddiwylliannol a'r nos. Mae'r polisiau'n ymwneud â'r lleoliadau lle bydd defnyddiau o'r fath yn cael eu ffafrio a'u gwarchod - o ran y pwyntiau eraill a godwyd mae'r materion hyn wedi eu cynnwys mewn polisïau eraill a CCA yn y dyfodol. Gweler sylwadau ar gyfer SP6.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Nodwyd y Sylwadau.  Newidiwyd asesiad Deilliant 3 o ?/+ i adlewyrchu derbyn newidiadau i EC10 ac i SP5 a SP6.

**MANWERTHU**

**Crynodeb o'r Cyd-destun** - Mae'r polisïau hyn yn cefnogi Polisi Strategol SP11 drwy hyrwyddo hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog a Chanolfannau Ardal a Lleol presennol a newydd. Mae Polisi R1 yn cefnogi Canol y Ddinas, Canolfannau Ardal a Lleol fel canolfannau o weithgarwch economaidd-gymdeithasol a'r pwyntiau ffocws ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion y cymunedau a wasanaethant. Maent yn gweithredu fel y lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy ar gyfer cyfleusterau manwerthu, hamdden, cymunedol newydd a chefnogi datblygiad masnachol. Caiff polisi SP11 ei gyfiawnhau gyda'r angen i ddarparu " ystod o gyfleusterau cymunedol, iechyd, crefyddol ac addysgol sy'n hygyrch i gynifer o bobl â phosibl gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer y Gymraeg yn ofyniad hanfodol er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu."

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Mesurau Lliniaru/Gwella ac Ymateb Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| D2 | Datblygu yn yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog | Yn disgrifio sut fydd datblygiad yn yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog yn cael ei asesu | 0 | 0 | 0 | O ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg gellid gwella'r cyfiawnhad rhesymegol dros y polisi drwy gyfeirio at y defnydd o rwymedigaethau cynllunio, lle bo'n berthnasol, i gefnogi datblygiad sgiliau dwyieithog staff |
| D4 | Canolfannau Ardal | Yn disgrifio sut fydd Cyfleusterau ar gyfer ystod o ddefnyddiau yn cael eu hannog o fewn 11 canolfan ardal | 0 | 0 | 0 | Mae'r polisi yn ceisio hyrwyddo neu amddiffyn Canolfannau Ardal yn weithredol. O ran hybu'r Gymraeg gellid gwella'r polisi drwy annog defnydd o'r Gymraeg ar ffryntiau ac o fewn datblygiadau newydd a thrwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, lle bo'n berthnasol, i gefnogi datblygu sgiliau dwyieithog staff |
| D5 | Canolfannau Lleol | Yn disgrifio sut fydd Cyfleusterau ar gyfer ystod o ddefnyddiau yn cael eu hannog o fewn 20 o ganolfannau lleol | 0 | 0 | 0 | Mae'r polisi yn ceisio hyrwyddo neu amddiffyn Canolfannau Lleol yn weithredol. O ran hybu'r Gymraeg gellid gwella'r polisi drwy annog defnydd o'r Gymraeg ar ffryntiau ac o fewn datblygiadau newydd a thrwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, lle bo'n berthnasol, i gefnogi datblygu sgiliau dwyieithog staff |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| D7 | Creu Canolfannau Newydd | Yn disgrifio sut fydd cynigion datblygu mewn ardaloedd twf ac adfywio yn cael eu hasesu | 0 | 0 | 0 | "Ni ddylai darparu canolfannau'n y dyfodol o fewn ardaloedd twf ac adfywio effeithio'n negyddol ar fywiogrwydd, hyfywedd nac atyniad y canolfannau presennol ac felly bydd cynigion ar gyfer canolfannau newydd yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi R6". Gellid gwella'r polisi drwy annog defnydd o'r Gymraeg ar ffryntiau ac o fewn datblygiadau newydd a thrwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, lle bo'n berthnasol, i gefnogi datblygu sgiliau dwyieithog staff |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Mae'r AEG yn niwtral ar draws yr holl ddeilliannau ar gyfer Polisïau R2, 4, 5 a 7. Mae'r sylwadau a godir yn cyfeirio at faterion mewn polisïau eraill neu CCA posibl yn y dyfodol ac nid oes angen eu dyblygu yn y polisïau hyn.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Nodwyd y Sylwadau.

| CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A DIOGELWCH | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Cyd-destun** - Mae'r polisïau hyn yn cefnogi Polisi Strategol SP11 drwy "annog gwella cymunedau drwy fynediad cydradd gwell at wasanaethau i bawb, darparu cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg, hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac ehangach i bob grwp mewn cymdeithas, a chreu lleoedd sy'n annog rhyngweithio a chydlyniad cymdeithasol". | | | | | | |
| **Rhif** | **Teitl** | **Crynodeb Byr** | **Deilliant 1** | **Deilliant 2** | **Deilliant 3** | **Mesurau Lliniaru/Gwella ac Ymateb Awgrymedig** |
| C1 | Cyfleusterau Cymunedol | Yn disgrifio lle bydd cyfleusterau cymunedol newydd a gwell yn cael eu hannog | 0 | 0 | + | Gellid gwella'r polisi hwn drwy danlinellu rôl cyfleusterau cymunedol fel canolfannau ar gyfer annog defnydd o'r Gymraeg mewn arwyddion mewnol ac allanol a thrwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, lle bo'n berthnasol, i gefnogi datblygu sgiliau dwyieithog staff |
| C2 | Gwarchod Cyfleusterau Cymunedol | Yn disgrifio caiff cynigion sy'n arwain at golli neu newid defnydd ar adeiladau ar gyfer cyfleusterau cymunedol eu hasesu | 0 | 0 | + | Gellid gwella'r polisi hwn drwy danlinellu rôl cyfleusterau cymunedol fel canolfannau ar gyfer annog defnydd o'r Gymraeg |
| C4 | Cynllunio ar gyfer Ysgolion | Yn disgrifio sut y gallai datblygiad gefnogi cyfleusterau ysgol newydd a gwell drwy gyfraniadau tuag at gostau | + | + | + | Awgrymfod ail baragraff y Polisi yn cynnwys trydydd maen prawf newydd:<br><br>Ystyried gofyniad/strategaeth y Cyngor i ddarparu cyfleusterau addysg digonol i ddarparu ar gyfer y twf arfaethedig yng nghyfran plant a phobl ifanc y ddinas sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>Dylid cryfhau'r cyfiawnhad rhesymegol dros y polisi hefyd i ddisgrifio'r rôl y mae ysgolion newydd a gwell yn debygol o'i chwarae wrth wireddu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ac yn benodol y dyhead o symud pob disgybl ar hyd y continwwm iaith fel eu bod i gyd, neu gyfran uwch ohonynt, yn dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd amcanion y Bil Addysg Gymraeg newydd yn gofyn am gefnogaeth a buddsoddiad sylweddol ac yn benodol i wella galluoedd ysgolion presennol i wella eu darpariaeth Gymraeg.<br><br>Mae fersiwn mis Hydref o'r Cynllun Drafft bellach yn cynnwys Polisi H2 Ardaloedd Adfywio Dan Arweiniad Tai. Mae'r polisi addysg presennol ar ddarpariaeth ysgolion Cymraeg yn ymwneud â safleoedd maes glas yn unig. Awgrymir bod paragraff 3 yn cael ei ddiwygio i gynnwys ymhelaethu ymhellach ar yr egwyddorion a'r cyd-destun sy'n ffurfio cefndir y polisi (yn amodol ar ymgynghori a chytundeb y Gwasanaeth Addysg).<br><br>Y prif egwyddorion perthnasol ar gyfer ystyried datblygiadau newydd a'r Gymraeg yw:<br><br>• Mae Caerdydd yn ardal o bwysigrwydd ieithyddol i'r Gymraeg.<br>• Cymhwyso egwyddorion y 'cymdogaethau 15 munud' i sicrhau bod pob dysgwr (gan gynnwys plant gofal cyn-ysgol/meithrin) yn gallu manteisio ar ddarpariaeth Gymraeg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | • sefydlu o leiaf 50% o'r ddarpariaeth lleoedd ysgol newydd ar bellter rhesymol o'u cartrefi.<br>• Ceisio sicrhau bod safleoedd maes glas mawr yn rhai Cymraeg.<br>• O ran safleoedd adfywio tir llwyd mawr dan arweiniad tai (Polisïau H2.1, H2.2, H2.4, H2.5 a H2.6), ceisio drwy rwymedigaethau cynllunio i wella'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol yn yr ardal leol gyfagos/dalgylch perthnasol a/neu gyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg newydd. Pan fo cyfiawnhad o ran maint y datblygiad, (yn unol â'r dull gweithredu ar safleoedd maes glas), ceisio sicrhau y sefydlir o leiaf 50% o unrhyw ddarpariaeth ysgol newydd ar safleoedd tir llwyd fel lleoedd Cymraeg.<br>• Bydd holl ysgolion Caerdydd yn cynyddu faint o Gymraeg a addysgir, a ddefnyddir ac a glywir yn eu hysgolion, yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg nod y Cyngor yw ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg ar 10% uwchlaw'r niferoedd a ragamcenir. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf** | | | | | | |

| |
|---|
| Cyfeirir at faterion C1 a C2 yn y Polisi ar y Gymraeg ac nid oes angen dyblygu<br>C4 - Diwygiwyd Polisi 4 yn unol â chamau gweithredu AEG. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Nodwyd sylwadau a'u croesawu ar yr asesiad gwreiddiol. Awgrymwyd ychwanegiadau newydd yng ngoleuni cynnwys Polisi newydd H2 Ardaloedd Adfywio Dan Arweiniad Tai. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**<br><br>Diwygiadau a awgrymwyd wedi eu derbyn. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd**<br><br>Nodwyd. |

**TREFTADAETH A'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL**

**Crynodeb o'r Cyd-destun** - Mae'r Polisi hwn yn cefnogi SP13 i geisio diogelu asedau treftadaeth Caerdydd.  Mae'r holl asedau hanesyddol yn ffurfio'r amgylchedd hanesyddol sy'n ganolog i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru a'i hymdeimlad o'i hunaniaeth. Gall newid cadarnhaol, wedi'i ddylunio'n dda ddwyn gwelliannau i'n dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol, yn ogystal â manteision cymdeithasol ac economaidd trwy gynnydd o ran adfywio a thwristiaeth.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Mesurau Lliniaru/Gwella ac Ymateb Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HE1 | Yr Amgylchedd Hanesyddol | Yn disgrifio sut mae angen cynigion datblygu i asesu'r effaith ar asedau treftadaeth a gwarchod a gwella'r ased | 0 | 0 | 0 | Awgrymodd Tîm WLIA yn wreiddiol fod y Cyfiawnhad Rhesymegol dros y Polisi yn cynnwys disgwyliad bod pob Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn cynnwys asesiad o werth hanesyddol, cenedlaethol neu gymunedol yr ased i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, lle bo hynny'n berthnasol. |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Mae'r polisi yn ceisio diogelu asedau ar gyfer eu gwerth treftadaeth fel y nodwyd fel rhan o'i arwyddocâd ar gyfer ei restru.  Mae polisi ar wahân yn ymdrin ag effaith ar y Gymraeg felly does dim angen dyblygu.   Ni chynigir unrhyw newid.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Derbyn bod cyfeirio sylwadau wrth ddisgrifio, lle bo'n berthnasol, ynghylch cysylltiad yr ased â'r Gymraeg yn fwy priodol ar lefel polisi manwl. Anghytuno â'r casgliad na ddylid cyfeirio at y cysylltiad rhwng yr ased a'r Gymraeg.   O ran yr effaith ar y cynnig, bydd cynnwys dadansoddiad o'r fath yn fwy cadarnhaol i'r Gymraeg ac yn helpu i ddangos dealltwriaeth o gyd-destun a chynnig a mabwysiadu enw priodol ar gyfer y cynnig newydd.

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**

Gweler y sylwadau blaenorol.   Nodir canllawiau ar gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth mewn canllawiau ar wahân nad oes angen eu dyblygu yma. Ni chynigir newid.

**Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd**

Nodwn gynnwys Canllawiau CADW ar "Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru" ac yn benodol Adran 3 sy'n nodi y dylai "asesiad o'r effaith ar dreftadaeth ystyried digon o wybodaeth i alluogi deall arwyddocâd yr ased a deall effaith y newid .... a dylai fod yn gymesur".  Rydym o'r farn nad yw hyn yn atal awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau rhag tynnu sylw perchnogion, datblygwyr ac asiantau i werth deall gwerth hanesyddol, cenedlaethol

| |
|---|
| neu gymunedol yr ased i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg a sut mae hyn wedi cael ei ystyried yn y cynnig. Serch hynny, rydym yn derbyn o fewn cyd-destun yr AEG hwn na fyddai'r ymyriad yn arwyddocaol ac yn nodi barn y Tîm. |

**IECHYD, LLESIANT A CHYNALIADWYEDD BWYD**

Mae HF1 yn cefnogi Polisi Strategol SP12 sy'n ceisio "hyrwyddo buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a lleihau anghydraddoldebau iechyd a llesiant drwy greu amgylcheddau hygyrch ac iach". Er bod y polisi strategol yn hyrwyddo iechyd a llesiant yn gyffredinol, mae Polisi HF01 yn canolbwyntio ar sicrhau bod datblygiadau newydd yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac annog dewisiadau a ffyrdd iach o fyw

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Mesurau Lliniaru/Gwella ac Ymateb Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HF1 | Iechyd, Llesiant a Datblygiad | Yn disgrifio sut fydd datblygiadau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant yn cael eu hasesu a/neu'n cefnogi creu cymunedau iach | 0 | 0 | 0 | Er y gall caffael a dysgu iaith newydd fel y Gymraeg greu manteision lles iechyd meddwl, mae'r cysylltiad â'r amgylchedd adeiledig a naturiol – a defnydd tir a datblygiad yn benodol - yn debygol o fod yn denau. |

**Ymateb Tîm CDLlN**

Mae effaith AEG yn niwtral ar draws yr holl ddeilliannau ac ni chynigir unrhyw gamau. Mae'r polisi yn ymwneud â materion datblygu a defnydd tir. Ni chynigir unrhyw newid.

**Ymateb AEG**

Cytuno.

**Y GYMRAEG**

**Crynodeb o'r Cyd-destun** - Mae'r polisi hwn yn cefnogi SP14 i geisio sicrhau ac annog datblygiad newydd i hyrwyddo, amddiffyn a gwella'r defnydd o'r Gymraeg ynghyd â'r ddinas fel ardal o bwysigrwydd ieithyddol ac i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050.

| Rhif | Teitl | Crynodeb Byr | Deilliant 1 | Deilliant 2 | Deilliant 3 | Mesurau Lliniaru/Gwella ac Ymateb Awgrymedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| WL1 | Y Gymraeg | Yn disgrifio sut y dylai datblygiadau newydd, yn enwedig datblygiadau mawr ar safleoedd annisgwyl, hyrwyddo, gwarchod a chryfhau buddiannau'r Gymraeg a'r ddinas fel ardal o bwysigrwydd ieithyddol | + | + | + | Awgrymu bod is-baragraff v. yn ymwneud â'r hyn sy'n ofynnol gan gynigwyr datblygiadau mawr annisgwyl lle mae effeithiau sylweddol yn codi pryder.<br>Yn achos datblygiad mawr ar safleoedd annisgwyl (er enghraifft gyda datblygiadau tai mawr annisgwyl o dan bolisi H(9), mae'n ofynnol i gynigion newydd gael eu cefnogi gan Broffil Ieithyddol er mwyn helpu i adnabod tueddiadau a phatrymau presennol ac i hwyluso ystyried unrhyw effeithiau cadarnhaol a sylweddol andwyol posibl ar yr iaith – ac yn benodol i ddeall effaith y cynnig ar dwf nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol a'r twf o ran defnydd iaith, ac adnabod unrhyw fesurau lliniaru/gwella sy'n ofynnol. Pan fo'r Proffil Ieithyddol yn arwain at bryderon yn y Cyngor ynghylch effeithiau andwyol sylweddol posibl, bydd gofyn i'r datblygwr gynnal Asesiad Effaith o’r cynnig ar y Gymraeg, ynghyd â chyflwyno *Cynllun Gweithredu i Hybu a Chynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg.* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Awgrymir hefyd y dylid cynnwys paragraff yn y Cyfiawnhad Rhesymegol ynghylch annog cynigwyr ar gynigion mawr neu gymhleth, i ymgysylltu er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r Proffil Ieithyddol ar gam aeddfed yn y gwaith paratoi.<br><br>Pan fo'r datblygiad arfaethedig yn bodloni'r trothwy a'r meini prawf isaf ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol o dan Atodlen 2.b.10 ii a iii (Datblygu Trefol) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, rhaid i'r Datganiad Amgylcheddol ar yr effeithiau sylweddol tebygol a'r effaith ar senario gwaelodlin ac esblygiad tebygol y ffactorau poblogaeth gynnwys hefyd yr effeithiau tebygol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Ar gyfer datblygiadau mawr sy'n gofyn am ymgynghori cyn gwneud cais o dan Ran 1A Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu Cymru (GGRhDC / DMPWO), disgwylir i gyhoeddiad y cais a'r datganiad cynllunio drafft ddangos dealltwriaeth y datblygwr o unrhyw effaith sylweddol debygol, ac effaith ar y senario gwaelodlin a'r esblygiad tebygol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf** | | | | | | |

| |
|---|
| Mae'r effeithiau AEG yn gadarnhaol ar draws pob deilliant. Mae testun wedi'i gynnwys o fewn y cyfiawnhad ysgrifenedig.<br>A yw hyn yn cyfeirio at Ymgynghori Cyn Gwneud Cais neu gyngor? Mae'r broses Ymgynghori Cyn Gwneud Cais wedi'i nodi mewn canllawiau ynghylch i ba geisiadau y mae'n berthnasol a'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud.<br>Mae'r broses gyngor cyn gwneud cais yn Broses Rheoli Datblygu ac nid oes angen dyblygu yma. Pan wneir cais am Gyngor Cyn Gwneud Cais byddwn yn ymgynghori ar y cais a gall Caerdydd Ddwyieithogfel ymgyngoreion gynghori. Gall eglurhad pellach fod yn y CCA. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**<br><br>Nid ymateb i gyngor Cyn Gwneud Cais gan y Cyngor yw'r sylwadau ond y gofyniad o dan Ran 1a y GGRhDC i geisiadau mawr ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud cais a chyda'r cyhoedd ac ymgyngoreion statudol. Gan fod hyn yn cynnwys y gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i ddrafft o'r cais, byddai'n helpu i ddangos dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r cyd-destun ieithyddol ar gam cynnar. Yn yr un modd, awgrymir bod yr cyfiawnhad rhesymol yn ailadrodd y canllawiau yn SP15 ar gyfer cynigion mawr neu gymhleth i gynnwys dealltwriaeth o'r cyd-destun ieithyddol yn eu Datganiadau Amgylcheddol. |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**<br><br>Nodwyd sylwadau ac mae paragraff cyntaf y testun ychwanegol a awgrymir wedi'i gynnwys o fewn y cynllun. Nid yw'r ail baragraff a awgrymir wedi'i gynnwys gan fod y broses ymgynghori cyn gwneud cais yn cael ei llywodraethu gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ac y tu hwnt i gylch gorchwyl y CDLlN. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Ail Rownd**<br><br>Awgrymu diwygio brawddeg i atgoffa cynigion sy'n destun Asesiad Effaith Amgylcheddol bod Arfer Gorau LlC yn argymell bod gwybodaeth a Datganiad Amgylcheddol yn barod ar gyfer Ymgynghori Cyn Gwneud Cais.<br>"Mae Canllawiau Arfer Gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygwyr yn argymell y dylid paratoi gwybodaeth ac adroddiadau drafft sy'n rhan o Ddatganiad Amgylcheddol mewn modd amserol a'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghori arnynt fel rhan o'r broses cyn gwneud cais". |
| **Ymateb Tîm CDLlN i'r Drydedd Rownd**<br><br>Nodwyd y Sylwadau. Ni chynigir unrhyw newid. |
| **Ymateb Tîm AEG i'r Drydedd Rownd**<br><br>Nodir yr ymateb a bod Cyfiawnhad Rhesymegol Polisi SP3 yn cynnwys disgwyliad y dylai cynigion sy'n destun AEA ddangos eu dealltwriaeth o'r effaith debygol ar y Gymraeg. |

# 3 Crynodeb o arfarniad effaith Polisïau Datblygu Manwl ar y Gymraeg

| | Deilliannau Caerdydd Ddwyieithog | | |
|---|---|---|---|
| Polisi Manwl | Deilliant 1<br>Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd | Deilliant 2<br>Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg | Deilliant 3<br>Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant. |
| TAI | | | |
| H1A | +/- | + | + |
| H1B | ? | ? | + |
| H2.1 | +/- | ? | + |
| H2.2 | 0 | 0 | + |
| H2.3 | +/- | ? | + |
| H2.4 | 0 | 0 | + |
| H2.5 | ? | ? | + |
| H2.6 | +/- | ? | + |
| H2.7 | +/- | ? | + |
| H3 | ? | ? | 0 |
| H4 | 0 | 0 | 0 |
| H9 | ? | ? | + |
| ECONOMI | | | |
| EC1 | + | + | + |
| EC2 | Allan o'r cwmpas | | |
| EC3 | 0 | 0 | + |
| EC4 | 0 | + | + |
| EC6 | 0 | 0 | + |
| EC7 | 0 | 0 | + |
| EC8 | ? | ? | + |
| EC10 | + | + | + |
| MANWERTHU | | | |
| D2 | 0 | 0 | 0 |
| D4 | 0 | 0 | 0 |
| D5 | 0 | 0 | 0 |
| D7 | 0 | 0 | 0 |
| CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A DIOGELWCH | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C1** | **0** | **0** | **+** |
| **C2** | **0** | **0** | **+** |
| **C4** | **+** | **+** | **+** |
| **TREFTADAETH A'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL** | | | |
| **HE1** | **0** | **0** | **0** |
| **IECHYD, LLESIANT A CHYNALIADWYEDD BWYD** | | | |
| **HF1** | **0** | **0** | **0** |
| **Y GYMRAEG** | | | |
| **W1** | **+** | **+** | **+** |

**Tabl 3: Newidiadau i'r Tabl yn deillio o Arfarniad Polisïau Datblygu Drafft y CDLlN**

| **Polisi CDLlN** | **Newid a gynigiwyd gan y Tîm AEG** | **Ymateb Tîm CDLlN i'r newid arfaethedig** |
|---|---|---|
| H9 | Cynnwys datganiad i atgoffa datblygwyr o'r gydberthynas rhwng datblygiadau mawr annisgwyl a'r angen am AEG | Cytuno i groesgyfeirio yn WL1 at H9 fel enghraifft o le allai fod angen am AEG |
| C4 | Cynnwys ychwanegu trydydd maen prawf i ail baragraff y Polisi a bod paragraff 3 y cyfiawnhad yn cael ei ddiwygio i gynnwys ymhelaethu pellach ar yr egwyddorion a'r cyd-destun sy'n ffurfio cefndir y polisi. | Cytuno i gynnwys y testun a awgrymir yn ail baragraff y polisi trydydd paragraff y cyfiawnhad ysgrifenedig |
| WL1 | Cynnwys adrannau diwygiedig ar y Gymraeg a Datblygiadau Mawr ac Asesiadau Effaith ar y Gymraeg | Cytuno i gynnwys testun R1 a awgrymir mewn cyfiawnhad ysgrifenedig |

# Pennod 4: Asesiad o Effaith Dyraniadau ar y Gymraeg

## 1 Cyflwyniad

4.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys asesiad AEG y dyraniadau arfaethedig yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo 2021 – 36[30].

4.2 Y maen prawf allweddol ar gyfer Fframwaith Asesu Effaith y Cynllun cyffredinol yw:

> *I ba raddau y byddai polisïau a chynigion datblygu'r Cynllun yn hwyluso neu'n rhwystro gallu dinas Caerdydd i wireddu datganiad cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050* ("Caerdydd Ddwyieithog").[31]

4.3 Mae ffocws y fframwaith cyntaf ar asesu sut, ac a fydd, strategaeth gyffredinol y Cynllun ar gyfer graddfa a thwf y Ddinas, ac yn benodol tai a swyddi, yn effeithio ar daflwybr twf y defnydd o'r Gymraeg yn y Ddinas ar sail nifer y bobl 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg.

4.4 I grynhoi, y cydrannau allweddol yn y Strategaeth Twf a Lleoliad a Ffefrir sy'n berthnasol i Asesu dyraniadau yw:

- Darparu ar gyfer 26,400 (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036
- Darparu cyfleoedd i darparu o leiaf 32,300 o swyddi newydd yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036 yn y ddinas i gefnogi'r uchelgeisiau economaidd a chyflogaeth strategol yn y ddinas a'r rhanbarth
- Darparu digon o dir cyflogaeth i gefnogi twf economaidd a chreu swyddi
- Potensial i ddarparu 5,000 i 6,000 o gartrefi fforddiadwy yn dibynnu ar gyfansoddiad safleoedd
- Darparu ystod dda a dewis o dai gyda rhaniad tir llwyd / maes glas 50:50
- Darparu seilwaith, cyfleusterau cymunedol ac amcanion teithio cynaliadwy
- Parchu a gwella nodweddion amgylcheddol cyfoethog ac amrywiol y ddinas
- Adnabod cymeriad diwylliannol y ddinas a hyrwyddo twf a defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd
- Cyfrannu at ddarparu cyfleoedd adfywio corfforol a chymdeithasol sy'n darparu ar gyfer ac yn adlewyrchu ystod o gymunedau amrywiol a chydlynol ledled y ddinas.[32]

4.5 Mae'r dull asesu ar gyfer y dyraniadau yn dilyn yr ail fframwaith fel y cytunwyd gyda thîm Cleient y Ddinas a Phennod 1. Yn ei hanfod, mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar feini prawf tebyg i'r Fframwaith Asesu ACI mwy cyffredinol, ond wedi'i addasu i'r rhagolygon yn y dyfodol yn ogystal ag asesu niwed i'r sefyllfa bresennol. Mae **Ffigur**

[30] Fersiwn – Ebrill 2024
[31] "Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27" Cyngor Dinas Caerdydd (2022)
[32] Op. Cit. Para. 6.22

**8,** felly, yn mabwysiadu'r fframwaith hwn ac yn barnu effaith debygol Polisïau ar y waelodlin bresennol a'r taflwybr disgwyliedig o ran twf y Gymraeg.

**Ffigur 8: Effaith Dyraniadau ar gyrraedd targed Caerdydd Ddwyieithog**

| Symbol | Disgrifiad (Effaith debygol ar Gyflawni Targed Caerdydd Ddwyieithog) |
|---|---|
| ++ | Cadarnhaol mawr o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| + | Cadarnhaol bach o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol o'u cymharu â "Busnes fel Arfer |
| 0 | Niwtral |
| - | Negyddol bach o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| -- | Negyddol mawr o'i gymharu â "Busnes fel Arfer" |
| ? | Ansicrwydd ynghylch pa effaith fydd gan bolisi yn ymarferol |

4.6 Roedd y sylwebaeth gychwynnol ar rai Polisïau mewn asesiadau cynharach - yn benodol ar yr effaith debygol ar Ddeilliant 3 - yn cynnwys dwy sgôr i ddangos newid yn y sgôr pe bai cam a argymhellid yn cael ei dderbyn ai peidio. Mae'r sgôr terfynol yn adlewyrchu'r consensws a gyrhaeddwyd.

4.7 Cafodd yr asesiad dyraniadau ei gynnal mewn wyth cam:

i. Ymarfer cwmpasu i adnabod pa bolisïau datblygu y dylid eu cynnwys neu eu heithrio o'r asesiad. Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymarfer cwmpasu hwn ym Mhennod 1. Yn ei hanfod, ystyriodd yr ymarferiad hwn fod mwyafrif y dyraniadau'n safleoedd strategol (a nodwyd fel safleoedd strategol allweddol) sydd wedi'u "treiglo" neu eu cario drosodd o'r Cynllun Datblygu Lleol presennol. Roedd llawer o'r dyraniadau hyn, mewn theori o leiaf, wedi cael eu hasesu o ran eu Heffaith ar y Gymraeg a'u hasesiad cynaliadwyedd ehangach fel rhan o'r Cynllun cyffredinol wrth baratoi'r CDLl mabwysiedig ac fe ganfuwyd bod y Cynllun a'r asesiadau cysylltiedig yn gadarn. Mabwysiadwyd y Cynllun yn 2016 ac felly talodd sylw i Fesur y Gymraeg a strategaethau cysylltiedig. Mae adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad Annibynnol[33], wrth drafod Strategaeth Gyffredinol y Cynllun, yn nodi gofyniad PCC y dylai awdurdodau lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol. Barn yr Arolygydd, er nad oes diffiniad rhagnodedig, oedd mai ystyr "rhan o'r gwead cymdeithasol" oedd cymunedau lle siaredir y Gymraeg gan dros 70% o'r boblogaeth leol. O ran cyd-destun Caerdydd tra'n nodi bod clystyrau dwysedd uwch o siaradwyr mewn adrannau etholiadol fel Treganna, Pentyrch a Chreigiau / Sain Ffagan,

[33] Cabinet Dinas Caerdydd (Ionawr 2016) Cynllun Datblygu Lleol Dinas Caerdydd Atodiad A Adroddiad yr Arolygydd

roedd y rhain yn sylweddol is na'r trothwy o 70%. Cytunwyd felly na fyddai cynigion datblygu'r Cynllun yn cael effaith andwyol o ran cydbwysedd ieithyddol, bod yr effaith bosibl ar y Gymraeg wedi cael ei hystyried yn ddigonol. Barn yr aseswyr fodd bynnag oedd bod treiglo'r dyraniadau mawr i'r Cynllun newydd mewn theori yn cyflwyno heriau mawr wrth benderfynu a oedd anghenion a buddiannau'r Gymraeg wedi newid yn sylweddol ers 2016.

ii. Asesiad o Sefyllfa'r Safleoedd Mawr. Cafodd yr aseswyr ddiweddariad ar y cynnydd ar y Safleoedd Strategol Allweddol ym mis Mai 2024. Nododd hyn fod cynnydd sylweddol wedi bod o ran prosesu ceisiadau, neu ddechrau gwirioneddol neu gwblhau ar Safleoedd A, D, E ac F.

iii. Cwmpasiad cychwynnol o'r dyraniadau mawr i asesu a oedd AEG arall yn berthnasol ac yn ddefnyddiol ac noi safleoedd allan o'r cwmpas lle teimlwyd nad oedd angen cynnal asesiad pellach. Arweiniodd hyn i'r Asesiad Effaith ganolbwyntio ar y safleoedd hynny nas ymrwymwyd iddynt, nas dechreuwyd neu eu cwblhau erbyn hydref 2024.

iv. Asesiad cychwynnol o bob un o'r dyraniadau a oedd wedi'u cynnwys yn fersiwn mis Ebrill o'r Cynllun Drafft.

v. Dosbarthu'r Asesiad Drafft Cychwynnol ar gyfer sylwadau o fewn y Tîm Cleient a'r Tîm CDLlN ar gyfer ymgynghori mewnol.

vi. Cylchredeg a chyflwyno Asesiad Drafft Cychwynnol i Weithgor Caerdydd Ddwyieithog a gynhaliwyd ar 2 Medi 2024.

vii. Ystyried adborth ac addasu'r adroddiad drafft lle caiff sylwadau eu hystyried.

viii. Asesiad o newidiadau pellach a gynhwysir yn y CDLlN Drafft (fersiwn Medi a diwygiadau dilynol) a chynhyrchu Asesiad Drafft Rownd 2.

ix. Ystyried adborth ac addasu Asesiad Drafft Rownd 2.

x. Cynhyrchu Asesiad drafft terfynol diwygiedig i'w gylchredeg ac i dderbyn sylwadau.

3.12 Asesir y dyraniadau safle strategol ac anstrategol perthnasol isod:

| **SAFLEOEDD STRATEGOL** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle Strategol B:  Yr Hen Waith Nwy, Heol y Fferi** | | | | | | |
| **Crynodeb o'r Cyd-destun** - Cyfanswm arfaethedig o 500 o anheddau (100 fforddiadwy)   Mae'r safle bellach yn eiddo i Gyngor y Ddinas ac wedi'i gynnwys yn rhaglen partneriaeth dai'r ddinas.  Mae AMB 7 yn nodi 200 o fflatiau 1,2 a 3 ystafell wely modiwlaidd dros dro cynaliadwy ar y safle (48 cyn Ebrill 2022).  Uwchgynllun yn cael ei ddatblygu. | | | | | | |
| **Rhif** | **Teitl** | **Disgrifiad** | **Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog** | | | **Tystiolaeth/Cyfiawnhad Rhesymegol ac Ymateb Awgrymedig** |
| SH1.7 | Hen Waith Nwy Heol y Fferi<br>(3.98 ha) | Llety dros dro ar y safle<br><br>Safle o hyd at 500 o anheddau. | ? | ? | + | Dyraniad wedi ei asesu ar gyfer ei effaith ar y Gymraeg ar y cyd â dyraniadau strategol ac anstrategol eraill fel rhan o CDLl1.<br><br>Mae'r safle yn rhan o Ward Butetown. Mae Cyfrifiad 2021 yn cofnodi 1,659 o breswylwyr 3 a throsodd gydag unrhyw sgiliau Cymraeg (14.4%)<br><br>Nid yw'n glir pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar yr uchelgais Caerdydd Ddwyieithog.   Mae datblygiad tai newydd mawr (boed yn faes glas neu dir llwyd) yn rhoi cyfle i helpu i gyflymu'r cyflenwad o Ddosbarthiadau Mynediad Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed gweithredol o addysgu 27% o blant 5 oed drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Nid yw'r AEG yn awgrymu unrhyw newidiadau i'r polisi. Mae sylwadau'n ymwneud â pholisi ar Gyfraniadau Cynllunio.
Nodwyd y Sylwadau. Dim angen camau gweithredu?

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Newidiwyd sgoriau deilliant 3 i + er mwyn adlewyrchu'r potensial i ddefnyddio SP5 a/neu 6 i sicrhau buddion er lles y Gymraeg. Mae'r naratif wedi'i egluro ymhellach a'i gryfhau er mwyn adlewyrchu'r cyfle ar y cam Uwchgynllunio i ddefnyddio "ymdrech gydwybodol" i fodloni safonau Mesur y Gymraeg 89 a 90.

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**

Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau.

**Safle Strategol D: I'r gogledd o Gyffordd 33**

**Crynodeb o'r Cyd-destun** Cyfanswm arfaethedig o 2,000 o anheddau ar gyfer Safle Strategol D (603 fforddiadwy). Mae AMB7 yn cofnodi y cafwyd 317 o gyflawniadau ar Safle Strategol D erbyn mis Ebrill 2023 (54 fforddiadwy). Adeg Diwrnod y Cyfrifiad mae AMB 7 yn cofnodi bod 128 o gyflawniadau (27 fforddiadwy) erbyn mis Ebrill 2021.

Mae'r Adroddiad Addysg Blynyddol i'r Cabinet (Mehefin 2024) yn nodi, "er bod nifer fawr o blant a phobl ifanc yn newydd i'r cymunedau hyn, mae'r dadansoddiad o ddata ysgolion yn dangos bod nifer fawr o'r rhain wedi dod o gymunedau cyfagos neu gymunedau eraill yn y ddinas" (par 98). Ym mharagraff 97 mae'r adroddiad yn nodi bod cyfradd adeiladu newydd flynyddol yn cyfateb yn fras i 0.5DM o ran niferoedd.

O ran uchelgais Caerdydd Ddwyieithog, mae'n debygol y gellid clustnodi rhywfaint neu'r cyfan o'r effaith fel "dadleoli" lle mae'r ysgol ffynhonnell a'r ysgol gyrchfan o gategori ieithyddol tebyg. Fodd bynnag, mae'r capasiti newydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd yn 50:50 ac o ystyried y gyfran gyffredinol o ysgolion Cymraeg byddai ysgol newydd yn debygol o ddarparu enillion net.

| Rhif | Teitl | Disgrifiad | Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog | | | Tystiolaeth/Cyfiawnhad Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SH1.4 | Tir i'r De o Heol Llantrisant (13 ha.) | Safle o hyd at 300 o anheddau. | ? | ? | + | Mae caniatâd cynllunio amlinellol yn bodoli ar gyfer hyd at 1500 o anheddau o fewn ffiniau'r Safle Strategol. Mae SH1.3 a SH1.4 o fewn yr ardal hon o'r caniatâd cynllunio amlinellol a ganiatawyd, ac mae SH1.5 yn destun cais byw ar hyn o bryd.<br><br>**Gwaelodlin**<br>Yng Nghyfrifiad 2021 cofnododd Creigiau glwstwr dwysedd cymharol uwch o drigolion 3 + oed gydag unrhyw sgiliau Cymraeg (AGEGHI W0100027 a W0100028) 785 (30.7%). Y ganran ar gyfer y ward etholiadol berthnasol (Pentyrch a Sant Ffagan) yw 26.5% |
| SH1.5 | Tir gerllaw Heol Llantrisant, Capel Llanilltern (8.73 ha.) | Safle o hyd at 150 o anheddau. | ? | ? | + | |
| SH1.6 | Tir yn Fferm Llwynioli (3.4 ha) | Safle o hyd at 70 o anheddau. | ? | ? | 0 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn cofnodi 422 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11. Roedd 17% o'r disgyblion yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith.<br><br>Mae cymuned Creigiau yn agos iawn at Safleoedd Strategol D. ac E. Mae'r Uwchgynllun ar gyfer y safle yn golygu y bydd llawer o gyfleusterau a gwasanaethau lleol yn cael eu lleoli yn rhan o'r datblygiad, gan gynnwys ysgol gynradd newydd. Ystyrir na fydd Safle D yn cael fawr o effaith ar Creigiau a'r ysgol gynradd yno.<br><br>Aseswyd Dyraniad Safle Strategol D o ran ei effaith ar y Gymraeg ar y cyd â dyraniadau strategol ac anstrategol eraill fel rhan o'r CDLl mabwysiedig.<br><br>Nid yw'n glir pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar yr uchelgais Caerdydd Ddwyieithog. Nid yw'n glir chwaith pa effaith fydd y twf sylweddol mewn tai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Safleoedd D ac E yn ei gael ar nifer y siaradwyr Cymraeg ar gyfer Creigiau ei hun.<br><br>Fel y cyfeirir ato uchod, mae'n debygol y bydd y rhyngweithio cymdeithasol rhwng y datblygiad newydd a defnyddwyr y Gymraeg yn Creigiau yn gyfyngedig ond mae'n debygol iawn o |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | leihau cyfran gyffredinol y siaradwyr Cymraeg yn y ward - o leiaf yn y tymor byr i'r tymor canolig.<br>Mae datblygiad tai newydd mawr (boed yn faes glas neu dir llwyd) yn rhoi cyfle i helpu i gyflymu'r cyflenwad o Ddosbarthiadau Mynediad Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed gweithredol o addysgu 27% o blant 5 oed drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Nid yw'r AEG yn awgrymu unrhyw newidiadau i'r polisi. Mae'r sylwadau'n ymwneud â pholisïau eraill. Nodwyd y Sylwadau. Dim angen camau gweithredu?

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Newidiwyd sgoriau deilliant 3 ar gyfer SH1.3 a SH1.4 i + i adlewyrchu'r potensial i ddefnyddio SP5 a/neu 6 i sicrhau manteision er budd y Gymraeg.
Mae'r naratif wedi'i egluro ymhellach a'i gryfhau er mwyn adlewyrchu'r cyfle ar y cam Uwchgynllunio i ddefnyddio "ymdrech gydwybodol" i fodloni safonau Mesur y Gymraeg 89 a 90.
O ran SH1.5 mae'r cyfleoedd i ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol yn ymddangos yn gyfyngedig.

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**

Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau.

**Safle Strategol F:  Gogledd-ddwyrain Caerdydd (Llys-faen/Pontprennau)**

**Crynodeb o'r Cyd-destun** - Cyfanswm arfaethedig o 4,500 o anheddau ar gyfer Safle Strategol F y byddai 1,350 o unedau yn rai fforddiadwy.
Mae AMB 7 yn cofnodi y cyflawnwyd 341 o anheddau erbyn mis Ebrill 2023 (46 fforddiadwy).  Ar adeg y Cyfrifiad mae AMB 7 yn nodi bod 78 wedi eu cwblhau erbyn Ebrill 2021 gyda 6 ohonynt yn fforddiadwy.
Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ym mis Gorffennaf 2024 i Taylor Wimpey ar gyfer datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys defnyddiau A1-3, B1, C1, D1 a D2 ac yn cynnwys hyd at 2,500 o anheddau.     Mae adroddiad y Pwyllgor Cynllunio yn nodi bod hyn yn cynnwys tua 57% o Safle Strategol F gyda safle Churchlands sydd â chaniatâd cynllunio yn cynnwys 20% arall. Mae parseli tir pellach i'r de-orllewin a'r gogledd-ddwyrain o safle strategol F nad ydynt wedi'u datblygu hyd yn hyn.
Mae'r Adroddiad Addysg Blynyddol i'r Cabinet (Mehefin 2024) yn nodi, "er bod nifer fawr o blant a phobl ifanc yn newydd i'r cymunedau hyn, mae'r dadansoddiad o ddata ysgolion yn dangos bod nifer fawr o'r rhain wedi dod o gymunedau cyfagos neu gymunedau eraill yn y ddinas" (par 98).    Ym mharagraff 97 mae'r adroddiad yn nodi bod cyfradd adeiladu newydd flynyddol yn cyfateb yn fras i 0.5DM o ran niferoedd.
O ran uchelgais Caerdydd Ddwyieithog, mae'n debygol y gellid clustnodi rhywfaint neu'r cyfan o'r effaith fel "dadleoli" lle mae'r ysgol ffynhonnell a'r ysgol gyrchfan o gategori ieithyddol tebyg. Fodd bynnag, mae'r capasiti newydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd yn 50:50 ac o ystyried y gyfran gyffredinol o ysgolion Cymraeg byddai ysgol newydd yn debygol o ddarparu enillion net.

| Rhif | Teitl | Disgrifiad | Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog | | | Tystiolaeth/Cyfiawnhad Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SH1.1 | Tir yn Church Farm (14.2ha) | Safle o hyd at 205 o anheddau. | 0 | 0 | + | Mae'r rhain yn rhan o Safle Strategol F ac yn ffurfio 700 o'r 891 o anheddau arfaethedig sy'n weddill.<br><br>Mae'n annhebygol iawn y bydd gwaelodlin gallu siarad Cymraeg yn 2021 wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan gyflawniadau tai newydd.<br><br>Mae Papur Technegol y Gymraeg yn nodi bod y Cynllun Addysg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ysgol gynradd newydd i'r ardal hon o 2026-27? ymlaen ar y cynharaf.<br><br>Nid yw'n glir pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar yr uchelgais Caerdydd |
| SH1.2 | Tir i'r de o draffordd yr M4, i'r Gorllewin o Rudry Road, Llys-faen (4.96 ha) | Safle o hyd at 100 o anheddau. | | | | |
| SH1.3 | Tir i'r gogledd o Heol Tŷ Draw (15.3ha) | Safle o hyd at 350 o anheddau. | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Ddwyieithog. Mae datblygiad tai newydd mawr (boed yn faes glas neu dir llwyd) yn rhoi cyfle i helpu i gyflymu'r cyflenwad o Ddosbarthiadau Mynediad Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed gweithredol o addysgu 27% o blant 5 oed drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.<br><br>Nodir bod caniatâd Taylor Wimpey y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfraniadau tuag at feithrinfa newydd ac ysgol gynradd 2DM ac ysgol uwchradd 10DM Pe bai'r safleoedd uchod yn cael eu hasesu yn erbyn y CDLlN yna dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio darpariaeth addysg o'r safleoedd ychwanegol tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Nid yw'r AEG yn awgrymu unrhyw newidiadau i'r polisi. Mae sylwadau'n ymwneud â pholisi ar Gyfraniadau Cynllunio.
Nodwyd y Sylwadau. Dim angen camau gweithredu?

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Newidiwyd sgôr Deilliant 3 i + er mwyn adlewyrchu'r potensial i ddefnyddio SP5 a/neu 6 i sicrhau buddiannau er lles y Gymraeg.
Mae'r naratif wedi'i egluro ymhellach a'i gryfhau er mwyn adlewyrchu'r cyfle ar y cam Uwchgynllunio i ddefnyddio "ymdrech gydwybodol" i fodloni safonau Mesur y Gymraeg 89 a 90.

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd (Tachwedd)**

Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau.

**SAFLEOEDD ANSTRATEGOL**

**Safle Ysbyty Rookwood**

**Crynodeb o'r Cyd-destun** - Mae safle Rookwood yn eiddo i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro. Roedd y safle'n darparu gwasanaethau adfer niwrolegol ac asgwrn cefn arbenigol ac mae rhan o'r safle yn dal i fod yn gartref i'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar. Mae'r safle ar werth ar hyn o bryd ac mae wedi'i restru gan yr asiant tai fel un sy'n addas ar gyfer datblygiad cymysg newydd/addasu.
Mae'r safle yn agos at hen safle stiwdios y BBC sydd yn pontio'r ddwy ochr i Heol Llantrisant. Dechreuodd y gwaith yn 2023 ar Gam 1 Parc Llandaf i godi 377 o gartrefi sy'n darparu cymysgedd o fflatiau un a dwy ystafell wely a thai tair a phedair a phum ystafell wely gydag 20% yn dai fforddiadwy.

| Rhif | Teitl | Disgrifiad | Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog | | | Tystiolaeth/Cyfiawnhad Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| H1.2 | Ysbyty Rookwood (3.4ha) | Safle ailddatblygu a ddyrannwyd yn CDLl1 ar gyfer hyd at 90 o anheddau a'i dreiglo ymlaen i'r CDLlN. | +/- | + | + | Y dyraniad gwreiddiol wedi ei asesu ar gyfer ei effaith ar y Gymraeg ar y cyd â dyraniadau strategol ac anstrategol eraill fel rhan o CDLl1. Fodd bynnag, mae'r safle'n gorwedd ger hen safle Stiwdios y BBC a oedd yn safle annisgwyl a ragwelwyd. Gan fod y safleoedd o fewn ardaloedd adeiledig presennol sy'n destun adfywio ac hefyd yn agos at glwstwr presennol o siaradwyr Cymraeg mae angen asesu'r datblygiadau "ar y cyd" i ystyried yr effeithiau tebygol ar y clystyrau presennol o siaradwyr Cymraeg.<br><br>**Gwaelodlin**<br><br>Mae'r ardal effaith debygol yn cynnwys clwstwr pwysig (dwysedd canolig) o siaradwyr Cymraeg eisoes yn y dalgylch sy'n cynnwys Llandaf a Threganna.<br><br>**Llandaf**<br>Mae Cyfrifiad 2021 yn cofnodi bod gan 1,050 o breswylwyr 3 oed a throsodd ryw gyfuniad |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | o sgiliau Cymraeg sy'n cynrychioli tua 24.08% o'r boblogaeth berthnasol<br><br>Ysgol Glanceubal ac Ysgol Pencae yw'r ddwy ysgol gynradd Gymraeg o fewn y dalgylch gyda chyfanswm poblogaeth y disgyblion o tua 340.<br><br>**Treganna**<br>Mae'r cyfrifiad yn cofnodi bod gan 4,659 o drigolion 3 oed a hŷn ryw gyfuniad o sgiliau Cymraeg sy'n cynrychioli tua 30.19% o'r boblogaeth berthnasol.<br><br>Nodwyd Parc Llandaf fel safle annisgwyl a ragwelwyd yn adroddiad yr arolygwyr ar CDLl1 yn 2025 ac felly mae o fewn lwfans hyblygrwydd y CDLl hwnnw. Cafodd Parc Llandaf ganiatâd cynllunio ar gyfer 364 o gartrefi (a godwyd yn ddiweddarach i 377 o gartrefi) ym mis Tachwedd 2016 gyda'r datblygwr yn caffael y safle ym mis Ebrill 2021.  Felly nid oedd unrhyw ddeiliaid tai ar y safle ar Ddiwrnod y Cyfrifiad 2021 ac nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch galluoedd ieithyddol y deiliaid tai presennol.<br><br>O fewn y cyd-destun hwn, mae'n annhebygol y bydd safle Ysbyty Rookwood yn cael effaith sylweddol ar ei ben ei hun ond ar y cyd â Pharc Llandaf gall arwain at gynyddu nifer yr aelwydydd hyd at 12.5% dros y deng mlynedd nesaf. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ganran y siaradwyr Cymraeg yn Llandaf ond o bosib gallai gael effaith fach gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Pam fod sgôr negyddol yn cael ei ddangos ar gyfer y safle hwn yn hytrach na Glas anhysbys fel y safleoedd eraill gan nad oes esboniad yn cael ei roi ynghylch yr effaith.

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Mae'r asesiad yn cael ei wneud yn erbyn Deilliant 1 - "Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd". Mae hefyd yn cael ei asesu yn erbyn y niwed tebygol i'r waelodlin bresennol. Dangosir y sgôr fel "+/-" gan fod disgwyl i natur yr ardal ddenu a chynhyrchu rhai siaradwyr Cymraeg ychwanegol uwch law'r nifer a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021 ond bod y ganran gyffredinol o siaradwyr Cymraeg yn debygol o weld gostyngiad yn ystod oes y CDLlN.
Mae'r naratif wedi'i egluro ymhellach a'i gryfhau er mwyn adlewyrchu'r cyfle ar y cam Uwchgynllunio i ddefnyddio "ymdrech gydwybodol" i fodloni safonau Mesur y Gymraeg 89 a 90.

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**

Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau**.**

| **Trowbridge Mawr** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Cyd-destun** - Mae'r safle maes glas hwn ar ymyl de-ddwyreiniol Trowbridge yn nwyrain Caerdydd yn agos i gyfadeilad addysg Ysgol / Coleg Glanhafren, sydd wedi'i ailddatblygu.    Safle maes glas ar ran o hen fferm a elwir yn Trowbridge Mawr.  Wedi'i ddyrannu yn CDLl1 ar gyfer hyd at 150 o anheddau.  Safle yn eiddo i'r Cyngor ac mae o fewn y rhaglen adeiladu tai arfaethedig. | | | | | | |
| **Rhif** | **Teitl** | **Disgrifiad** | **Effaith – helpu/rhwystro'r Themâu Dwyieithog** | | | **Tystiolaeth/Cyfiawnhad Resymegol** |
| H1.1 | Ardaloedd 9 – 12, Trowbridge | Safle maes glas. Safle i hyd at 150 o anheddau (3.98 ha) | ? | ? | + | Y dyraniad gwreiddiol wedi ei asesu ar gyfer ei effaith ar y Gymraeg ar y cyd â dyraniadau strategol ac anstrategol eraill fel rhan o CDLl1.  Mae hwn yn faes glas ar gyrion Trowbridge.<br><br>**Gwaelodlin**<br><br>**Trowbridge**<br>Mae'r cyfrifiad yn cofnodi bod gan 2,123 o drigolion Trowbridge 3 oed a throsodd ryw gyfuniad o sgiliau Cymraeg sy'n cynrychioli tua 12.91% o'r boblogaeth berthnasol.   Er nad yw'n arwyddocaol o ran canran mae'r niferoedd yn sylweddol ar lefel leol o fewn cyd-destun Caerdydd<br><br>Ysgol Pen y Pîl yw'r ysgol Gymraeg agosaf lle mae 11% yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, Trowbridge, Meadowlane a St. John Lloyd yw'r tair ysgol gynradd arall sy'n gwasanaethu Trowbridge. Cyfanswm y disgyblion rhwng 5 ac 11 oed (yn y 4 ysgol) = 1030 tua.<br><br>Nid yw'n glir pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar yr uchelgais Caerdydd Ddwyieithog. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Mae datblygiadau tai newydd mawr (boed yn faes glas neu dir llwyd) yn rhoi cyfle i helpu i gyflymu'r cyflenwad o Ddosbarthiadau Mynediad Cymraeg er mwyn cyrraedd y targed gweithredol o 27% o Blant Derbyn erbyn 2032.<br><br>Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Mesur y Gymraeg i sicrhau y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith fwy cadarnhaol neu i sicrhau nad yw'r polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg dylid defnyddio cyfraniadau cynllunio tuag at y seilwaith angenrheidiol i gefnogi ehangu darpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. |

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Rownd Gyntaf**

Nid yw AEG yn awgrymu unrhyw newidiadau i'r polisi?
Nodwyd y Sylwadau. Dim angen camau gweithredu?

**Ymateb Tîm AEG i'r Rownd Gyntaf**

Newidiwyd sgôr Deilliant 3 i + er mwyn adlewyrchu'r potensial i ddefnyddio SP5 a/neu 6 i sicrhau buddiannau er lles y Gymraeg.
Mae'r naratif wedi'i egluro ymhellach a'i gryfhau er mwyn adlewyrchu'r cyfle ar y cam Uwchgynllunio i ddefnyddio "ymdrech gydwybodol" i fodloni safonau Mesur y Gymraeg 89 a 90.

**Ymateb Tîm CDLlN i'r Ail Rownd**

Nodwyd y sylwadau a derbyniwyd y gwelliannau.

# 2 Newidiadau yn deillio o arfarniad Effaith Dyraniadau ar y Gymraeg

| | Deilliannau Caerdydd Ddwyieithog | | |
|---|---|---|---|
| **Dyraniad** | **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** |
| **SAFLE STRATEGOL B: Heol y Fferi** | | | |
| **SH1.7 Hen Waith Nwy** | ? | ? | + |
| **SAFLE STRATEGOL D: I'r gogledd o C33** | | | |
| **SH1.4** | ? | ? | + |
| **SH1.5** | ? | ? | + |
| **SH1.6** | ? | ? | 0 |
| **SAFLE STRATEGOL F: GOGLEDD-DDWYRAIN CAERDYDD** | | | |
| **SH1.1** | 0 | 0 | + |
| **SH1.2** | 0 | 0 | + |
| **SH1.3** | 0 | 0 | + |
| **SAFLEOEDD ANSTRATEGOL** | | | |
| **H1.2 Ysbyty Rookwood** | +/- | + | + |
| **H1.1 Trowbridge Mawr** | ? | ? | + |

**Tabl 4: Newidiadau yn deillio o arfarniad Dyraniadau Drafft y CDLlN**

| **Polisi CDLlN** | **Newid a gynigiwyd gan y Tîm AEG** | **Ymateb Tîm CDLlN i'r newid arfaethedig** |
|---|---|---|
| SH1.7 Hen Waith Nwy | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| SH1.4 | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| SH1.5 | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| SH1.6 | Newid Deilliant 3 i 0 | Derbynnir y gwelliannau |
| SH1.1 | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| SH1.2 | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| SH1.3 | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| H1.2 Ysbyty Rookwood | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |
| H1.1 Trowbridge Mawr | Newid Deilliant 3 i + | Derbynnir y gwelliannau |

# Pennod 5: Arfarniad Cyffredinol o Effaith y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar y Gymraeg 2021 – 2036

## 1 Cyflwyniad

5.1 Mae'r adran hon yn trafod effaith gyffredinol debygol gallu'r CDLl Newydd i helpu neu rwystro cyflawni Cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog.[34]Nod y genhadaeth yw dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (o 42,752 yn 2021 i 85,504 i 2050). Mae ansicrwydd parhaus ynghylch y taflwybr tebygol sydd ei angen i gyflawni'r targed hwn, yn seiliedig ar fodel Llywodraeth Cymru (lle mae'r rhan fwyaf o'r twf yn cael ei lwytho i ddiwedd y taflwybr). Mae Caerdydd yn dal i fod yn debygol o fod yn edrych i gynyddu'n sylweddol nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2036. Er bod y pwynt twf ar gyfer y taflwybr yn 2036 yn dibynnu ar y rhagdybiaethau a wneir, yn enwedig o ran cyfraniad disgwyliedig Caerdydd at gyrraedd y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, i Gaerdydd gyrraedd ffigur o 85,504 erbyn 2050 mae'r twf gwaelodlin presennol ynddo'i hun yn heriol gyda'r twf targed o ran siaradwyr rhwng 850 a 950 y flwyddyn.[35]

5.2 Mewn terminoleg methodoleg traweffaith, mae'r taflwybr a ddewiswyd yn ffurfio esblygiad tebygol y sefyllfa ieithyddol yng Nghaerdydd heb weithredu'r CDLl newydd.

5.3 Yn ogystal â'r genhadaeth hon, mae'r asesiad hefyd yn ystyried statws arfaethedig sir gyfan Caerdydd fel ardal o bwysigrwydd ieithyddol. Mae'r statws hwn yn cefnogi un o amcanion llesiant y Ddinas fel "Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru" a sbardun i Ranbarth De-ddwyrain Cymru. Mae'n cydnabod twf parhaus yr iaith yn y Ddinas dros y tri i bedwar degawd diwethaf a bod modd nawr clywed y Gymraeg yn cael ei siarad ar y stryd, yn y cartref, yn yr ysgol neu yn y gwaith, yn enwedig mewn cymunedau lle ceir eisoes sawl clwstwr sylweddol o siaradwyr Cymraeg. Felly mae elfennau gofodol cyffredinol y Cynllun (polisïau a dyraniadau) hefyd yn cael eu sgrinio a'u hasesu am effaith debygol ar y clwstwr gwaelodlin o siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021.

5.4 Roedd Dogfen Ddrafft Strategaeth a Ffefrir y Cynllun, a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori arni ym mis Mehefin 2023, yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Dylanwadau ar y Cynllun
- Caerdydd - Cyd-destun Strategol
- Adnabod Materion
- Gweledigaeth ac Amcanion
- Opsiynau Twf a Gofodol Strategol

[34] Cyngor Dinas Caerdydd (2022) *Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27*
[35] Am drafodaeth lawnach ar y sefyllfa taflwybr erbyn 2036 gweler Atodiad 4 a Phapur Technegol y Gymraeg.

- Y Strategaeth a Ffefrir
- Polisïau Strategol.

5.5 Er bod y naratif yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith i wead diwylliannol a chymdeithasol y Ddinas, a'r angen i'r Cynllun Newydd "hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y ddinas", nid oedd y Ddogfen Strategaeth gyhoeddedig yn cynnwys polisïau a chynigion priodol o ran sut y gallai ymyriadau'r Cynllun Newydd helpu i gefnogi'r angen hwn mewn modd ymarferol. Mae Asesiad Effaith y Gymraeg (AEG) y Strategaeth a Ffefrir, er nad yw'n gallu dylanwadu'n sylweddol a dadwneud penderfyniadau ynghylch graddfa, cyflymder a lleoliad/dosbarthiad twf strategol, wedi arwain at newidiadau arfaethedig sylweddol a ystyrir yn bwysig ac yn ddefnyddiol i liniaru effaith - a chynnig cyfleoedd/buddion - i bobl (cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol) ddefnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'r Cynllun Newydd bellach yn ymgorffori "dwyieithog" yn ei weledigaeth ar gyfer y ddinas ac mae Adrannau 2 (Dylanwadau) a 3 (Cyd-destun a Materion) yn cyfeirio at gyd-destun ieithyddol y ddinas a dyheadau cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050.

5.6 Mae'r Cynllun yn gosod targedau uchelgeisiol o ran maint y twf a ragwelir erbyn 2036. Mae hyn yn seiliedig ar strategaeth dan arweiniad anheddau o hyd at 1600 o gartrefi'r flwyddyn er mwyn darparu a gwireddu angen am 24,000 o anheddau newydd a 32,300 o swyddi erbyn 2036 i ddarparu ar gyfer cynnydd yn y boblogaeth o 39,742.

5.7 Mae hyn yn cymharu â'r CDLl mabwysiedig presennol ar gyfer y cyfnod hyd at 2026 a oedd wedi ei seilio ar ddarparu 41,415 o anheddau a 40,000 o swyddi. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 (AMB 7) yn cydnabod bod y nifer o anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol wedi bod yn is na'r targed blynyddol a osodwyd gyda 21,323 o gartrefi wedi'u codi a 21,800 o swyddi wedi'u creu dros y cyfnod 2006 i 2023. Mae'r AMB yn nodi mai cyfartaledd y cyflawniadau blynyddol rhwng 2016 a 2023 oedd 1,242 o'i gymharu â chyfartaledd o 725 o gyflawniadau blynyddol dros y naw mlynedd blaenorol[36].

5.8 Mae Papur Cefndir Edge Analytics (y seilwyd Strategaeth a Ffefrir y CDLlN arfaethedig arni) yn amcangyfrif y bydd y cynnydd yn y boblogaeth 2021-2136 yn debygol o fod yn 10.7% (2,650 o bobl) y flwyddyn ac y bydd nifer yr aelwydydd yn debygol o gynyddu 14.6% sef 1,564 o aelwydydd y flwyddyn. Amcangyfrifir mudo net cyfartalog y flwyddyn ar 1,390. Mae hyn yn cymharu ag esblygiad tebygol y cynnydd cyfartalog fesul blwyddyn o 17% yn nifer y siaradwyr Cymraeg y cyfeirir ato uchod (483 y flwyddyn).

5.9 Y data cyhoeddedig ar fudo i Mewn ac Allan Gros a'r Amcangyfrifon Poblogaeth Blynyddol canol blwyddyn ar gyfer 2022 a 2023 yw 371,104 a 383,536. Mae hyn yn

[36]Mae AMB 8 wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet ond ar adeg cwblhau nid oedd wedi ei gyhoeddi ar y wefan

awgrymu newid blynyddol yn y boblogaeth o 11,280 a 12,432. Gan dybio dim newid mewn genedigaethau a marwolaethau naturiol, mae hyn yn awgrymu bod posibilrwydd realistig bod y rhagdybiaethau a wnaed fel sail ar gyfer y CDLlN ar gyfer Newid Naturiol Net yn debygol o fod yn uwch a'r rhagdybiaethau ar gyfer Mudo Net (yn enwedig Mudo Rhyngwladol Net) yn debygol o fod yn sylweddol is na'r tueddiadau gwirioneddol hyd yma (**Tabl 5**).[37]

**Tabl 5: Cydrannau Amcangyfrif Newid Poblogaeth 2021 - 2023**

| Cyfnod | Amcan Poblogaeth ar ddechrau'r Cyfnod | Newid Naturiol | Mudo Mewnol Net | Mudo Rhyngwladol Net | Arall | Amcan Poblogaeth ar ddiwedd y Cyfnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canol 2021 – Canol 2022 | 359,824 | 903 | 555 | 9,833 | -11 | 371,104 |
| Canol 2022 – Canol 2023 | 371,104 | 466 | 2,456 | 9,416 | 94 | 383,536 |

Ffynhonnell: SYG

5.10 Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Caerdydd 3 oed a hŷn yn 2036 oddeutu 390,000. Pe bai hyn yn cael ei wireddu, bydd y targed canran ar gyfer cyfran y boblogaeth (3+ oed) sy'n gallu siarad Cymraeg yn 13.3%.

5.11 Mae llawer o'r tir a ddyrannir ar gyfer tai a chyflogaeth yn cael ei gario drosodd o'r Cynllun mabwysiedig. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2023, mae dros 77% o darged y ddarpariaeth dai sef 26,400 ar gyfer y cyfnod 2021-2036 yn cynnwys tai a gwblhawyd, tai sydd wrthi'n cael eu hadeiladu neu diroedd sydd â chaniatâd cynllunio. Ar ôl caniatáu ar gyfer addasiadau i'r stoc dai bresennol a thua 20% ar gyfer methu â chyflawni ymrwymiadau presennol, mae dyraniadau yn ffurfio ychydig o dan 20% (sef 5,281) o gyfanswm y ddarpariaeth. Gwneir lwfans pellach o 6,202 (23.2%) ar gyfer datblygiadau annisgwyl.

5.12 Yn yr un modd, mae'r strategaeth gyflogaeth yn sefydlu, mewn termau meintiol, bod mwy na darpariaeth ddigonol o dir yn y CDLl mabwysiedig ond bod o fewn y swm hwn, ofyniad ychwanegol ar gyfer mathau penodol o ddefnydd tir:

> *"Mewn termau meintiol mae'r cyflenwad presennol o ofod llawr swyddfeydd ac ymchwil a datblygu (R&D) ar draws yr ystod o ardaloedd sy'n cyfrannu (y stoc bresennol o safleoedd gwag, y rhai a gadarnhawyd sydd ar y gweill a'r dyraniadau safle strategol) yn fwy na digon i fodloni'r gofynion craidd.*
>
> *Mae dadansoddi yn awgrymu y dylai'r CDLl ddarparu ar gyfer tua 300,000 metr sgwâr o ofod diwydiannol a warws. Mae hyn yn sylweddol fwy na'r cyflenwad ar gael sef yr hyn sydd ar y gweill ar hyn o bryd a'r dyraniadau safle strategol. Mae'r*

[37] SYG (Hydref 2021) Tablau MIG001 LTLA EW In a MIG001 LTLA EW Out.

*gofyniad oddeutu 140,000 metr sgwâr o ofod llawr, sy'n cyfateb i amcangyfrif o 35 hectar o ran tir.*

*"Mae'r Strategaeth yn cefnogi adfywio tir ac eiddo at ddibenion cyflogaeth gan gynnwys tir yn Fferm y Fforest, Longwood Drive, Coryton ar gyfer Parc Gwyddor Bywyd".*

5.13 Mae'r prif ffocws, fodd bynnag, ar adfywio tir cyflogaeth presennol.

*"i sicrhau lefel uwch o ailddatblygu ac ailwampio helaeth ar y stoc o fewn ardaloedd cyflogaeth sy'n bod eisoes ledled y ddinas.*

*Lle ystyrir bod defnydd amgen o dir yn briodol, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys cyflogaeth, tai a chyfleusterau cymunedol neu, lle nad yw hynny'n ymarferol, i dai.*

5.14 O ran y dyheadau ar gyfer twf y Gymraeg, mae'r byrdwn cyffredinol y cynigion datblygu ac adfywio yn y cynllun yn gadarnhaol:

*"Adnabod nodweddion cadarnhaol a neilltuol o ran lle ac ymateb i nodweddion unigryw a chyfleoedd lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg.*

*Hunaniaeth: Rhaid cynllunio datblygiadau i gynnal neu wella nodweddion cadarnhaol, unigryw lleoedd gan ymgorffori nodweddion a manteisio ar gyfleoedd a ddarperir gan leoliad gan gynnwys treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg."*

5.15 Yn olaf, mae'r Cynllun Adneuo Drafft bellach yn ymgorffori Polisi Strategol (SP15) - *Sicrhau a Gwella Cyfleoedd i Dyfu'r Gymraeg* sy'n gosod y cyd-destun i'w ystyried gan bob datblygiad mawr.

5.16 At ei gilydd, canfu'r asesiad y byddai gan Weledigaeth ddrafft y Cynllun Adneuo Newydd effeithiau cadarnhaol ar y cyfan am fod cyfeiriad y daith yn cynnwys gweledigaeth ac amcanion sy'n cynnwys diffinio'r ddinas fel ardal o bwysigrwydd ieithyddol, yn enwedig o ran rôl a chyfraniad y brifddinas i Cymraeg 2050. Fodd bynnag, er y mesurau lliniaru sydd bellach wedi'u hymgorffori yn y Cynllun drafft, erys pryderon bod graddfa, cyflymder, twf a lleoliad rhai datblygiadau mawr, er o bosibl yn helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, yn debygol o gael effeithiau andwyol o ran normaleiddio a chynyddu'r defnydd o'r iaith mewn cyd-destunau cymuned, ysgol neu weithle.

## 2 Polisïau Strategol

Aseswyd fersiwn ddrafft o'r Cynllun Adneuo, yn cynnwys y polisïau strategol drafft, gan ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwyd ym Mhennod 1. Cawsant eu hasesu gyntaf o ran a oeddent yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar genhadaeth a deilliannau Caerdydd Ddwyieithog ac os na, eu gosod allan o'r cwmpas. Arweiniodd hyn at osod pedwar o'r Polisïau Strategol Cryfach a phob un o'r Polisïau

Strategol ar y thema Gwyrddach y tu allan i'r cwmpas. Yna profwyd yr un ar ddeg Polisi Strategol a oedd yn weddill am effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg o ran y fframwaith sgorio a fabwysiadwyd ym Mhennod 1. Mae **Tabl 6** yn crynhoi'r asesiad llawn.

5.17 Ar y cyfan, roedd cymysgedd o sgoriau niwtral, cadarnhaol a chymysg. Roedd y sgorau cadarnhaol yn adlewyrchu'r gred y gellid defnyddio'r gofynion cyfraniadau seilwaith a gynhwysir yn SP5 ac SP6, o'u gweithredu'n effeithiol, i gefnogi'r Gymraeg. Mae'r effeithiau negyddol posibl a nodwyd yn SP1 ac SP2 yn adlewyrchu'r pryderon a drafodwyd uchod ynghylch graddfa, cyflymder a dosbarthiad datblygu a gallu, neu ryngweithiadau â, cymunedau ar gyrion Caerdydd fel Creigiau i amsugno newid heb rwystro defnydd pellach o'r iaith a'i normaleiddio.

**Tabl 6: Crynodeb o arfarniad AEG y Polisïau Strategol**

| Deilliannau Caerdydd Ddwyieithog | | | |
|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol** | **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** |
| **CRYFACH** | | | |
| **SP1** | +/- | +/- | + |
| **SP2** | +/- | ? | + |
| **SP3** | ? | ? | + |
| **SP5** | 0 | 0 | + |
| **SP6** | 0 | 0 | + |
| **SP7** | 0 | 0 | + |
| **SP9** | 0 | 0 | 0 |
| **TECACH** | | | |
| **SP12** | 0 | 0 | + |
| **SP13** | 0 | 0 | + |
| **SP14** | 0 | 0 | 0 |
| **SP15** | + | + | + |

## 3 Polisïau Manwl

5.18 Aseswyd fersiwn ddrafft o'r Cynllun Adneuo, yn cynnwys y polisïau manwl drafft gan ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwyd ym Mhennod 1. Cawsant eu hasesu

gyntaf o ran a oeddent yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar genhadaeth a deilliannau Caerdydd Ddwyieithog ac os na, eu gosod allan o'r cwmpas. Arweiniodd hyn at osod 57 o'r 80 polisi allan o'r cwmpas. Yna profwyd y 23 polisi manwl a oedd yn weddill am eu heffeithiau tebygol ar y Gymraeg o ran y fframwaith sgorio a fabwysiadwyd ym Mhennod 1. Mae **Tabl 7** yn crynhoi'r asesiad llawn.

5.19 Ar y cyfan, roedd cymysgedd o sgoriau niwtral a chadarnhaol. Roedd y sgoriau effaith gadarnhaol yn adlewyrchu'r gred y gellid defnyddio'r gofynion cyfraniadau seilwaith a geir yn SP5 a SP6, o'u gweithredu'n effeithiol, i gefnogi twf y Gymraeg. Mae'r effeithiau niwtral a nodwyd yn erbyn y polisïau cyflogaeth a manwerthu yn adlewyrchu'r farn nad yw gweithredu'r polisïau hyn yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar dwf defnydd o'r Gymraeg neu o ran eu heffaith ar gymunedau Cymraeg dwysedd canolig sy'n bod eisoes.

**Tabl 7: Crynodeb o arfarniad AEG y Polisïau Datblygu Manwl**

| | **Deilliannau Caerdydd Ddwyieithog** | | |
|---|---|---|---|
| **Polisi Manwl** | **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** |
| **TAI** | | | |
| **H1A** | +/- | + | + |
| **H1B** | ? | ? | + |
| **H2.1** | **+/-** | **?** | **+** |
| **H2.2** | **0** | **0** | **+** |
| **H2.3** | +/- | ? | + |
| **H2.4** | **0** | **0** | **+** |
| **H2.5** | **?** | **?** | **+** |
| **H2.6** | **+/-** | **?** | **+** |
| **H2.7** | **+/-** | **?** | **+** |
| **H3** | **?** | **?** | **0** |
| **H4** | **0** | **0** | **0** |
| **H9** | **?** | **?** | **+** |
| **ECONOMI** | | | |
| **EC1** | **+** | **+** | **+** |
| **EC2** | **Allan o'r cwmpas** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| EC3 | 0 | 0 | + |
| EC4 | 0 | + | + |
| EC6 | 0 | 0 | + |
| EC7 | 0 | 0 | + |
| EC8 | ? | ? | + |
| EC10 | + | + | + |
| MANWERTHU | | | |
| D2 | 0 | 0 | 0 |
| D4 | 0 | 0 | 0 |
| D5 | 0 | 0 | 0 |
| D7 | 0 | 0 | 0 |
| CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A DIOGELWCH | | | |
| C1 | 0 | 0 | + |
| C2 | 0 | 0 | + |
| C4 | + | + | + |
| TREFTADAETH A'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL | | | |
| HE1 | 0 | 0 | 0 |
| IECHYD, LLESIANT A CHYNALIADWYEDD BWYD | | | |
| HF1 | 0 | 0 | 0 |
| Y GYMRAEG | | | |
| W1 | + | + | + |

# 4 Dyraniadau

5.20 Aseswyd fersiwn ddrafft o'r Cynllun Adneuo, yn cynnwys y dyraniadau drafft.  Mae tir a nodwyd fel dyraniadau wedi'u cyfyngu i safleoedd strategol yn cynnwys 500+ o anheddau neu safleoedd anstrategol yn cynnwys 100+ o anheddau.

5.21 Gan ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwyd ym Mhennod 1, cawsant eu hasesu i ddechrau o ran a oeddent yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar genhadaeth a deilliannau Caerdydd Ddwyieithog, ac os na, eu gosod allan o'r cwmpas.

5.22 Yn ei hanfod, ystyriodd yr ymarferiad hwn fod mwyafrif y dyraniadau'n safleoedd strategol (a nodwyd fel safleoedd strategol allweddol) sydd wedi'u "treiglo" neu eu cario drosodd o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol.  Roedd llawer o'r dyraniadau hyn, mewn theori o leiaf, wedi cael eu hasesu o ran eu Heffaith ar y Gymraeg a'u hasesiad cynaliadwyedd ehangach fel rhan o'r Cynllun cyffredinol ac fe ganfuwyd eu bod yn gadarn.

5.23 Er bod cyd-destun y Gymraeg wedi newid yn sylweddol ers archwilio a mabwysiadu'r cynllun yn 2015 a 2016, roeddem o'r farn bod llawer o'r safleoedd

strategol hyn eisoes wedi'u symud yn ddigonol ar hyd y "daith weithredu a darparu" (o ran yr egwyddor o ddefnyddio'r safleoedd ar gyfer tai, roedd uwchgynlluniau wedi'u trafod a'u cytuno neu roedd ceisiadau wedi'u cyflwyno a'u bod wedi cyrraedd cam datblygedig o ran asesu) i'r rhain beidio â chael eu hasesu ymhellach ar gyfer eu heffaith ar y Gymraeg.

5.24 Mae'r asesiad felly wedi'i gyfyngu i saith dyraniad penodol (un o fewn Safle Strategol B; tri o fewn Safle Strategol D a thri o fewn Safle Strategol F). Yn ogystal, roedd dwy safle an-strategol (Ysbyty Rookwood a Trowbridge Mawr) i'w hasesu. Mae Tabl 8 yn crynhoi'r asesiad llawn.

**Tabl 8: Crynodeb o arfarniad effaith Dyraniadau ar y Gymraeg**

| | **Deilliannau Caerdydd Ddwyieithog** | | |
|---|---|---|---|
| **Dyraniad** | **Deilliant 1**<br>**Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LlC) a nodwyd** | **Deilliant 2**<br>**Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | **Deilliant 3**<br>**Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** |
| **SAFLE STRATEGOL B Heol y Fferi** | | | |
| **SH1.7 Hen Waith Nwy** | ? | ? | + |
| **SAFLE STRATEGOL D I'r Gogledd o Gyffordd 33** | | | |
| **SH1.4** | ? | ? | + |
| **SH1.5** | ? | ? | + |
| **SH1.6** | ? | ? | 0 |
| **SAFLE STRATEGOL F GOGLEDD-ORLLEWIN CAERDYDD** | | | |
| **SH1.1** | 0 | 0 | + |
| **SH1.2** | 0 | 0 | + |
| **SH1.3** | 0 | 0 | + |
| **SAFLEOEDD ANSTRATEGOL** | | | |
| **H1.2 Ysbyty Rookwood** | +/- | + | + |
| **H1.1 Trowbridge Mawr** | ? | ? | + |

5.25 Yn gyffredinol, mae cymysgedd o effeithiau ansicr ac effeithiau cadarnhaol. Mae'r sgorau ansicrwydd o ran Deilliannau A a B yn adlewyrchu'r diffyg tystiolaeth gadarn i nodi pwy sy'n debygol o ddod yn breswylydd neu aelwyd newydd i'r anheddau hyn, a'u galluoedd a'u defnydd ieithyddol presennol ac yn y dyfodol, unwaith y bydd y tai wedi'u cwblhau. Mae'r sgorau effaith gadarnhaol o ran Deilliant 3 yn adlewyrchu'r gred y gellid defnyddio'r gofynion cyfraniadau seilwaith a gynhwysir yn SP5 a SP6, o'u gweithredu'n effeithiol, i gefnogi twf y Gymraeg yn y safleoedd hyn, yn enwedig lle defnyddir dyfeisiau ymyrraeth uwchgynllunio a chyfraniad seilwaith i siapio cynllunio lleoedd o'r fath. Mae'r sgôr cymysg ar gyfer Deilliant 1 safle Rookwood yn adlewyrchu pryder am ei effaith ar y cyd â datblygiad cyfagos Parc Llandaf ar glystyrau dwysedd canolig cyfagos Treganna a Llandaf o siaradwyr Cymraeg.

## 5 A fydd y CDLlN yn hwyluso/rhwystro cyflawni'r genhadaeth Caerdydd Ddwyieithog erbyn 2036?

5.26 Mae Cynllun Cyflawni diwygiedig Cyngor Caerdydd yn rhagweld y bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu yng Ngwanwyn 2026. Hyd at y dyddiad hwnnw, Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig 2006 - 2026 Caerdydd fydd yn parhau fel y "cynllun datblygu" at ddibenion gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio . Felly, er bod y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cwmpasu'r cyfnod 2021 – 2036, bydd penderfyniadau ar gyfran fawr o'r cynigion (yn enwedig ar safleoedd strategol) yn cael eu hasesu'n bennaf ynghlwm â Chynllun 2006 – 2026 yn hytrach na pholisïau a chynigion y Cynllun newydd (er y bydd statws a phwysoliad y CDLlN yn cynyddu wrth i'r broses fabwysiadu fynd rhagddi).

5.27 Mae'r Strategaeth Twf a Ffefrir yn senario targed polisi dan arweiniad anheddau o 1600 y flwyddyn sy'n cynrychioli targed cyffredinol ychwanegol o 24,000 yn ychwanegol o anheddau ac o leiaf 32,300 o swyddi dros oes y Cynllun Newydd (2021 – 36). O ran tai, ymrwymwyd eisoes i fanc tir sylweddol o gartrefi newydd (dros 20,000 net ym mis Ebrill 2023).

5.28 Yn ogystal â thai, mae'r CDLlN hefyd yn gosod targedau uchelgeisiol o ran creu swyddi. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar hyn o bryd am y taflwybr datblygu tebygol ar safleoedd cyflogaeth newydd. Fodd bynnag, fel y cyfeirir ato uchod, mae'r prif ffocws ar adfywio tir cyflogaeth presennol. Yn gyffredinol, mae'r effaith ar y Gymraeg yn deillio o gyflogaeth a gynhyrchir drwy ddisodli un gweithgaredd gan un arall, yn gyffredinol, yn annhebygol o fod yn sylweddol.

5.29 O ran tai, mae rhagdybiaeth yn y CDLlN drafft y bydd y tai newydd yn cael eu cyflawni ar gyfradd gyson o 1600 annedd y flwyddyn a gwnaed rhagdybiaethau ynghylch y defnydd o'r banc tir sy'n bod eisoes. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf o AMB y CDLl mabwysiedig a chyfrifiadau Tîm CDLlN Caerdydd yn amcangyfrif y taflwybr cwblhau anheddau tebygol fel a ganlyn (**Tabl 9**).

5.30 Mae **Tabl 9** yn rhagweld, yn y tymor byr (hyd at fis Mawrth 2026) y bydd y rhan fwyaf o'r cyflawniadau tai yn deillio o'r banc tir presennol, naill ai o anheddau a gyflawnwyd eisoes (hyd at fis Mawrth 2024), o anheddau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (2024-25), neu o daflwybr disgwyliedig yn deillio o drafodaethau diweddar gyda rhanddeiliaid codi tai.

**Tabl 9: Taflwybr Amcanol Cyflawniadau Tai fesul Blwyddyn a Chyfnodau Amser**

| Blwydd yn | Cyflawniadau | Wrthi'n Adeiladu | Taflwybr disgwyliedig ymrwymiadau safleoedd strategol sy'n bod eisoes | Dyraniadau newydd | Cronnol 5 mlynedd | Cronnol | Targed Cyflawniadau Cronnol (CDLlN) | Gwahaniaeth rhwng taflwybr CDLlN a'r Taflwybr Amcanol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 915 | | | | | | | |
| 2022/23 | 1,681 | | | | | | | |
| 2023/24 | 1,401 | | | | | | | |
| 2024/25 | | 2,600 | | | | | | |
| 2025/26 | | | 809 | 20 | 7,426 | 7,426 | 8,000 | -574 |
| 2026/27 | | | 1,412 | 260 | | | | |
| 2027/28 | | | 1,418 | 540 | | | | |
| 2028/29 | | | 914 | 1,280 | | | | |
| 2029/30 | | | 1,039 | 960 | | | | |
| 2030/31 | | | 1,238 | 815 | 9,876 | 17.302 | 16,000 | +1,302 |
| 2031/32 | | | 1,231 | 710 | | | | |
| 2032/33 | | | 1,256 | 456 | | | | |
| 2033/34 | | | 953 | 350 | | | | |
| 2034/35 | | | 925 | 275 | | | | |
| 2035/36 | | | 900 | 0 | 7,056 | 24.358 | 24,000 | +358 |

# 6 Effeithiau Byrdymor (2021 – 26)

5.31 Mae’r data monitro diweddaraf[38] yn cofnodi bod 3,992 o gartrefi wedi'u hadeiladu dros y cyfnod o 3 blynedd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2024.  Ar sail yr amcanion y Tîm CDLlN mae **Tabl 9** yn dangos cyfanswm cyflawniadau disgwyliedig o 7,426 o gartrefi dros y pum mlynedd sy'n cyfateb i bum mlynedd gyntaf y cynllun newydd.

5.32 Gan fod disgwyl i'r mwyafrif helaeth o gartrefi newydd (dros 95%) gael eu darparu ar Safleoedd Strategol sydd eisoes wedi'u dyrannu yn y CDLl mabwysiedig (2006 – 2026), nid yw'r effaith a ragwelir ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wedi ei asesu fel rhan o'r AEG hwn gan y bernir bod y cyfleoedd wedi cael eu hystyried fel rhan o AEG y Cynllun mabwysiedig.  Ystyriwyd gan yr Arolygwyr bod gan y Cynllun mabwysiedig sail gadarn ar gyfer cynllunio'r Ddinas hyd at 2026, gan gynnwys datganiad y Cyngor bod anghenion a buddiannau'r Gymraeg wedi cael eu hystyried wrth baratoi’r cynllun. Nid yw'n cynnwys polisi strategol na pholisi rheoli datblygu manwl ar y Gymraeg.

5.33 Er na chyfeirir ato'n uniongyrchol yn y CDLl mabwysiedig, mae’r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Rwymedigaethau Cynllunio[39] yn cynnwys adran sy’n disgrifio sut bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at ddarparu lleoedd ysgol newydd mewn amgylchiadau lle na all ysgolion presennol fodloni’r angen a gynhyrchir gan ddatblygiad newydd.   Mae'r egwyddor wedi'i chymhwyso i sicrhau darpariaeth ysgolion newydd ym Mhlas Dŵr (Safle Strategol C), gan gynnwys darparu ysgol 2DM (ffrwd Gymraeg a ffrwd iaith ddeuol - Saesneg gyda dogn helaeth o Gymraeg). Agorwyd Ysgol Gynradd Groes-wen ym mis Medi 2023.

5.34 Mae'n annhebygol y cyflawnir darpariaeth bellach o fewn tymor pum mlynedd cyntaf y CDLlN.

**Casgliad**

5.35 Yn y byrdymor (hyd at fis Mawrth 2026), ni fydd y CDLlN mewn sefyllfa i wneud cyfraniad at amodau sy'n helpu'n sylweddol i gyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog gan y bydd y datblygu sy’n mynd rhagddo yn ystod y cyfnod hwn bron yn sicr yn cael ei lywio gan ddatblygiadau a gytunwyd o dan Bolisïau a Dyraniadau Safle y CDLl mabwysiedig presennol.

# 7 Effeithiau tymor canolig (2026 – 31)

5.36 Yn ystod y cyfnod 2026 – 31 bydd y dyraniadau yn y CDLlN yn dechrau dod o dan Bolisïau'r CDLlN.  Mae amcangyfrif amrwd yn awgrymu erbyn Ebrill 2026, mai

[38] Cyngor Caerdydd (Hydref 2024) 8ed Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Mabwysiedig Caerdydd 2023.
[39] Cyngor Caerdydd (2017) CCA Rhwymedigaeth Cynllunio Caerdydd, Adran 7 Ysgolion ac Addysg.

cyfanswm cronnol yr anheddau fydd wedi eu cwblhau yn ystod pum mlynedd gyntaf cyfnod y Cynllun fydd tua 7,426, gan adael amcangyfrif o'r banc tir a etifeddir ar oddeutu 10,750 o anheddau. Mae taflwybr Tîm CDLlN Caerdydd yn amcangyfrif y bydd 9,876 o anheddau yn cael eu darparu yn ystod y cyfnod 2026 – 31. Mae dadansoddiad o daflwybr y CDLlN yn awgrymu y bydd y mwyafrif o anheddau (61%) yn deillio o'r banc tir hwn, gyda'r gweddill (3,875 - 39%) yn deillio o'r dyraniadau CDLlN (Safleoedd Strategol, Safleoedd Anstrategol a Safleoedd Adfywio Mawr).

**Casgliad**

5.37 Yn y tymor canolig, bydd y CDLlN yn cyfrannu'n gynyddol at greu amodau ffafriol sy'n helpu'n sylweddol i gyflawni'r genhadaeth Caerdydd Ddwyieithog. Bydd y datblygiadau a fydd yn mynd rhagddynt yn y cyfnod hwn yn debygol o gael eu llywio i raddau helaeth gan ddatblygiadau a dderbyniodd ganiatâd o dan Bolisïau a Dyraniadau y CDLl mabwysiedig presennol ond a gaiff eu heffeithio'n sylweddol gan y polisïau a'r cynigion yn y Cynllun drafft.

## 5 Yr effeithiau hirdymor (2031 – 36)

5.38 Yn y cyfnod 2031 – 36, bydd y dyraniadau yn y CDLl newydd i raddau helaeth yn destun polisïau'r CDLlN. Mae amcangyfrif bras yn awgrymu erbyn Ebrill 2031, mai cyfanswm cronnol yr anheddau a gwblheir yn ystod deng mlynedd gyntaf cyfnod y Cynllun fydd tua 17,302 gan adael amcan o'r banc tir a etifeddir ar oddeutu 5,000. Mae taflwybr Tîm CDLlN Caerdydd yn awgrymu y bydd posibilrwydd cryf y bydd cyfran sylweddol (28%) o anheddau yn ystod y cyfnod 2031-36 yn deillio o ddyraniadau'r CDLlN. Pan fo safleoedd o'r fath yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, bydd gofyn iddynt hefyd nodi eu hasesiad o effaith y datblygiad arfaethedig ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymunedol, addysgol a gwaith. Lle mae'r dadansoddiad o effaith yn dangos effaith negyddol sylweddol bosibl, disgwylir cynlluniau i liniaru a/neu wella gymaint ag y bo modd yn unol â pholisïau SP15 a WL1.

**Casgliad**

5.39 Yn yr hirdymor, mae posibilrwydd realistig gan y CDLlN o wneud cyfraniad o bwys at greu amodau ffafriol sy'n helpu'n sylweddol i gyflawni cenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog gan ei bod yn debygol y bydd y datblygu a fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei lywio i raddau helaeth gan ddatblygiadau a gaiff eu caniatáu o dan Bolisïau a Dyraniadau Safle y CDLl newydd.

# 9 Casgliad Cyffredinol

5.40 Mae effaith gyffredinol y Cynllun drafft wedi'i fframio yn nhermau gallu'r Cynllun i hwyluso/rhwystro cyflawni’r weledigaeth a chenhadaeth Caerdydd Ddwyieithog.

5.41 Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn mabwysiadu'r tair thema strategol sy’n sail i Cymraeg 2050 ac yn blaenoriaethu tri deilliant ar gyfer y cyfnod 2022 – 27 gyda pholisïau a chamau gweithredu wedi'u hanelu at ymyriadau allweddol i gyflawni cynnydd yn y meysydd hyn.  Amlygir yr elfennau mwyaf perthnasol i ymyriadau'r Cynllun arfaethedig:

**Thema 1:** Cynyddu **nifer a chanran** y siaradwyr Cymraeg (yng Nghaerdydd)

Deilliant 1: Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i gynyddu ac yn cyrraedd y targedau a nodwyd i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Thema 2:** Cynyddu'r **defnydd** o'r Gymraeg (i greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog)

Deilliant 2: Cynnydd sylweddol a **normaleiddio'r** defnydd o'r Gymraeg

**Thema 3:** Creu amodau addas - creu a chynnal amodau ac amgylchedd addas lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Deilliant 3: Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, **datblygu economaidd**, llwyfannau digidol a **diwylliant**.

5.42 Mae **Tabl 10** yn crynhoi ein hasesiad.

**Tabl 10:  Crynodeb o'r Arfarniad**

| Cwestiwn AEG Allweddol | Deilliant | Effaith Gyffredinol Polisïau'r Cynllun | Effaith Gyffredinol y Dyraniadau Safle |
|---|---|---|---|
| **A fydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn hwyluso/rhwystro cyflawni'r genhadaeth Caerdydd Ddwyieithog sef dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050?** | **Deilliant 1 Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn cwrdd â'r targedau (LIC) a nodwyd** | 0 | ? |
| | **Deilliant 2 Cynnydd sylweddol o ran defnydd a normaleiddio'r Gymraeg** | ? | ? |
| | **Deilliant 3 Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.** | + | + |

5.43 O ran Deilliant 1, rydym wedi asesu effaith gyffredinol Polisïau'r Cynllun yn niwtral. Tra bydd rhai polisïau (megis y defnydd posibl o uwchgynllunio a rhwymedigaethau cynllunio) yn helpu i gynyddu niferoedd (yn enwedig drwy hwyluso cynnydd mewn addysg Gymraeg), bydd polisïau eraill sydd wedi'u cynllunio i gefnogi graddfa a lleoliad twf y boblogaeth a'r economi yn uwch na'r twf taflwybr a ragwelir mewn siaradwyr Cymraeg ac felly maent yn debygol o arwain at dwf is (neu hyd yn oed ostyngiad) mewn siaradwyr Cymraeg yn nhermau canran. Mae'r prif ddyraniadau i ddechrau yn canolbwyntio ar y Safleoedd Strategol sydd yn rai maes glas yn bennaf ac felly mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch pwy fydd yn byw yn y cartrefi newydd. O ganlyniad, ein hasesiad yw bod yr effaith gyffredinol yn ansicr.

5.44 O ran Deilliant 2, mae defnyddio a normaleiddio'r iaith a'i gallu i ffynnu neu wywo, i raddau helaeth, yn gynnyrch ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn hytrach na ffactorau corfforol neu ffisegol er y gall agosrwydd at grynodiad o siaradwyr eraill

hwyluso defnydd a normaleiddio o'r fath. Rydym yn asesu'r effaith debygol fel un ansicr.

5.45 O ran Deilliant 3, mae'r defnydd effeithiol o "flwch offer seilwaith" a ddarperir gan y Cynllun yn debygol o hwyluso cynllunio ieithyddol. Yn gyntaf, gall ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr mawr ddatblygu eu dealltwriaeth o waelodlin y dirwedd ieithyddol a chymdeithasol helpu i hwyluso ymyriadau cadarnhaol. Yn ail, gall y gofyniad i ddatblygu cynllun gweithredu ieithyddol sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog. Yn drydydd, gall defnyddio cyfraniadau rhwymedigaethau cynllunio helpu'r Cyngor a rhanddeiliaid eraill i wireddu'r weledigaeth Caerdydd Ddwyieithog er mwyn cynllunio a chyflawni eu buddsoddiadau a'u hymyriadau eraill. Rydym yn asesu'r effaith debygol fel un gadarnhaol.

5.46 Mae **Tabl 11** yn crynhoi ein hasesiad yn nhermau Matrics Risg/Cyfleoedd. Down i'r casgliad, gan dybio mabwysiadu'r mesurau lliniaru a gwella arfaethedig, fod yna bosibilrwydd realistig y gall yr effaith gyffredinol ar esblygiad taflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2036 fod yn +2 (buddiol bychan). Hynny yw, mae posibilrwydd realistig y bydd nifer y bobl 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r ffigwr taflwybr o 50,000 erbyn 2036. Mae llai o sicrwydd y bydd yr effaith gyffredinol ar daflwybr canran y siaradwyr Cymraeg yn debygol o fod yn gadarnhaol oherwydd yn bennaf y rhagdybiaethau a wneir ar gyfer y strategaeth twf a ffefrir dan arweiniad tai y CDLlN sy'n cael ei gyrru gan dybiaethau ynghylch mudo net.

## Tabl 11: Sgorio Cyffredinol yr Effaith Debygol

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | MAINT YR EFFAITH / DEILLIANNAU DROS GYFNOD Y CYNLLUN | | | |
| | | | | | Major Positive | Minor Positive | Minor Negative | Major Negative |
| GWIREDDU CENHADAETH CAERDYDD DDWYIEITHOG<br>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD CAERDYDD | | | Targed Cynyddu Nifer y siaradwyr Cymraeg o leiaf 17% erbyn 2036 fel rhan o'r targed cyffredinol o 86,000 erbyn 2050 | | Cynnydd o 2.5 pwynt canranol neu fwy yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr | Cynnydd o lai na 2.5 pwynt canranol yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr | Lleihad o lai na 2.5 pwynt canranol yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr | Lleihad o 2.5 pwynt canrannol neu fwy yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed dros gyfnod y taflwybr |
| | | | | | Uchel | Isel | Isel | Uchel |
| | **Tebygolrwydd** | **Amlder** | | **Sgôr** | **2** | **1** | **-1** | **-2** |
| TEBYGOLIAETH | Mae Tystiolaeth/Barn/Profiad yn dangos fod twf yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth/Barn/Profiad - Mae'n debygol o ddigwydd o leiaf 8 gwaith allan o 10 mewn Cynlluniau Datblygu Lleol | Tebygol Iawn | 4 | 8 | 4 | -4 | -8 |
| | Mae Tystiolaeth/Barn/Profiad yn dangos fod twf/lleiad yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn debygol y bydd yn digwydd yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth/Barn/Profiad - mae'n debygol o ddigwydd 5-7 gwaith allan o 10 mewn Cynlluniau Datblygu Lleol Presennol | Tebygol | 3 | 6 | 3 | -3 | -6 |
| | Evidence/Judgement/Experience shows that growth/decline in the population on this scale will make it possible in the majority of cases | Tystiolaeth/Barn/Profiad - mae'n debygol o ddigwydd 2- 4 gwaith mewn Cynlluniau Datblygu Lleol Presennol | Posibilrwydd | 2 | 4 | 2 | -2 | -4 |
| | Mae Tystiolaeth/Barn/Profiad yn dangos fod twf/lleihad yn y boblogaeth ar y raddfa hon yn ei gwneud yn annhebygol iawn yn y mwyafrif o achosion | Tystiolaeth/Barn/Profiad - mae'n debygol o ddigwydd lai na 2 waith allan o bob 10 mewn Cynlluniau Datblygu Lleol Presennol times out of 10 in Existing Local Development Plans | Annhebygol Iawn | 1 | 2 | 1 | -1 | -2 |

# Atodiad 1: Cynlluniau Datblygu Lleol ac ystyriaeth o'r effaith ar y defnydd o'r Gymraeg


| Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru a'u Hystyriaeth o'r Iaith Gymraeg (fel ar Mawrth 2024) | | | | | Local Development Plans in Wales and their consideration of the Welsh language (as at March 2024) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod | Authority | Cynllun Datblygu Devlopment Plan | Cyfnod Period | Blwyddyn Mabwysiadu Year of Adoption | Polisi Penodol ar yr Iaith Gymraeg Specific Policy on the Welsh language | Canllaw Gofodol Spatial Guidance | Map Cyfyngiadau gydag Ardaloedd Sensitifrwydd/Pwysigrwydd Ieithyddol Constraints Map with Areas of Linguistic Sensitivity/Inportance | Gofynion ar Safleodd Annisgwyl Requirements on Windfall Sites<br>Angen DIG/CG Require WLS/Action Plan | Gofynion ar Safleodd Annisgwyl Requirements on Windfall Sites<br>Angen AEIG Require WLIA | Canllaw Cynllunio Atodol Supplementary Planniing Guidance |
| Abertawe | Swansea | CDLl/LDP | 2010 - 2025 | 2019 | Oes Yes | Oes Yes (19%+) | Oes Yes | Na No | Efallai Perhaps (10+) | Na No |
| Arfordir Penfro | Pembrokeshire Coast | CDLl2/LDP2 | 2016 - 2031 | 2020 | Oes Yes | Oes Yes (19.2%+) | Oes Yes | Na No | Oes Yes | Na No |
| Bannau Brycheiniog | Bannau Brycheiniog | CDLl/LDP | 2007 - 2022 | 2013 | Na No | Oes Yes (30%+) | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Blaenau Gwent | Blaenau Gwent | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2012 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Bro Morgannwg | Vale of Glamorgan | CDLl/LDP | 2011 - 2026 | 2017 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Caerdydd | Cardiff | CDLl/LDP | 2006 - 2026 | 2016 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Caerffili | Caerphilly | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2010 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Casnewydd | Newport | CDLl/LDP | 2011 - 2026 | 2014 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Castell Nedd Port Talbot | Neath Port Talbot | CDLl/LDP | 2011 - 2026 | 2016 | Oes Yes | Oes Yes (25%+) | Na No | Na No | Oes Yes | Oes Yes |
| Ceredigion | Ceredigion | CDLl/LDP | 2007 - 2022 | 2014 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Oes Yes |
| Conwy | Conwy | CDLl/LDP | 2007 - 2022 | 2013 | Oes Yes | Na No | Na No | Oes (5+) | Oes (20+) | Oes Yes |
| Eryri | Eryri | CDLl/LDP | 2016-2031 | 2019 | Oes Yes | Oes Yes(100%) | Na No | Oes (5+) | Oes ("sylweddol uwch na 5") Yes ("substantially higher than 5") | Oes Yes |
| Gwynedd | Gwynedd | CDLl/LDP (ar y cyd ag/joint with Ynys Môn) | 2011-2026 | 2017 | Oes Yes | Oes Yes(100%) | Na No | Oes (5+) | Oes Yes (5+) | Oes Yes |
| Merthyr | Merthyr | CDLl2/LDP2 | 2016 - 2031 | 2020 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Penybont ar Ogwr | Bridgend | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2013 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Powys | Powys | CDLl/LDP | 2011 - 2026 | 2018 | Oes Yes | Oes Yes (25%+) | Na No | Na No | Oes Yes (10+) | Na No |
| Rhondda Cynon Tâf | Rhondda Cynon Tâf | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2011 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Sir Benfro | Pembrokeshire Coast | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2013 | Oes Yes | Oes Yes | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Sir Ddinbych | Denbughshire | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2013 | Na No | Na No | Na No | Oes (5+) | Oes Yes(20+) | Oes Yes |
| Sir Fflint | Fflintshire | CDLl/LDP | 2015- 2030 | 2023 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Sir Fynwy | Monmouthshire | CDLl/LDP | 2011 - 2021 | 2014 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Sir Gâr | Carmarthenshire | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2014 | Oes Yes | Oes Yes (60%+) | Oes Yes | Na No | Na No | Oes Yes |
| Torfaen | Torfaen | CDLl/LDP | 2006 - 2021 | 2013 | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No | Na No |
| Wrecsam | Wrexham | CDLl/LDP | 2013-2028 | 2023 | Oes Yes | Oes Yes (20%+) | Oes Yes | Oes Yes(5/15) | Oes Yes(5/15) | Oes Yes |
| Ynys Môn | Ynys Môn | CDLl/LDP (ar y cyd ag/joint withGwynedd) | 2011-2026 | 2017 | Oes Yes | Oes Yes(100%) | Na No | Oes Yes (5+) | Oes Yes (5+) | Oes Yes |

**Dadansoddiad**

- O'r 24 Cynllun Datblygu[40] a archwiliwyd roedd gan 10 o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol fachyn polisi penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o un o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2019. Nid oes gan Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir y Fflint fachyn polisi o'i gymharu â'i hen Gynllun Datblygu Unedol.
- Roedd naw Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dynodi ardaloedd daearyddol/gofodol o fewn eu ffiniau, gan gynnwys Gwynedd a Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri sy'n ystyried bod eu hardaloedd cyfan yn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol.
- Mae pedwar CDLl wedi nodi ardaloedd ieithyddol sensitif ar eu Mapiau Cyfyngiadau.
- Mae gan un awdurdod, Bannau Brycheiniog, fachyn polisi ond dim arweiniad gofodol.
- Yn ogystal â'r cynlluniau mabwysiedig hyn, mae gan Gynllun Datblygu Adneuo Newydd Sir Gaerfyrddin gynnig hefyd i fabwysiadu polisi sensitifrwydd ieithyddol ar gyfer ardal gyfan y CDLl.
- Mae angen Asesiad Effaith ar ddeg awdurdod cynllunio ar gyfer safleoedd annisgwyl mawr (gyda'r trothwy'n amrywio rhwng 10+ a 20+)
- Mae angen Datganiad Iaith neu Gynllun Gweithredu ar bum awdurdod ar gyfer safleoedd o 5 uned neu fwy.
- Mae gan naw awdurdod ganllaw cynllunio atodol mabwysiedig.

[40] Mae Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd

# Atodiad 2: Pensaernïaeth Rheoli Risg Effeithiol – y berthynas rhwng egwyddorion, fframwaith a phroses[41]




[41]Ffynhonnell: International Organization for Standardization (2,018) *Risk Management Principles and Guidelines*.

# Atodiad 3: Asesiad Effaith/Fframwaith Mwyafu Arfaethedig

**Fframwaith 1**

| Caerdydd Ddwyieithog | A fydd y Weledigaeth/Amcan/Strategaeth Polisi yn helpu/rhwystro | Dangosydd a’r cyfeiriad a ddymunir |
|---|---|---|
| **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** | Cyflawni cyfraniad y ddinas tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cyrraedd y targed o 55,277 erbyn diwedd 2036 | Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn parhau i gynyddu ac yn bodloni cyfraniad y ddinas i’r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050<br>Ffigurau gwaelodlin Cyfrifiad 2021<br>Canlyniadau Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth ar gyfer Caerdydd wedi eu haddasu<br>Cyfrifiad o’r Boblogaeth 2031 (yn amodol ar gadarnhad) |
| **Cynyddu'r defnydd o’r Gymraeg** | Defnydd cynyddol a normaleiddio'r Gymraeg | Cyfran y datblygiadau newydd ag enwau lleoedd Cymraeg |
| **Creu a chynnal amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.** | Creu cyfleoedd cyflogaeth i gadw nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc<br>Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym mhob datblygiad newydd | Gwerth rhwymedigaethau cynllunio a ddefnyddir i gefnogi'r Gymraeg |

**Fframwaith 2**

Methodoleg ar gyfer Asesu Dyraniadau Tai a Chyflogaeth Strategol ac Anstrategol

| Caerdydd Ddwyieithog | A fydd y Safleoedd Dyrannu yn helpu/rhwystro | Dangosydd a'r cyfeiriad a ddymunir |
|---|---|---|
| **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** | Cyrraedd y targed o 55,277 erbyn 2036 | Ffigurau gwaelodlin Cyfrifiad 2021 ar gyfer wardiau perthnasol<br>Canlyniadau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer Caerdydd wedi eu haddasu<br>Cyfrifiad o'r Boblogaeth 2031 (yn amodol ar gadarnhad) |
| **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg** | Defnydd cynyddol a normaleiddio'r Gymraeg | Cyfran y datblygiadau newydd ag enwau lleoedd Cymraeg |
| **Creu a chynnal amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.** | Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym mhob datblygiad newydd | Gwerth rhwymedigaethau cynllunio ar y safle a ddefnyddir i gefnogi'r Gymraeg |

# Atodiad 4: Sefydlu'r gwaelodlin ar gyfer nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2036

**Cyflwyniad**

1. Fel rhan o'r asesiad o effaith debygol yr CDLlN ar y Gymraeg, mae'r fethodoleg yn gofyn am ddatblygu model gwaelodlin (neu fodel 'busnes fel arfer') o'r hyn y gallai'r sefyllfa fod yn 2036 (diwedd cyfnod y Cynllun) heb ymyrraeth polisi Strategaeth a Ffefrir y Cynllun.

2. Nid yw'n hawdd sefydlu hyn oherwydd, er gwaethaf maes problemus amcanestyniadau a thaflwybrau poblogaeth, mae rhagweld trosglwyddo, caffael, defnyddio a cholled iaith yn y dyfodol yn faes hynod anodd a chymhleth, a wnaed hyd yn oed yn anoddach trwy geisio modelu effaith ymyriadau polisi.

**Dull Gweithredu**

3. Fel cam cyntaf yn natblygiad y gwaelodlin, mae IAITH/BURUM wedi ceisio deall taflwybr diweddaraf Llywodraeth Cymru (LlC) o ran sut y gallai gyflawni ei dyhead o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'i goblygiadau ar gyfer yr hyn a allai fod y sefyllfa yng Nghaerdydd erbyn diwedd 2036.[42]
4. Dylid nodi mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd diweddaru'r llwybr ar ôl cyhoeddi ystadegau perthnasol Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, mae oedi ar adeg ysgrifennu hwn oherwydd yr angen i ddeall pam fod canlyniadau'r Cyfrifiad yn amrywio'n sylweddol i'r darlun a awgrymir sy'n deillio o ganlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABP).
5. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer yr Arolwg Blynyddol ddiwedd 2023 yn awgrymu bod 896,000 o bobl 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg (29.2% o'r boblogaeth). Mae hyn yn cymharu â 538,000 o bobl 3 oed a hŷn a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Ar gyfer Caerdydd y ffigurau cyfatebol yw 84,600 (23.1%) ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o'i gymharu â 42,000 (12.2%) ar gyfer y Cyfrifiad.
6. Fel rhagrybudd i'r dadansoddiad a'r drafodaeth, mae'n bwysig ail-bwysleisio'r gwahaniaethau pwysig rhwng amcanestyniad a thaflwybr.
7. Diffinnir amcanestyniad yn y cyd-destun hwn fel "*nifer y siaradwyr Cymraeg a ragwelir os yw'r patrymau a'r tueddiadau presennol o ran y Gymraeg a'r boblogaeth yn parhau tan 2050.*"[43] Diffinir taflwybr yn y cyd-destun hwn fel "nifer y siaradwyr

[42] Ystadegau Llywodraeth Cymru (Mehefin 2017) *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011 i 2050.*
[43] Ibid. t2.

Cymraeg a amcangyfrifir yn seiliedig ar yr amcanestyniad yn ogystal â nifer o ragdybiaethau ynghylch nodau strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."[44]

**Amcanestyniadau Siaradwyr Cymraeg**

8. Roedd y data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniad a gynhwysir yn adroddiad LlC yn seiliedig ar y tair ffynhonnell ganlynol:
    - Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl oedran ar gyfer y cyfnod 2011 i 2013;
    - Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl oedran ar gyfer cyfnod 2014 i 2050;
    - data am allu'r Gymraeg yn ôl oedran o Gyfrifiad 2011.


9. Mae'r amcanestyniad yn seiliedig ar y model cysyniadol a ddyfeisiwyd gan Sankoff (2008)[45] ac yn rhagdybio'n fras y bydd canran y siaradwyr Cymraeg mewn un grŵp oedran mewn un flwyddyn yn hafal i'r ganran yn y grŵp oedran yn y flwyddyn flaenorol gydag addasiadau ar ragdybiaethau a wnaed ynghylch caffael iaith gan blant.

10. Mae **Ffigur 9** a **Tabl A12** yn cyflwyno amcanestyniadau LlC ar gyfer twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ystod y cyfnod 2011 i 2050. Fel y nodwyd o'r blaen, mae angen cymryd gofal gan eu bod yn seiliedig ar set o dybiaethau ynghylch tueddiadau, tueddiadau a fydd o bosibl/ yn debygol o newid dros amser.

[44] Ibid. t7.

[45] Sankoff, D. 2008. 'How to predict the evolution of a bilingual community' in Meyerhoff, M. a Nagy, N. (eds.) Social Lives in Language – Sociolinguistics and Multilingual Speech Communities Celebrating the Work of Gillian Sankoff. Prifysgol Caeredin/Prifysgol Toronto.

**Ffigur 9: Amcanestyniad LlC o niferoedd y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn, 2011 i 2050**




Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Ystadegau Llywodraeth Cymru (2017) Op. Cit.  Siart 2, t.  5.

**Tabl 12: Amcanestyniad LlC o niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn ar gyfnodau penodol hyd at 2050**

| Blwyddyn | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 2011 | 562,000 | 19 |
| 2017 | 570,000 | 19 |
| 2021 | 580,000 | 19 |
| 2026 | 600,000 | 19 |
| 2031 | 610,000 | 20 |
| 2036 | 630,000 | 20 |
| 2041 | 640,000 | 20 |
| 2046 | 650,000 | 20 |
| 2050 | 670,000 | 21 |

Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Ystadegau Llywodraeth Cymru (2017) Op. Cit., Tabl 1, t.5.

11. Mae'r tablau cefndir manylach[46] yn dangos nifer amcanestynedig o siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn yn cyrraedd 631,000 erbyn 2036 sy'n awgrymu cynnydd o ychydig o dan 68,000 erbyn 2033 (+12.1%).

12. Er na ddangosir yn uniongyrchol yn yr ystadegau, amcangyfrifodd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn 2014 y boblogaeth tair oed a hŷn dros Gymru yn 3,153,560

[46] Mae'r data hwn ar gael yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language.

yn rhoi ffigur canran o 19.7% (wedi'i dalgrynnu hyd at 20%) ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

13. Y ffigur a ragwelir ar gyfer cyfanswm poblogaeth Caerdydd ar gyfer 2036 gan ddefnyddio amcanestyniad LlC 2014 oedd 433,371.[47] Tybir bod poblogaeth amcanestynedig y ddinas tair oed a throsodd yn 421,055 (97.1% o'r cyfanswm). Nifer y bobl 3 oed a hŷn yn 2011 oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd 36,735.

14. Byddai cymhwyso'r un newid (12.5%) dros y cyfnod 2011 – 2036 yng nghanran poblogaeth gyffredinol Cymru sy'n dair oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg â'r newid a ragwelir yn y ganran gyffredinol ar gyfer siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghaerdydd yn arwain at dwf yn y nifer 36,735 *12.5% = 41,326.

15. Byddai hyn yn rhoi canran amcangyfrifir o'r boblogaeth 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg ar 9.8% erbyn 2036. Mae hyn yn cymharu â'r 11.1% a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011.

16. Mae amcanestyniad Llywodraeth Cymru 2018 yn adolygu poblogaeth Cymru gyfan sy'n dair oed a hŷn erbyn 2036 i 3,266,671. Mae'r amcanestyniad poblogaeth ar gyfer Caerdydd yn cael ei ddiwygio i 364,384.

17. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yng Nghymru wyriad sylweddol i'r rhagdybiaeth taflwybr (538,296 o'i gymharu â 580,000). Dangosodd y ffigyrau ar gyfer Caerdydd y cofnodwyd fod 42,753 (allan o 351,236 – 12.2% ) yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn eisoes yn sylweddol uwch na'r rhagdybiaeth o 41,326 pe byddai Caerdydd wedi dilyn taflwybr twf tebyg i amcanestyniad Cymru.

18. Am y rhesymau a roddir ym mharagraff 4 uchod, ni chaiff y canrannau siaradwyr Cymraeg a gynhyrchir yng Llywodraeth Cymru a gyflwynir yn **Ffigur 9** a **Tabl 12** uchod ei ddiweddaru tan ar ôl i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ddod yn hysbys.

**Taflwybr posib ar gyfer Siaradwr Cymraeg**


19. Cyfrifwyd taflwybr LlC gan adeiladu ar amcanestyniad LlC 2014 a gynhyrchwyd uchod fel gwaelodlin a chan ddefnyddio pedwar prif dybiaeth yn seiliedig ar nodau polisi'r strategaeth:

- trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.
- dysgu Cymraeg yn yr ysgol
- dysgu Cymraeg drwy Cymraeg i Oedolion; a
- parhad yng ngwelliant y gallu Cymraeg ôl-16.

20. Atgynhyrchir **Ffigur 10** a **Thabl A13** o adroddiad LlC.

[47] StatsCymru

**Ffigur 10:  Amcanestyniad a thaflwybr LlC ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn yng Nghymru, 2011 i 2050**




Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Ystadegau Llywodraeth Cymru (2017) Op. Cit.  Siart 6, t.  10.

21. Mae’r tablau cefndir manylach[48] yn dangos bod y taflwybr yn amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn 750,000 erbyn 2036.   Mae amcanestyniad LlC 2014 ar gyfer 3 oed a hŷn yng Nghymru sef 3,155,276 yn rhoi ffigur canranol o 23.8%.

**Tabl 13:  Niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn ar gyfnodau penodol hyd at 2050 yn ôl taflwybr Llywodraeth Cymru**

| Blwyddyn | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 2011 | 562,000 | 19 |
| 2017 | 580,000 | 19 |
| 2021 | 600,000 | 20 |
| 2026 | 630,000 | 20 |
| 2031 | 680,000 | 22 |
| 2036 | 750,000 | 24 |
| 2041 | 830,000 | 26 |
| 2046 | 920,000 | 29 |
| 2050 | 1,000,000 | 31 |


Ffynhonnell: atgynhyrchwyd o Ystadegau Llywodraeth Cymru (2017) Op. Cit., Tabl 2, t. 11.

[48] Mae'r data hwn ar gael yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language.

22. Byddai cymhwyso'r un newid (23.8%) yng nghanran y boblogaeth 3 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg i'r newid a ragwelir yn ffigur canrannol cyffredinol siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio Cyfrifiad 2021 fel gwaelodlin o bosibl yn arwain at dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd i 70,893 erbyn diwedd 2036.

23. Yn seiliedig ar dybiaeth poblogaeth y Strategaeth Dwf o tua 410,000 (a 398,100 yn 3 oed a hŷn) erbyn 2036 byddai hyn yn rhoi canran amcangyfrifedig o'r boblogaeth 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg ar 17.8%. Mae hyn yn cymharu â’r 12.2% a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021. Mae **Ffigur 11** yn dangos taflwybr y twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, yn seiliedig ar y taflwybr cyffredinol i Gymru.

**Ffigur 11:  Amcangyfrif o'r taflwybr twf siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2036**




Nodyn:   Mae gwaelodlin 2021 yn defnyddio'r niferoedd a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021.

**Cyfyngiadau**

24. Mae angen ail-bwysleisio’r gair o rybudd.  Mae'r uchod yn tybio bod canlyniadau’r strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* yn cael eu dosrannu'n gyfartal ar draws Cymru.  Deellir nad yw Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn bwriadu cynhyrchu taflwybrau gofodol na thargedau ar gyfer rhanbarthau a phob awdurdod lleol unigol. Yn absenoldeb taflwybrau o'r fath, y dybiaeth o effaith gyfartal ledled Cymru yw'r 'dyfaliad' sy'n gweithio orau.

* * * * * * *